

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd	Fay Bowen
Dyddiad: Dydd Llun, 25 Medi 2017	Clerc y Pwyllgor
Amser: 12.00	0300 200 6565
	SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

Sesiwn breifat

- 1 Craffu ar Gyfrifon 2016–17: Strategaeth y Pwyllgor**
(12.00 – 13.00)
- 2 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog: Papur briffio Archwilydd Cyffredinol Cymru**
(13.00 – 13.30)
- 3 Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf: Papur briffio Archwilydd Cyffredinol Cymru**
(13.30 – 13.40) (Tudalennau 1 – 59)
PAC(5)–23–17 Papur 1A – Rhaglen waith yr hydref

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
PAC(5)–23–17 Papur 1 – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
PAC(5)–23–17 Papur 2 – Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
- 4 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru**
(13.40 – 13.50) (Tudalennau 60 – 154)
Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
PAC(5)–23–17 Papur 3 – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru



Cyfarfod cyhoeddus

- 5 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(14.00)
- 6 Papur(au) i'w nodi**
(14.00 – 14.15) (Tudalennau 155 – 157)
- 6.1 Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach:
gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (18 Gorffennaf 2017)**
(Tudalennau 158 – 159)
- 6.2 Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat Ltd: gwybodaeth ychwanegol gan
Lywodraeth Cymru (21 Gorffennaf 2017)**
(Tudalen 160)
- 6.3 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: llythyr gan Dr Kate Chamberlain,
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (19 Gorffennaf 2017)**
(Tudalennau 161 – 162)
- 6.4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Llythyr gan Lywodraeth Cymru
(25 Gorffennaf 2017)**
(Tudalennau 163 – 165)
- 6.5 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (26
Gorffennaf 2017)**
(Tudalen 166)
- 6.6 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Ymateb Llywodraeth Cymru i
adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**
(Tudalennau 167 – 168)
- 6.7 Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru a Gwasanaethau
Orthopedig: y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru (7 Awst 2017)**
(Tudalennau 169 – 174)

- 6.8 Gweithredu Deddf Cymru 2017: Llythyr gan y Llywydd (18 Awst 2017) a llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (17 Medi 2017)**
(Tudalennau 175 – 178)
- 6.9 Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ac Addysg: ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**
(Tudalennau 179 – 187)
- 7 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor**
(14.15 – 14.25) (Tudalennau 188 – 202)
PAC(5)–23–17 Papur 4 – Ymateb Llywodraeth Cymru
PAC(5)–23–17 Papur 5 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
- 8 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor**
(14.25 – 14.35) (Tudalennau 203 – 211)
PAC(5)–23–17 Papur 6 – Ymateb Llywodraeth Cymru
PAC(5)–23–17 Papur 7 – Llythyr gan Gartrefi Cymunedol Cymru
PAC(5)–23–17 Papur 8 – Ymateb Bwrdd Rheoleiddiol Cymru
- 9 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Diweddariad Llafar**
(14.35 – 14.45)
- 10 Cyflog Uwch Reolwyr: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru**
(14.45 – 14.55) (Tudalennau 212 – 221)
PAC(5)–23–17 Papur 9 – Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (17 Awst 2017)
(Egwyl 14.55 – 15.05)

11 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog: sesiwn dystiolaeth

(15.05 – 16.10)

(Tudalennau 222 – 345)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-23-17 Papur 10 – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

PAC(5)-23-17 Papur 11 – Papur gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

PAC(5)-23-17 Papur 12 – Llythyr gan Lwodraeth Cymru

Len Richards – Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Maria Battle – Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro

12 Sesiwn ffarwél: Owen Evans – Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

(16.10 – 16.40)

(Tudalennau 346 – 355)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

13 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(16.40)

Eitemau 14 a 15

14 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'i Berchennog: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(16.40 – 16.50)

15 Sesiwn ffarwél: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(16.50 – 17.00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cyllid gan Lywodraeth Cymru i Ynni Sir Gâr Cyf



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Ian Hughes ac
Emma Woodcock o dan gyfarwyddyd Mike Usher.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

	Am beth y mae'r adroddiad hwn yn sôn	6
	Prif Gasgliadau	9
	Argymhellion	11
1	Mae tyrbín gwynt CELT2 yn un o dri chynllun gan Ynni Sir Gâr Cyf a gefnogir gan Lywodraeth Cymru	12
2	Roedd Panel Annibynnol yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cymeradwyo benthyciad tuag at adeiladu CELT2 gyda nifer o amodau	15
3	Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni liniaru'r risgiau gwrthdaro budd yn foddhaol cyn i Lywodraeth Cymru ryddhau'r cyllid ar gyfer CELT2	17
	Er i'r risg gael ei nodi'n glir, ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni na Ynni Sir Gâr Cyf roi mesurau effeithiol yn eu lle i liniaru'r gwrthdaro rhwng y ddwy rôl oedd gan Mr Steve Hack	20
	Nid oedd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni na Ynni Sir Gâr Cyf wedi rhoi mesurau effeithiol yn eu lle i liniaru'r gwrthdaro rhwng y ddwy rôl oedd gan Mr Ferguson-Walker	22
	Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni graffu'r gwarged disgwylidig ar gyfer cynlluniau manteision cymunedol	24
	Ni chafodd risg y gwrthdaro budd posib oedd yn gysylltiedig â chyflogaeth Dr Lewis fel rheolwr ar Gronfa Ynni Cymunedol ei nodi gan y Panel Annibynnol	27

4	Fel perchennog y cynllun, roedd Llywodraeth Cymru wedi dibynnu gormod ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer rheoli'r risgiau a nodwyd	28
5	Roedd y wybodaeth a roddwyd i'r Gweinidog er mwyn cytuno'r cyllid ar gyfer CELT2 yn anghyflawn ac anghytwys	30
Atodiadau		
	Atodiad 1 – Ynni Sir Gâr Cyf	33
	Atodiad 2 – cymorth gan Lywodraeth Cymru i gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol drwy ei phartner cyflawni, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni	34
	Atodiad 3 – trefn a dulliau ein harchwiliad	35
	Atodiad 4 – amserlen	36

Rhagarweiniad

Am beth y mae'r adroddiad hwn yn sôn

- 1 Ar 25 Medi 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (ar y pryd) y byddai cwmni Ynni Sir Gâr Cyf¹ (busnes di-wneud-elw) yn derbyn cymorth ariannol o £810,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at adeiladu tyrbin gwynt 500kW yn Salem yn Sir Gâr. Gelwir y tyrbin yn CELT2. Cafodd y pecyn cymorth ei ariannu gyda chyllid o Raglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys grant paratoadol o £25,000 ynghyd â benthyciad adeiladu (i'w dalu'n ôl) o £785,000.
- 2 Bu'r Rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy yn rhedeg rhwng 1 Ebrill 2015 a'r 31 Rhagfyr 2015 fel trefniant interim ar ôl i raglen pum mlynedd 'Ynni'r Fro' ddod i ben, oedd hefyd wedi cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol. Y rhaglen lawn i olynu Ynni'r Fro yw'r Gwasanaeth Ynni Lleol, a ddechreuodd ar 1 Ionawr 2016 (**Atodiad 2**). Mae'r rhaglenni hyn i gyd wedi cael eu rhedeg gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni², sy'n gweithio dan gontract i Lywodraeth Cymru.
- 3 Pwrpas craidd y rhaglenni hyn yw cynyddu nifer y gosodiadau ynni adnewyddadwy bach, lleol sydd yng Nghymru a chadw'r manteision yn y cymunedau eu hunain. Y bwriad oedd bod y rhaglenni'n hyblyg o ystyried pa mor gyflym y mae'r sector ynni adnewyddadwy yn newid.
- 4 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno newidiadau i'r cymorth a roddir i brosiectau ynni adnewyddadwy gan gynnig llai o gyllid a chyflwyno cap ar faint o brosiectau a allai dderbyn cymorth ar bob lefel, a dod â'r broses 'cyn-achredu' i ben³. Oherwydd bod gan grwpiau cymunedol gyfnod cyn-achredu a oedd, yn flaenorol, chwe mis yn hirach na datblygwyr masnachol, mae dileu'r broses wedi creu cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd y prosiectau masnachol drosodd. Roedd y cyllid gan Lywodraeth Cymru felly'n canolbwyntio ar fanteisio ar y cyfleoedd hyn er mwyn cynyddu nifer y gosodiadau ynni cymunedol ar draws Cymru.
- 5 Prosiect masnachol oedd CELT2 a roddwyd ar werth, ar bwynt ei adeiladu, a'i gynnig i gwmni Ynni Sir Gâr Cyf. Roedd y datblygwr o Sir Gâr, Seren Energy, wedi derbyn cynigion am y prosiect gan gwmnïau masnachol ond rhoddwyd y cynnig cyntaf i Ynni Sir Gâr Cyf pe gallai'r cwmni ariannu'r costau adeiladu a thalu pris cymharol. I wneud hynny, roedd angen benthyciad pontio ar Ynni Sir Gâr Cyf i brynu'r tyrbin, oedd eisoes wedi'i archebu, ar gyfer CELT2.


1 Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o fanylion am Carmarthenshire Energy Ltd

2 Cwmni cyfyngedig drwy warant, sy'n cyflawni rhaglenni ar gyfer llywodraeth ac yn darparu gwasanaeth ymgynghorol i fusnesau yn y DU ac i gwmnïau rhyngwladol.

3 Lle mae prosiectau sydd wedi cael caniatâd cynllunio'n gallu cofrestru am lefel y cyllid sydd ar gael ar y pwynt hwnnw'n hytrach na'r lefel sydd ar gael pan fo'r prosiect yn weithredol.

- 6 Talwyd y pris o £1.5 miliwn⁴ am brynu CELT2 gyda chymysgedd o gyllid preifat a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Dros amser, disgwylir i berchnogaeth gymunedol gynyddu drwy gynigion cyfranddaliadau i gymryd lle'r cyllid gwreiddiol. Mae **Dangoslun 1** yn dangos y cyllid gwreiddiol ar gyfer CELT2 a'i ffrwd referniw ddisgwyliedig.

Dangoslun 1: y cyllid gwreiddiol ar gyfer CELT2 a'i ffrwd referniw ddisgwyliedig



Ffynhonnell: Rhagamcanion y Swyddog Datblygu Technegol

- 7 Roedd bid Ynni Sir Gâr Cyf am gyllid i Lywodraeth Cymru'n rhagweld y byddai CELT2 yn cynhyrchu incwm o £10.5 miliwn dros 25 mlynedd y prosiect, drwy gynhyrchu trydan. Amcangyfrifwyd hefyd y byddai £2.6 miliwn o warged ariannol i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol lleol.
- 8 Ym mis Medi 2016 daeth tyrbîn gwynt CELT2 yn weithredol. Mae'r trydan a gynhyrchir ganddo'n bwydo i'r Grid Cenedlaethol yn gyfnewid am referniw sy'n seiliedig ar Dariff Cyflenwi Trydan⁵. Mae'r cwmni ar y blaen gyda thalu'r benthyciad gan Lywodraeth Cymru yn ôl. Mae gwarged ariannol o'r prosiect bellach yn cael ei fuddsoddi mewn cynlluniau lleol fel waliau cerrig sychion, paneli solar a storfa fatri yn y neuadd bentref gyfagos, gweler **Dangoslun 2**.

4 Rhagamcan ariannol y Cynnig Cyfranddaliad yn Ebrill 2016

5 Rhaglen gan Lywodraeth y DU yw'r cynllun Tariff Cynhyrchu Trydan (FIT) i annog prosiectau cynhyrchu trydan carbon isel adnewyddadwy bychain. Mae angen i gwmnïau a drwyddedir o dan y FIT wneud taliadau tariff penodedig am y trydan sy'n cael ei gynhyrchu a'i allforio i'r Grid Cenedlaethol.

Dangoslun 2: mae Neuadd Gymuned Salem wedi elwa o baneli solar, porth gwefru ceir a chapasiti Batri Ion Lithiwm



Ffynhonnell: Ynni Sir Gâr Cyf

- 9 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi derbyn gohebiaeth gan breswylwyr lleol a'r Aelod Cynulliad lleol yng nghyswilt y cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i gwmni Ynni Sir Gâr Cyf. Mae'r ohebiaeth yn lleisio nifer o bryderon ynghylch defnyddio arian cyhoeddus i gefnogi'r prosiect CELT2. Yn benodol maent yn:
- a lleisio amheuaeth ynghylch faint y mae preswylwyr lleol yn debygol o elwa o unrhyw warged ariannol a ddaw o reffeniw'r tyrbîn gwynt;
 - b awgrymu y byddai cyfarwyddwr ac un o sefydlwyr Ynni Sir Gâr Cyf yn elwa'n bersonol oherwydd ei fuddiannau yn y cwmnïau oedd yn gyfrifol am ddatblygu, gwerthu a chynnal a chadw safle CELT2. Fodd bynnag, er hynny roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cymorth ariannol er ei bod yn ymwybodol o'r elw personol posib; a
 - c roeddent hefyd wedi nodi bod y Swyddog Datblygu Technegol a ddyrannwyd i Ynni Sir Gâr Cyf o dan raglenni cymorth Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfarwyddwr ac un o sefydlwyr y cwmni. Roedd y preswylwyr lleol yn cwestiynu pa mor wrthrychol a diduedd oedd y swyddog hwn o ystyried ei ddwy rôl.

- 10 Dangosodd ein gwaith archwilio rhagarweiniol fod materion gwrthdaro budd yn sicr yn codi gyda rhai aelodau o Ynni Sir Gâr Cyf a bod pryderon cyfreithlon ynghylch sut yr ymddengys y deliwyd â'r mater. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol wneud archwiliad gwerth am arian o'r prosiect.
- 11 Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r risgiau a ddaeth i'r amlwg gyda'r prosiect, gan gynnwys a gafodd y materion gwrthdaro budd eu rheoli'n briodol.
- 12 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi dau gynllun arall gan Ynni Sir Gâr Cyf (CELT1 ac Allt Cafan). Hyd yma mae'r cyllid a roddwyd i'r prosiectau hyn wedi cynnwys grantiau paratoadol o £14,114 i'r naill a £34,037 i'r llall. Oherwydd nad yw'r ddau gynllun hwn wedi dechrau eto, nid ydym wedi edrych arnynt yn fanwl.
- 13 Mae **Atodiad 3** yn egluro trefn a dulliau ein harchwiliad.

Prif Gasgliadau

- 14 Mae'r tyrbin gwynt CELT2 wedi bod yn weithredol ers Medi 2016. Mae Ynni Sir Gâr Cyf eisoes wedi dechrau buddsoddi peth o'r gwarged ariannol mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol ac yn bwriadu gwneud hynny dros 25 mlynedd disgwylid y cynllun. Bu'n bosib gwneud hyn oherwydd y cymorth ariannol a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru. Heb y cymorth hwn, byddai CELT2 wedi mynd i ddwylo preifat. Mae Ynni Sir Gâr Cyf hefyd ar y blaen gyda thalu benthyciad Llywodraeth Cymru'n ôl.
- 15 Er bod y tyrbin wedi'i osod yn llwyddiannus ac yn weithredol, cawsom fod nifer o wendidau yn y modd y mae'r prosiect yn cael ei lywodraethu, yn enwedig o ran ymdrin â'r gwrthdaro budd gwirioneddol a phosib.
- 16 Roedd Llywodraeth Cymru wedi dibynnu gormod ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer rheoli'r risgiau gwrthdaro budd a nodwyd yng nghais CELT2 am gyllid. Nid oedd y trefniadau'n foddhaol i liniaru'r risg i lefel dderbyniol. Roedd y wybodaeth a roddwyd i'r Gweinidog er mwyn cytuno'r cyllid ar gyfer CELT2 yn anghyflawn ac anghytbwys.

17 Yn benodol, cawsom:

- a Er bod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi nodi nifer o risgiau oedd yn gysylltiedig â CELT2 a oedd angen eu lliniaru, ni cheisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru ddilysu effeithiolrwydd trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli'r risgiau hyn. Ni chafodd y risgiau gwrthdaro budd eu lliniaru i lefel foddhaol cyn rhyddhau'r cyllid cyhoeddus i Ynni Sir Gâr Cyf.
- b Roedd y cyflwyniad ffurfiol a baratowyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru'n gofyn i'w Gweinidog gytuno'r pecyn cyllid arfaethedig yn anghyflawn ac anghybwys. O ran y cyngor ynddo:
 - nid oedd yn sôn am y materion gwrthdaro budd gwirioneddol a phosib sylweddol oedd yn codi;
 - nid oedd felly'n egluro sut yr oedd swyddogion wedi lliniaru'r risgiau hyn, a risgiau eraill, i lefel dderbyniol; a
 - roedd wedi'i ategu gan ragamcan o £2.6 miliwn o warged cymunedol oedd yn seiliedig ar fodel rhagamcan a luniwyd gan Swyddog Datblygu Technegol oedd ei hun â gwrthdaro budd fel un o gyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf.
- c Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso'r rhagamcan gwarged o £2.6 miliwn yn annibynnol nac ychwaith wedi ceisio tynnu sylw'r Gweinidog at ystod o ganlyniadau posib. Yn bwysig, roedd y rhagamcan hwn tua dwywaith y ffigur o £1.3 miliwn a ddilyswyd yn annibynnol ac a ddefnyddiwyd gan Ynni Sir Gâr Cyf ei hun fel rhan o'r cynnig cyfranddaliadau cyhoeddus yn fuan wedyn.

18 Er na chafodd y gwrthdaro budd ei reoli'n dda fel rhan o lywodraethu'r prosiect hwn, ni chawsom fod unrhyw un o'r unigolion dan sylw wedi ymddwyn yn amhriodol yng nghyswllt unrhyw fater lle'r oedd ganddynt fudd yn gwrthdaro.

Argymhellion

Argymhellion	
A1	Dylai Llywodraeth Cymru fodloni ei hun bod gan ei phartneriaid cyflawni drefniadau effeithiol ar gyfer adnabod a lliniaru risg.
A2	Dylai Llywodraeth Cymru annog yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i rannu arferion llywodraethu ariannol da gyda phrosiectau sy'n derbyn cymorth o dan raglen y Gwasanaeth Ynni Lleol.
A3	Dylid ehangu'r hyfforddiant a roddir i Swyddogion Datblygu Technegol sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru i gynnwys llywodraethu ariannol ynghyd ag adnabod a rheoli gwrthdaro budd.
A4	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob Cyflwyniad i Weinidogion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Er enghraifft; lle mae gwrthdaro budd wedi'i adnabod, dylai Cyflwyniadau i Weinidogion gyfeirio atynt a nodi sut y bwriedir lliniaru / rheoli'r risgiau cysylltiedig.
A5	Lle gellir mesur canlyniadau prosiect, ond eto lle maent yn ansicr neu lle gallent amrywio'n sylweddol, dylai Cyflwyniadau i Weinidogion nodi ar ba sail y gwneir y rhagamcanion ariannol a ddefnyddir a, lle bo hynny'n briodol, disgrifio'r ystod lawn o ganlyniadau posib ar sail dadansoddiad sensitifrwydd.

Rhan 1

Mae tyrbîn gwynt CELT2 yn un o dri chynllun gan Ynni Sir Gâr Cyf a gefnogir gan Lywodraeth Cymru



Tudalen y pecyn 29

1.1 Ers Ionawr 2010 mae Llywodraeth Cymru, drwy ei chynllun Ynni'r Fro a'i rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy, wedi rhoi cymorth ariannol a thechnegol i Ynni Sir Gâr Cyf ar gyfer tri phrosiect gwahanol. Crynhoir y rhain isod yn **Dangoslun 3**:

Dangoslun 3: prosiectau Ynni Sir Gâr Cyf a gefnogir gan Lywodraeth Cymru



Tyrbin gwynt **CELT1** yn Llanarthne

Statws: Caniatâd cynllunio heb ei roi felly nid aeth y cynllun yn ei flaen

Grant paratoadol o £14,114



Cynllun trydan dŵr **Ailt Cafan**, Pentrecwrt

Statws: Mae Ynni Sir Gâr Cyf wedi cytuno, ar benawdau telerau prydles ac mae'r cynllun yn dal i fod yn y cam datblygu

Grant paratoadol o £34,037



Tyrbin gwynt **CELT2** yn Salem

Statws: yn ei le ac yn cynhyrchu trydan

15 Gorff 2015: Grant paratoadol o £25,000

12 Awst 2015: Benthyciad o £785,000

Nodyn

1 Penawdau Telerau yw cyfres o egwyddorion y cytunir arnynt cyn llofnodi'r contract ac y mae'r partiön yn bwriadu iddynt gael eu hadlewyrchu yn y contract ysgrifenedig. Maent yn nodi beth yw sail y cytundeb yn fras. Mae'n bwysig cofnodi trafodaethau contract fel bod cyn lleied o faterion annisgwyl â phosib yn codi pan gynhyrchir drafft cyntaf y contract.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

- 1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i brosiectau ynni cymunedol a lleol ers 2010. Roedd y rhaglen Ynni'r Fro'n rhoi grantiau datblygu, grantiau adeiladu ynghyd â chymorth gan Swyddogion Datblygu Technegol.

Rôl gyffredinol y Swyddog Datblygu Technegol

Mae'r rôl hon yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Disgrifir y rôl fel a ganlyn ar hyn o bryd:

'Mae Swyddogion Datblygu'n gweithredu fel y cyswllt 'ar y ddaear' gyda sefydliadau sy'n datblygu prosiectau gan roi cyngor a chymorth a rhoi mynediad at gyllid gan raglenni Ynni Lleol. Fodd bynnag, ni fydd y Swyddog yn cyflawni ystod eang o weithgareddau i lenwi'r bwlch mewn capasiti ac adnoddau yn y gymuned neu mewn cwmni bach neu ganolig, ac ni fydd yn gwneud gwaith rheoli prosiect manwl na'n gweithredu fel cynrychiolydd neu lofnodwr ar gyfer grwpiau wrth ddelio â chyrrff fel rheoleiddwyr, cyfreithwyr neu ddarparwyr cyllid.'

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 1.3 Daeth y rhaglen Ynni'r Fro, oedd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, i ben ym mis Mawrth 2015. Parhawyd gyda rhaglen gymorth interim (y Rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy) tra bod rhaglen i'w holynu, y Gwasanaeth Ynni Lleol, yn cael ei chyd-ddatblygu gyda'r sector gan Lywodraeth Cymru a'i lansio yn Ionawr 2016. Fel gyda'r rhaglenni a ddaeth o'i blaen, mae'r Gwasanaeth Ynni Lleol yn cael ei redeg gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni dan gontract i Lywodraeth Cymru.

Rhan 2

Roedd Panel Annibynnol yr
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi
cymeradwyo benthyciad tuag at
adeiladu CELT2 gyda nifer o amodau



- 2.1 Ym mis Gorffennaf 2015, roedd Ynni Sir Gâr Cyf wedi gofyn i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni am £810,000 o'r Rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy tuag at adeiladu tyrbîn gwynt CELT2. Roedd yr arian yn cynnwys grant paratoadol o £25,000 a benthyciad cyfalaf o £785,000. Roedd angen y grant i dalu ffioedd cyfreithiol oedd yn gysylltiedig â phrynu'r tyrbîn ac i weinyddu a hyrwyddo cynnig cyfranddaliadau cyhoeddus. Roedd taer angen y benthyciad ar Ynni Sir Gâr Cyf i brynu'r tyrbîn (a fyddai fel arall wedi cael ei werthu i ddatblygwr masnachol) ac i barhau gyda'r gwaith o ddatblygu'r safle mewn pryd i elwa o'r tariff uwch.
- 2.2 Roedd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi sefydlu Panel Annibynnol (ar gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru) fel corff i benderfynu ar geisiadau am fenthyciadau a grantiau llai o dan y rhaglen. Roedd y Panel yn cynnwys arbenigwyr cyfreithiol, cyfrifyddu a thrydydd sector ynghyd â swyddogion o Lywodraeth Cymru. Roedd Swyddogion Datblygu Technegol hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Panel i roi cyngor arbenigol ar geisiadau na chawsant ran ynddynt. Roedd gan y Panel awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo ceisiadau hyd at £250,000, ac roedd hefyd yn ystyried ceisiadau mwy (fel yr elfen fenthyciad ar gyfer prosiect CELT2) cyn i swyddogion Llywodraeth Cymru eu cyflwyno i'w Gweinidog am gymeradwyaeth.
- 2.3 Cyfarfu'r Panel ar 27 Gorffennaf 2015 i ystyried ac asesu'r ceisiadau am gymorth grant a benthyciad ar gyfer CELT2. Roedd papur briffio wedi'i baratoi ar gyfer y Panel gan swyddogion o'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Roedd y papur hwnnw'n nodi'r materion llywodraethu oedd yn codi a'r risgiau oedd yn gysylltiedig â'r cais a hefyd yn cynnig nifer o fesurau y gellid eu cymryd i liniaru'r risgiau hyn i lefel dderbyniol.
- 2.4 Roedd yn glir i aelodau'r Panel bod prosiect CELT2 yn debygol o lwyddo heb gyllid gan Lywodraeth Cymru oherwydd roedd gan fuddsoddwyr preifat eisoes ddiddordeb yn ei brynu. Fodd bynnag, roedd y papur i'r Panel yn nodi bod hwn yn gyfle da i helpu grŵp cymunedol i brynu'r hawliau i safle gyda chaniatâd llawn. Roedd sicrhau manteision y cynllun i'r gymuned leol felly'n ffactor hollbwysig yn nhrfafodaethau'r Panel.
- 2.5 Yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf, penderfynodd y Panel gymeradwyo cyflwyno'r grant a'r benthyciad⁶ i'r Gweinidog am gymeradwyaeth, ond gyda saith amod yn ymwneud yn bennaf ag amrywiol wiriadau ar agweddau ariannol y prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys perchnogaeth gyfreithiol y tyrbîn, sicrhau manteision i'r gymuned a gallu rheoli'r materion gwrthdaro budd yn foddhaol. Ystyrir y materion hyn yn rhan nesaf yr adroddiad hwn.

6 Roedd y benthyciad yn wreiddiol am 12 mis ond ers hynny mae wedi cael ei ail-negodi a'i drosglwyddo i Cyllid Cymru. Mae'r telerau ad-dalu'n cael eu cwrdd gan Carmarthenshire Energy Limited.

Rhan 3

Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni liniaru'r risgiau gwrthdaro budd yn foddhaol cyn i Lywodraeth Cymru ryddhau'r cyllid ar gyfer CELT2



3.1 Roedd gan dri o aelodau sefydlu a Chyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf (Mr Steve Hack⁷, Mr Ben Ferguson-Walker⁸ a'i Gadeirydd, Dr Neil Lewis) fuddiannau busnes oedd yn creu gwrthdaro gwirioneddol neu bosib â'u rôl fel Cyfarwyddwyr. Mae **Dangoslun 4** yn crynhoi pob un o'r buddiannau hyn ynghyd â'u cysylltiadau unigol â'r tri chynllun gan Ynni Sir Gâr Cyf a dderbyniodd gymorth gan Lywodraeth Cymru.

3.2 Roedd y papur i'r Panel yn nodi'n gywir chwe risg sylweddol oedd yn gysylltiedig â'r cais am fenthyciad i CELT2, a bod angen lliniaru pob un ohonynt:

a Amseru'r materion cyfreithiol

Y risg i Lywodraeth Cymru pe na bai'r ddogfen Penawdau Telerau wedi'i throsi'n ddogfen oedd yn rhwymo'r partïon yn gyfreithiol, gan roi rheolaeth lawn o'r safle i Ynni Sir Gâr Cyf cyn rhyddhau'r cyllid.

b Argaeledd cyllid

- Roedd cyllid masnachol yn cael ei drafod gyda darpar-fenthycwyr ond nid oedd unrhyw gynigion pendant yn eu lle eto.
- Y posibilrwydd na ellid cyrraedd y targed o godi gwerth £500k o gyfrandaliadau cymunedol, ac os felly byddai angen i'r benthyciad gan Lywodraeth Cymru, oedd i'w dalu'n ôl ar ôl cwblhau'r prosiect, gael ei drosi'n ddyled fwy hirdymor.

c Perchnogaeth o'r tyrbin ac adennill TAW

Roedd angen i'r contract ar gyfer CELT2 fod rhwng cyflenwr y tyrbin (Enercon Ltd) a Ynni Sir Gâr Cyf, i roi syniad clir i Lywodraeth Cymru o'r hyn y byddai'n ei ariannu. Byddai hyn hefyd yn dileu unrhyw gyfyngiadau Treth ar Werth a allai godi.

ch Risg gyda'r gwaith adeiladu

Gallai problemau gyda chwblhau'r prosiect ar amser effeithio ar godi arian pellach, ac os felly byddai angen trosi'r benthyciad gan Lywodraeth Cymru, oedd i'w ad-dalu ar ôl cwblhau'r prosiect, yn ddyled fwy hirdymor.

d Y pris a dalwyd am y tyrbin

Byddai angen gwiriadau annibynnol i sicrhau bod y pris oedd yn cael ei dalu am y tyrbin, a'r breindaliadau i ddatblygwr y safle (Mr Hack) yn adlewyrchu pris marchnad teg.

dd Gwrthdaro budd posib

Byddai Mr Steve Hack, un o gyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf, yn elwa'n bersonol oherwydd ei fuddiannau yn y cwmnïau oedd yn datblygu safle CELT2 ac yn gosod y tyrbin gwynt.

⁷ Mae Mr Hack wedi ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf ers Gorffennaf 2016

⁸ Mae Mr Ferguson-Walker wedi ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf ers Ionawr 2016

Dangoslun 4: buddiannau busnes y Cyfarwyddwyr yn y cynlluniau gan Ynni Sir Gâr Cyf a dderbyniodd gymorth gan Lywodraeth Cymru



CELT1

Datblygwr y cynllun yw Seren Energy. Mae Mr Hack yn gyfarwyddwr ar y cwmni.

Mr Ferguson-Walker yw'r Swyddog Datblygu Technegol wedi'i gyflogi o dan raglen gymorth Llywodraeth Cymru.



Allt Cafan

Mr Hack sydd piau'r tir ac mae'n datblygu'r cynllun drwy ei gwmnïau Seren.

Mr Ferguson-Walker yw'r Swyddog Datblygu Technegol wedi'i gyflogi o dan raglen gymorth Llywodraeth Cymru.



CELT2

Datblygwr y cynllun yw Seren Energy a gweithredwr y safle yw Seren Renewables. Mae Mr Hack yn Gyfarwyddwr ar y ddau gwmni.

Mr Ferguson-Walker yw'r Swyddog Datblygu Technegol wedi'i gyflogi o dan raglen gymorth Llywodraeth Cymru.

Mae gan **Dr Neil Lewis** rôl fel Rheolwr ar Gronfa Ynni Cymunedol sy'n darparu benthyciadau tymor byr i gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ac a reolir gan Fanc Cymunedol di-wneud-elw. Roedd y Banc Cymunedol hwn yn fenthycwr a gymrodd ran mewn trafodaethau gyda Ynni Sir Gâr Cyf i sicrhau benthyciad ôl-adeiladu.

Ffynhonnell: Datganiadau Ynni Sir Gâr Cyf

- 3.3 Er ein bod yn fodlon bod y pum risg gyntaf wedi cael eu lliniaru'n briodol, yn ein barn ni nid yw'r risg 'gwrthdaro budd posib' wedi cael ei lliniaru'n foddhaol. Dylai'r papur i'r Panel fod wedi cyfeirio at wrthdaro budd a allai godi gyda Dr Lewis ac at y gwrthdaro budd gwirioneddol oedd yn codi gyda Mr Hack a Mr Ferguson-Walker.

Er i'r risg gael ei nodi'n glir, ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni na Ynni Sir Gâr Cyf roi mesurau effeithiol yn eu lle i liniaru'r gwrthdaro rhwng y ddwy rôl oedd gan Mr Steve Hack

- 3.4 Roedd y papur i'r Panel Annibynnol yn nodi y byddai Mr Hack yn elwa'n bersonol o unrhyw gyllid a fyddai'n cael ei roi tuag at brosiect CELT2 gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn adlewyrchu ei rôl fel Cyfarwyddwr ar Seren Energy Limited a hefyd ar Seren Renewables Limited, ac yn codi oherwydd:
- a Seren Energy oedd wedi caffael y tyrbîn – roedd yn bwriadu ei werthu ymlaen i Ynni Sir Gâr Cyf ac yn bwriadu rhoi benthygiad pontio i ariannu'r trafodiad busnes hwn;
 - b Roedd Ynni Sir Gâr Cyf wedi cytuno i dalu breindal blynyddol i Seren Renewables o'r elw a fyddai'n dod o'r incwm gwerthu trydan; a
 - c Contractiwyd Seren Renewables i weithredu'r safle a chynnal a chadw'r tyrbîn.
- 3.5 Dywedodd y papur i'r Panel fod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi'i sicrhau na chafodd Mr Hack ran ym mhenderfyniadau Ynni Sir Gâr Cyf. Roedd y papur hefyd wedi nodi'r mesurau ychwanegol canlynol y gellid eu cymryd i liniaru'r risg oedd yn codi o wrthdaro buddiannau Mr Hack:
- a cael gafael ar dystiolaeth i gefnogi'r sicrwydd a roddwyd na chafodd ran ym mhenderfyniadau Ynni Sir Gâr Cyf;
 - b cael cysur o'r ffaith na fyddai'n rhan o unrhyw benderfyniad yn ymwneud â dosbarthu manteision i'r gymuned yn y dyfodol; a
 - c y gellid gofyn iddo sefyll i lawr o'i rôl gyda chwmmi Ynni Sir Gâr Cyf.

Wrth argymhell cymeradwyo'r cyllid yn amodol, roedd y Panel wedi gofyn bod cytundeb y benthygiad yn cynnwys amod penodol bod 'yn rhaid i'r derbynnydd ddangos tystiolaeth ar gyfer delio'n foddhaol â gwrthdaro budd gyda'r penderfyniad hwn a phenderfyniadau eraill posib yn y dyfodol'. Fodd bynnag, ni ofynnodd y Panel i Mr Hack sefyll i lawr o'i rôl gyda Ynni Sir Gâr Cyf.

- 3.6 Dywedodd Mr Ferguson-Walker wrthym ei fod wedi gwneud yr hyn a allai (fel y Swyddog Datblygu Technegol yn gweithio gyda Ynni Sir Gâr Cyf) i sicrhau na fyddai Mr Hack yn rhan o unrhyw benderfyniadau allweddol lle'r oedd ganddo fudd busnes personol. Cawsom hefyd wybod gan Dr Lewis, Cadeirydd Ynni Sir Gâr Cyf, y gofalwyd i eithrio Mr Hack o bob penderfyniad allweddol lle'r oedd ganddo fudd busnes personol.
- 3.7 Fe wnaethom ofyn i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni sut yr oedd wedi bodloni ei hun bod gwrthdaro budd yn cael ei reoli'n effeithiol gan Ynni Sir Gâr Cyf. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod wedi adolygu cofnodion cyfarfodydd Ynni Sir Gâr Cyf i gael y sicrwydd angenrheidiol.
- 3.8 Rydym wedi adolygu cofnodion Ynni Sir Gâr Cyf rhwng 10 Ebrill 2013 a'r 15 Mehefin 2016⁹ ein hunain i sefydlu a oeddent yn cefnogi'r sicrwydd y gofynnodd y Panel amdano. Fodd bynnag, yn groes i arferion llywodraethu da:
- a cawsom nad oedd eitem sefydlog ar ddechrau pob cyfarfod lle mae angen i gyfarwyddwyr ddatgan budd mewn eitemau ar yr agenda;
 - b roedd cofnodion y cyfarfodydd wedi cofnodi 28 achlysur pryd yr arhosodd Mr Hack yn rhan o drafodaeth y cyfarfodydd er bod ganddo wrthdaro budd yn CELT1, Allt Cafan a CELT2; a
 - c ar bob un o'r 28 achlysur hwnnw, nid oedd y cofnodion yn dweud dim bron am y drafodaeth a gafwyd ar y tri phrosiect.
- Dim ond chwe gwaith y gwnaethom nodi fod Mr Hack wedi gadael y cyfarfod pan oedd CELT1, Allt Cafan a CELT2 yn cael eu trafod.
- 3.9 Daethom felly i'r casgliad na fydda wedi bod yn bosib i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni dderbyn sicrwydd boddhaol o'i hadolygiad ei hun o'r cofnodion bod Ynni Sir Gâr Cyf yn wir wedi delio'n effeithiol â gwrthdaro budd Mr Hack. Fodd bynnag, yn bwysig, ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod Mr Hack wedi ymddwyn yn amhriodol yng nghyswllt unrhyw fater lle'r oedd ganddo fudd personol.
- 3.10 Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni gopi o'i 'Pholisi Gwrthdaro Budd' ei hun i Ynni Sir Gâr Cyf ar gyfer ei fabwysiadu, i helpu'r cwmni i gryfhau ei lywodraethu yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei wneud tan fis Mawrth 2016, fisoedd lawer ar ôl i Ynni Sir Gâr Cyf dderbyn yr arian benthyciad gan Lywodraeth Cymru ar 8 Rhagfyr 2015. Mabwysiadodd Ynni Sir Gâr Cyf y polisi yn y mis canlynol, yn Ebrill 2016.

9 13 Ebrill 2013 – dyddiad derbyn y cofnodion cyntaf, a'r 15 Mehefin 2016 – dyddiad y cyfarfod olaf cyn agor CELT2

- 3.11 Mae'r polisi'n cynnwys trothwy o £100,000 oedd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer datgelu budd personol mewn cyfarfodydd. Cafodd hwn hefyd ei fabwysiadu heb ei newid gan Ynni Sir Gâr Cyf. Yn ein barn ni, mae £100,000 yn drothwy datgelu llawer rhy uchel i unrhyw fusnes di-wneud-elw ei fabwysiadu. Roedd yn golygu mewn gwirionedd na chafodd unrhyw fudd oedd wedi'i ddatgelu gan y cyfarwyddwyr (gan gynnwys y Swyddog Datblygu Technegol) yng nghyswllt gwaith a wnaed gan eu cwmnïau eu hunain, neu gwmnïau sy'n cael eu rhedeg gan eu perthnasau, ei adlewyrchu yn y cofnodion oherwydd bod y buddiannau hynny'n werth llai na'r trothwy o £100,000.
- 3.12 Ym mis Gorffennaf 2016, safodd Mr Hack i lawr am resymau personol fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf. Gwnaeth hyn yn fuan ar ôl iddo ddatgan budd o dan y polisi Gwrthdaro Budd oedd wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar gan Ynni Sir Gâr Cyf.
- 3.13 Mae Mr Hack wedi rhoi gwybod i ni, heb gael cynnig y safle a'r benthyciad tymor byr gan Seren Energy, y byddai'r prosiect CELT2 yn annhebygol o fod wedi cael ei adeiladu gan Ynni Sir Gâr Cyf. O ran y materion gwrthdaro budd, credai fod y rhain yn anochel oherwydd dim ond ychydig iawn o bobl brofiadol sydd yn Ne-Orllewin Cymru sy'n fodlon ac yn gallu gwirfoddoli.

Nid oedd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni na Ynni Sir Gâr Cyf wedi rhoi mesurau effeithiol yn eu lle i liniaru'r gwrthdaro rhwng y ddwy rôl oedd gan Mr Ferguson-Walker

- 3.14 Roedd y papur i'r Panel yn nodi, ond ni chyflwynodd hynny fel risg oedd angen ei liniaru, bod gan Mr Ferguson-Walker y ddwy rôl ganlynol:
- cyfarwyddwr oedd yn gweithio ac yn gyfrifol am faterion rheolaeth, llywodraethu a gweithredol Ynni Sir Gâr Cyf; a
 - y Swyddog Datblygu Technegol a ddyrannwyd i Ynni Sir Gâr Cyf. Mr Ferguson-Walker oedd y cyswllt 'ar y ddaear' gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Llywodraeth Cymru. Roedd yn rhoi cyngor a chymorth fel y gallai Ynni Sir Gâr Cyf wneud ceisiadau am gyllid o gynlluniau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.
- 3.15 Rydym wedi adolygu cofnodion cyfarfodydd bwrdd Ynni Sir Gâr Cyf a hefyd wedi cael cyfarfod â Mr Ferguson-Walker i drafod ei waith ar brosiect CELT2, ac yn fwy cyffredinol fel Swyddog Datblygu Technegol. Dywedodd Mr Ferguson-Walker wrthym fod diffyg capasiti sylweddol yn Ynni Sir Gâr Cyf, a'i fod felly wedi ymgymryd ag ystod eang o waith ar yr un pryd â bod yn Gyfarwyddwr a Swyddog Datblygu Technegol.

- 3.16 Er nad oedd Mr Ferguson-Walker yn un o'r llofnodwyr ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf, nodwn fod ei gyfeiriad e-bost wedi'i roi fel pwynt cyswllt ychwanegol ar y cais am fenthyciad cyfalaf i Lywodraeth Cymru, gan adlewyrchu ei statws fel un o'r sefydlwyr. Cyflwynwyd ei fodel llif arian ar gyfer CELT2 gyda'r cais am gyllid ar gyfer CELT2. Mae'r pethau hyn yn dangos y gwrthdaro rhwng ei rolau fel y Swyddog Datblygu Technegol ac un o Gyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf.
- 3.17 Yn ystod ein gwaith maes, cawsom hefyd fod Mr Ferguson-Walker yn un o'r tri Chyfarwyddwr presennol ar gwmni o'r enw E.W. Energy Ltd. Nid yw'n ymddangos bod y cwmni hwn yn masnachu ar hyn o bryd. Mr Steve Hack a Seren Energy Ltd yw'r ddau gyfarwyddwr arall ar y cwmni hwn. Ni chafodd rôl Mr Ferguson-Walker fel cyfarwyddwr gydag E.W. Energy Ltd ei hadlewyrchu o gwbl yn unrhyw un o'r camau i'w lliniaru gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Eglurodd Mr Ferguson-Walker wrthym ei fod wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr fel rhan o'i ddyletswyddau gwirfoddol fel Cyfarwyddwr Ynni Cymunedol gyda Pembrokeshire Ltd ac nad yw'n cynhyrchu unrhyw fudd personol iddo. Fodd bynnag, ystyriwn y dylai'r berthynas flaenorol rhwng Mr Ferguson-Walker (fel Swyddog Datblygu Technegol ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf) a Mr Hack (fel datblygwr CELT2) fod wedi cael ei hadnabod a'i hystyried gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fel rhan o'i hasesiad risg cyffredinol o'r cais am gyllid ar gyfer CELT2.
- 3.18 Nodwn y sylw yn y papur i'r Panel y gofalwyd i osgoi unrhyw wrthdaro budd posib gan ei Swyddog Datblygu Technegol. Fodd bynnag, o ystyried ystod gweithgareddau Mr Ferguson-Walker, mae'n anodd gweld sut y gallai'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fod wedi lliniaru'r risg yma'n effeithiol ac yntau'n parhau i fod yn y ddwy rôl. Yn ein barn ni felly, roedd angen dileu'r risg yma. Gallai hyn fod wedi digwydd pe bai Mr Ferguson-Walker wedi ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf ac E.W. Energy Ltd, neu pe bai wedi rhoi'r gorau i fod yn Swyddog Datblygu Technegol ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf a phe bai Swyddog Datblygu Technegol arall wedi cael ei ddyrannu i'r prosiect.
- 3.19 Penderfynodd Mr Ferguson-Walker ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf yn Ionawr 2016 gan dderbyn ei bod yn anodd, yn wir bron yn amhosib, parhau i gyflawni'r ddwy rôl. Roedd ei gyflogwr, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, wedi croesawu ei ymddiswyddiad ar y pryd. Nodwn fod yr Ymddiriedolaeth ers hynny wedi mabwysiadu polisi sy'n gwahardd ei Swyddogion Datblygu Technegol rhag gwasanaethu yn y capasiti hwn ar gwmnïau lle mae ganddynt naill ai rôl lywodraethu neu reoli. Fodd bynnag, yn bwysig, ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod Mr Ferguson-Walker wedi ymddwyn yn amhriodol yng nghyswllt unrhyw fater lle'r oedd ganddo fudd personol.

- 3.20 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi rhoi gwybod i ni nad oedd Mr Ferguson-Walker, yn eu barn hwy, yn gweithredu fel y Swyddog Datblygu Technegol ar y prosiect CELT2 ei hun. Cawsom wybod ganddynt fod hyn oherwydd bod y prosiect eisoes wedi mynd heibio i'r cam datblygu pan gafodd ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Gweinidog. Maent yn dadlau mai dyma pam na wnaeth y Panel Annibynnol nodi hyn yn glir fel risg yr oedd angen ei lliniaru.
- 3.21 Yn ein barn ni, nid yw'r ddadl hon yn adlewyrchu cyd-destun ehangach y rôl anghyson barhaus sydd gan Mr Ferguson-Walker fel y Swyddog Datblygu Technegol ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf. Fel y gwelwn yn Dangoslun 4, mae CELT2 yn un o dri phrosiect gan Ynni Sir Gâr Cyf a dderbyniodd gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- 3.22 Yn bwysig, dywedodd Fwrdd Ynni Sir Gâr Cyf wrthym y cawsant ar ddeall fod Mr Ferguson-Walker yn gweithredu fel Swyddog Datblygu Technegol ar bob un o'u prosiectau, gan gynnwys CELT2. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn gyson â'r amrywiol ddogfennau cyfoes yr ydym wedi eu hadolygu, ac nid yw'r un ohonynt yn sôn nac yn awgrymu nad Mr Ferguson-Walker oedd y Swyddog Datblygu Technegol ar gyfer CELT2. Dengys adroddiad monitro prosiect yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni mai Mr Ferguson-Walker yw'r Swyddog Datblygu Technegol perthnasol ar gyfer y tri phrosiect a dderbyniodd gyllid gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys CELT2.

Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni graffu'r gwarged disgwylidig ar gyfer cynlluniau manteision cymunedol

- 3.23 Roedd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cymeradwyo benthyciad Ynni Sir Gâr Cyf ar yr amod ei fod yn datblygu 'strategaeth manteision cymunedol'. Byddai'r strategaeth yn egluro sut y byddai'r gwarged y disgwylid ei gynhyrchu o refeniw'r prosiect yn cael ei ddyrannu i gronfa manteision cymunedol. Nid yw'r papur i'r Panel yn cyfeirio o gwbl at faint o warged mantais gymunedol a fyddai'n cael ei gynhyrchu, ond roedd y wybodaeth wedi'i chynnwys yn y papurau atodol a roddwyd i'r Panel:

'Dengys ein rhagamcanion y bydd gwarged sylweddol yn cael ei gynhyrchu o hyd a bwriadwn ei ddyrannu i gwrdd â'n hamcanion cyfansoddiadol, gan gynnwys drwy roi grantiau a benthyciadau di-log i ddeiliaid tai a busnesau lleol ar gyfer prosiectau micro-adnewyddadwy ac arbed ynni. Disgwylir i'r gwarged dros gyfnod y prosiect fod yn £2.6 miliwn.'

3.24 Roedd y gwarged disgwylidig o £2.6 miliwn yn seiliedig ar fodel ariannol wedi'i ddatblygu gan Mr Ferguson-Walker, oedd yn ymgorffori ffactorau safonol ar gyflymder y gwynt a pherfformiad y tyrbîn. Roedd Mr Ferguson-Walker wedi gwirio allbwn disgwylidig y tyrbîn a'r costau adeiladu arfaethedig gyda thîm technegol cwmni cyffelyb yn yr Alban. Fodd bynnag, dywedodd fod ei fodel wedi'i greu 'yn fwy ar gyfer dangosyddion datblygu cynnar nag ar gyfer prosesau diwydrwydd dyladwy ariannol manwl'. Cawsom fod y gwarged disgwylidig hwn hefyd wedi'i ddyfynnu heb unrhyw gafeat yn y papur a gyflwynwyd i'r Gweinidog ac y cyfeiriwyd ato hefyd (fel 'hyd at £2.5 miliwn') mewn [datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru](#) dyddiedig 25 Medi 2015 (gweler y blwch testun).

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant, wedi cymeradwyo gwerth £938,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer tri phrosiect lleol a chymunedol sy'n ymwneud ag ynni'r gwynt yn Ne Cymru.

Dydd Gwener 25 Medi 2015

Fel rhan o gymorth ariannol ar gyfer prosiectau ynni lleol, bydd Carmarthenshire Energy Limited, sef datblygwr cymunedol bach yng Nghymru, yn derbyn benthyciad gwerth £785,000 ynghyd â grant gwerth £25,000 tuag at adeiladu generadur gwynt 500kw yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin. Bydd gweithredu'r tyrbîn yn creu incwm o hyd at £2.5 miliwn i'r gymuned gydol oes y prosiect. Y bwriad yw defnyddio'r arian ar gyfer cyllido rhagor o gynlluniau ym maes effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy.

Ffynhonnell – [datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, 25 Medi 2015](#)

3.25 Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y Panel wedi craffu'r gwaged disgwylidig hwn na bod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cyflawni archwiliadau annibynnol. Mae gennym bryderon neilltuol am hyn oherwydd roedd maint y gwaged yn seiliedig ar fodel na chafodd ei ddatblygu i bwrpas diwydrwydd dyladwy gan unigolyn oedd â gwrthdaro budd heb ei liniaru. Roedd y ffigur hwn yn ddwbl y rhagamcan o £1.3 miliwn a ddefnyddiwyd gan Ynni Sir Gâr Cyf ei hun yn ei ail Gynnig Cyfranddaliadau a gyhoeddwyd yn Ebrill 2016, gweler y dyfyniad isod:



Community Economic Impact

The project will generate a range of economic impacts, including the following key benefits:

1. Establishing a scheme supporting local householders, businesses and community organisations with grants
2. Supporting the development of Carmarthenshire based renewable energy projects generating further income for the area
3. Payments to Seren Renewables and local landowner, sustaining both a local business and farm
4. Interest paid to Members

The Society has made financial forecasts on a number of different yield and export value scenarios, with the most conservative scenario indicating that it will be able to establish a community fund with an income in excess of

£1,300,000 (one million three hundred thousand) over 25 years.

The Society has adopted a detailed Community Benefits Policy, and has also had further research provided by The Energy Saving Trust on the wider economic benefits and job creation associated with funding energy efficiency and micro-renewable installations. Please see our website for more details.

Legal Agreements

The Society has taken up a 28 year Lease on the site which includes provision for occupying the land, grid connection access, and access for ongoing operation and maintenance.

13

Ffynhonnell – Cynnig Cyfranddaliadau Ynni Sir Gâr Cyf

3.26 Dywedodd Mr Ferguson-Walker wrthym fod y model Shareenergy¹⁰ a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r gwaged o £1.3 miliwn yn sicr yn 'llawer mwy llym, ac yn llai hyblyg o ran sut y mae gwaged yn cael ei gyfrifo'.

¹⁰ Mae Shareenergy yn helpu i dyfu'r sector ynni cymunedol yn y DU. Mae'n defnyddio adnoddau presennol lle mae hynny'n bosib, ac yn gweithio i feithrin gallu a chapasiti lleol. Mae'n ceisio peidio â gwneud gwaith y gallai rhywun arall ei wneud yn well.

Ni chafodd risg y gwrthdaro budd posib oedd yn gysylltiedig â chyflogaeth Dr Lewis fel rheolwr ar Gronfa Ynni Cymunedol ei nodi gan y Panel Annibynnol

3.27 Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion cyfarfodydd Ynni Sir Gâr Cyf fod Dr Lewis yn bresennol ar gyfer trafodaethau ariannol er y gallai hyn fod wedi creu gwrthdaro posib â'i gyflogaeth fel Rheolwr ar Gronfa Ynni Cymunedol mewn banc. Nid yw'r cofnodion yn dangos bod unrhyw fudd wedi cael ei ddatgan. Ni chafodd cyflogaeth Dr Lewis gyda'r banc ei nodi fel risg gwrthdaro budd posib yn y papur i'r Panel. Yn ein barn ni, dylai'r risg bosib hon fod wedi cael ei hadlewyrchu yn y papur briffio a baratowyd ar gyfer y Panel Annibynnol, a dylai mesurau lliniaru priodol fod wedi cael eu hystyried a'u hadnabod.

Rhan 4

Fel perchennog y cynllun, roedd Llywodraeth Cymru wedi dibynnu gormod ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer rheoli'r risgiau a nodwyd



- 4.1 Oherwydd bod yr elfen fenthyciad o £785,000 ar gyfer CELT2 yn llawer mwy na'r £250,000 yr oedd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni awdurdod dirprwyedig i'w gymeradwyo, ac roedd angen cymeradwyo'r prosiect yn ddioed, fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru pa gamau a gymerodd ei swyddogion i fodloni eu hunain bod yr Ymddiriedolaeth yn wir wedi gweithredu i liniaru'r risgiau a nodwyd cyn rhyddhau'r arian. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod y camau lliniaru hyn wedi cael eu monitro drwy eu cyswllt dyddiol â rheolwr y cynllun. Fodd bynnag, ni allai swyddogion Llywodraeth Cymru ddangos unrhyw dystiolaeth ddogfennol i ni i brofi hyn. Ychwaith nid ydym wedi gallu sefydlu o'r dogfennau sydd ar gael a wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni roi unrhyw sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod y camau lliniaru yr oedd am eu cymryd wedi cael eu gweithredu.
- 4.2 Mae rhan nesaf yr adroddiad hwn yn edrych ar y craffu annibynnol a wnaed o'r manteision cymunedol disgwylidig, ac ar ansawdd y cyngor ysgrifenedig a roddwyd i'r Gweinidog yn sgîl hynny. Yn benodol aseswn a wnaeth y cyngor hwnnw nodi'n glir beth oedd risgiau a manteision y cais ar gyfer CELT2.

Rhan 5

Roedd y wybodaeth a roddwyd i'r Gweinidog er mwyn cytuno'r cyllid ar gyfer CELT2 yn anghyflawn ac anghytbwys



- 5.1 Roedd y Panel Annibynnol wedi asesu a chymeradwyo cais Ynni Sir Gâr Cyf am grant ar 27 Gorffennaf 2015. Roedd hefyd wedi cymeradwyo'r cais am fenthyciad ar gyfer ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Gweinidog, drwy bapur wedi'i baratoi gan swyddogion Llywodraeth Cymru.
- 5.2 Ar 12 Awst 2015, cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru bapur Cyngor Gweinidogol¹¹ yn gofyn i'r Gweinidog gymeradwyo argymhelliad y Panel i 'roi cyllid i brosiect ynni adnewyddadwy cymunedol y tu allan i gwmpas cychwynnol y rhaglen'. Roedd y papur Cyngor Gweinidogol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
- a bod y ffigur o £785,000 yn llawer mwy na'r trothwy o £250,000 ar gyfer cynlluniau. Fodd bynnag, byddai'n golygu y gallai grŵp cymunedol ddod yn berchen ar y prosiect;
 - b Roedd gan Ynni Sir Gâr Cyf bolisi manteision yn egluro sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio;
 - c pe bai Ynni Sir Gâr Cyf yn methu â dod i gytundeb, byddai'r benthyciad yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru. Pe bai Carmarthenshire Energy yn prynu'r prosiect ond yn methu â chyrraedd y targed o £500,000 o gyfranddaliadau, oedd yn eithaf uchel ar gyfer cynigion cyfranddaliadau o'r fath ond nid yn afrealistig, byddai angen benthyciad masnachol mwy arnynt; a
 - ch roedd y Panel Annibynnol wedi craffu'r cynnig yn ofalus ac wedi cymeradwyo'r benthyciad gyda nifer o amodau. Roedd swyddogion felly wedi argymhell bod y Gweinidog yn cymeradwyo argymhelliad y Panel.
- 5.3 Ystyriwn fod y papur a gyflwynwyd i'r Gweinidog yn cynnwys gwybodaeth briodol am y risgiau ariannol oedd yn gysylltiedig â rhoi cyllid i Ynni Sir Gâr Cyf. Fodd bynnag, rydym yn bryderus na soniodd y papur o gwbl am y risgiau llywodraethu ehangach y byddai'r prosiect yn eu cyflwyno.
- 5.4 Ni chafodd y Gweinidog wybod gan y swyddogion am unrhyw un o'r materion gwrthdaro budd gwirioneddol a phosib a nodwyd, ac ni wnaethant ychwaith egluro sut y cawsant eu rheoli i liniaru'r risg i lefel dderbyniol. Yn wir, dywedodd y cyngor yn hytrach nad oedd y cais yn codi unrhyw fater o reoleidd-dra na phriodoldeb na'n cynnwys unrhyw beth newydd neu gynhennus'.
- 5.5 Mae'n glir o'r papur Gweinidogol fod y cyfeiriad at y byddai'r prosiect yn 'debygol' o greu £2.6 miliwn o warged er mantais i'r gymuned yn bwysig i'r penderfyniad a wnaed. Fodd bynnag, ni eglurodd y papur fod y ffigur hwn yn seiliedig ar fodel na chafodd ei ddatblygu i bwrpas diwydrwydd dyladwy, ac nad oedd yn cynnwys unrhyw gafeat o ran pa mor ddibynadwy oedd.

11 Cyngor Gweinidogol (MA) – cyflwyniad ysgrifenedig ffurfiol i'r Gweinidog yn gofyn am ei ganiatâd neu ei chaniatâd i ymrwymo arian cyhoeddus

- 5.6 O dan yr amgylchiadau, ystyriwn fod y papur briffio a roddwyd i'r Gweinidog gan ei swyddogion yn anghyflawn ac yn anghyrbwys. Dylai'r papur briffio fod wedi:
- a nodi'r risgiau oedd yn gysylltiedig â'r materion gwrthdaro budd a rhoi sicrwydd eu bod wedi eu lliniaru i lefel dderbyniol; a
 - b chyflwyno ystod o ganlyniadau posib ar gyfer y gwarged disgwylidig (drwy wneud dadansoddiad sensitifrwydd) yn hytrach na dim ond dyfynnu'r ffigur o £2.6 miliwn a roddwyd yn y cais.
- 5.7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud sylwadau mewn adroddiadau blaenorol ganddo ar ddrafftio a chynnwys cyflwyniadau Gweinidogol; er enghraifft roedd yr adolygiad diweddar o Gylchdaith Cymru'n nodi bod gwybodaeth allweddol wedi'i hepgor o'r papurau a gyflwynwyd.
- a. reach agreement with councils, other partners and industry representatives on the options for bringing greater standardisation to the projects including floor area and elements of the build;**
- b. require the use of Building Information Modelling in projects within the programme; and**

- c. **provide more detailed guidance about the level of IT and fixtures, fittings and equipment that can be funded from the programme to ensure consistency between projects.**

Response: Accept

Completion Date: March 2019

- a) Agreement has been reached with local authority partners on the standard size and cost for new schools that will be funded by Welsh Government within the Programme. This standard is based on the sizes prescribed by BB98 and 99. The cost per square metre includes all above ground work, plus sub structure, design costs and external works. The cost per square metre was set at £2,500 (2016 costs). This work is being extended to identify a standard cost for further education, which sees more variation in the types of accommodation needed to deliver both academic and vocational learning.
- b) We agree to include the requirement for Building Information Modelling and will develop the Band B Programme on that basis.
- c) We have provided guidance around the maximum investment per pupil that can be funded from the Programme for fixtures, fittings and equipment and IT. This is set at a per pupil rate of £1,100 for fixtures, fitting and equipment and £500 for IT. The reason that we have applied a cost per pupil, rather than a specification is that this is a matter of policy for local authorities / Further Education Institutions. In addition, as IT is a fast moving area, it is likely that any such guidance would become quickly outdated.

Recommendation Eight

There is evidence that the regional procurement frameworks are not operating as intended, with some duplication and councils not adopting good practice in procurement methods. The Welsh Government should:

- a. **ensure that councils adopt accepted good practice in the approach to construction with a presumption in favour of design and build (excepting projects funded through the Mutual Investment Model);**
- b. **improve communication with industry on the likely timing and scale of work under the frameworks;**
- c. **understand and address the reasons why some councils are conducting pre-tender exercises despite contractors already having gone through the same process to get on the frameworks; and**
- d. **engage stakeholders, including councils and the construction industry, in developing and finalising the procurement framework in light of changes for Band B.**

Response: Accept

Completion Date: March 2019

- a) The Welsh Government has already adopted space and cost standards that will encourage local authority best practice and we improve partnership working to keep information on the pipeline of projects up to date and look to highlight upcoming

projects on our website. We are happy to encourage a design and build approach, however recognise that this will not be appropriate for all authorities.

- b) Industry engagement is planned for October when the results of the strategic outline programme assessment will be more apparent.
- c) From recent engagement it appears that there are a number of reasons why some authorities may wish to undertake pre-tender exercises. The most common of which occurs when batching of schemes has been desired. This exercise ensures that there are no procurement challenges should this route be sought. We continue to work with our partners to understand the different procurement routes available within the existing frameworks and will work with the Frameworks to understand whether any changes are necessary to allow for batching to take place without this additional step.
- d) We will work with our partners to ensure that the procurement frameworks are appropriate for our Band B Programme. This will involve seeking evidence from authorities and from the Frameworks in place.

Recommendation Nine

The Welsh Government has now established more clearly than in the past what benefits it wants to achieve through the programme. It has established a discrete set of targets for local supply chain, apprenticeships and training and STEM engagement with schools.

It is also clear that a future priority will be to make more community use of the school buildings. To increase the wider benefits flowing from investment in the programme, the Welsh Government should:

- a. **ensure that its targets for projects remain stretching over time;**
- b. **promote good practice in achieving community benefits, for example through regularly updated the 21st Century Schools website, regional networks and industry events; and**
- c. **review how the identified barriers to increasing community use of school buildings can be addressed in Band B of the programme.**

Response: Accept

Completion Date: March 2019

- a) We agree that targets should remain stretching and these will be reviewed over time.
- b) To facilitate sharing of best practice, the Welsh Government held three seminars in May in partnership with Constructing Excellence in Wales to update partners on a number of subjects, including community benefits. The seminars also included opportunities to network and share best practice. We will continue to work with stakeholders to promote a consistent approach and our website is being updated to publish additional materials relating to good practice and updated guidance.
- c) Increased community access to school buildings is a priority identified in Band B, with an Investment Objective to improve flexibility of assets. Propositions for Band B projects are being developed and we will continue to work with partners to ensure

that cultural and practical barriers to increasing use of assets are overcome. This might involve a range of actions including designing schools to provide separate access for the community, and introducing claw back clauses into contracts so that if additional funding is provided for community space, it is subject to claw back should it not be used for this purpose.

Recommendation Ten

The Welsh Government has put in place arrangements for technical support to the programme. It has strengthened the capacity of its own team through recruitment of experts in public-private finance. It is also setting up framework contracts to provide technical support to councils. Given the technical changes to the programme under Band B, the Welsh Government should, at the end of 2018, fully review whether the arrangements are working to:

- a. provide the Welsh Government with the technical expertise it needs to manage and oversee the programme; and**
- b. provide councils with the technical support they need to plan and deliver the programme locally.**

Response: Accept

Completion: December 2018

- a) A technical advisor has been appointed from Vale of Glamorgan Local Authority to advise on the development of the Band B Programme, particularly in respect to the Mutual Investment Model.
- b) A mini tender is currently underway to secure technical support for both the Mutual Investment Model and capital elements of the Band B Programme. This contract is accessible to both Welsh Government Officials and our partners. The arrangements will be reviewed at the end of 2018 to ensure that they are fit for purpose.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-LG/2498/17

Nick Ramsay, AC
Cadeirydd – Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nick.ramsay@assembly.wales

27 Gorffennaf 2017

Annwyl Nick

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS
RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL YNG NGHYMRU
YMATEB I'R ADRODDIAD**

Mae'n bleser gen i amgáu copi o ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad uchod a fydd yn cael ei osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno.

Hoffwn i, ar ran y Cabinet, ddiolch i chi ac i'r Pwyllgor am fynd ati mor drylwyr ac ofalus i gynnal yr ymchwiliad a llunio'r adroddiad.

Cofion

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb i adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymatebion canlynol i ddeg argymhelliad yr adroddiad. Rydym wedi rhoi nodyn o'r arweinydd sy'n gyfrifol; fodd bynnag, er mwyn cyflenwi'r argymhellion hyn, bydd galw am weithredu trwy bartneriaeth.

Argymhelliad 1 Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu'n glir yn y strategaeth genedlaethol y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau ar gyfer yr holl bobl sydd ynghlwm wrth reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am gyflenwi pob agwedd ar y strategaeth.

Derbyniwyd Mae'r argymhelliad hwn yn cyfateb i Argymhelliad 2 adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n eglurhau swyddogaethau a chyfrifoldebau o gwmpas yr arfordir fel rhan o ddiweddariad y Strategaeth Genedlaethol. Mae gwaith i adolygu a diweddarau'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru wedi dechrau. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag Awdurdodau Rheoli Risg i eglurhau swyddogaethau a chyfrifoldebau o gwmpas yr arfordir, gan ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â gwaith ymchwil sy'n cael ei gynnal ar drefniadau llywodraethu.

Cefndir: Mae cyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r arfordir wedi'u hamlinellu mewn deddfwriaeth megis Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Deddf yr Amgylchedd 1995, a Deddf Amddiffyn y Glannau 1949. Amlygodd adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru fod angen eglurder ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg sydd ynghlwm wrth reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Cadarnhaodd y dystiolaeth a roddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod awdurdodau'n eglur ynghylch eu swyddogaethau gweithredol (adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, paragraff 10), ond mae rhywfaint o bryder ynghylch perchenogaeth asedau llifogydd ac arfordirol.

Bydd datblygu cronfa ddata o asedau cenedlaethol yn cynorthwyo wrth fynd i'r afael â'r pryderon hyn ynghylch perchenogaeth asedau. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at arweinwyr yr holl awdurdodau lleol ym mis Gorffennaf 2016 i grybwyll pwysigrwydd gweithio i ddod â data asedau llifogydd ynghyd ar draws Cymru. Mae'r gronfa ddata hon wedi cael ei chyflwyno ers ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a bydd yn helpu i ddiffinio cyfrifoldebau ar yr arfordir. Mae'n cael ei chynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac, er mis Mawrth 2017, mae wedi cynnwys data o holl awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am berchenogaeth a chyflwr, gan helpu i ddarparu trosolwg cenedlaethol o asedau perygl llifogydd ac arfordirol. Bydd y gronfa ddata'n parhau i gael ei llenwi wrth i asedau newydd gael eu hychwanegu a bydd yn hysbysu mapiau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl.

Mae rhaglen ymchwil ar y cyd DEFRA/Asiantaeth yr Amgylchedd/Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru (y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 2.6 adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru) wedi asesu prosiect ymchwil yn ddiweddar o ran y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â pherygl llifogydd yng Nghymru a Lloegr. Mae disgwyl i'r

gwaith hwn orffen yn ystod gwanwyn 2018. Bydd Llywodraeth Cymru'n cadw golwg fanwl am ei bod yn bosibl y gall helpu i roi eglurder pellach ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau arfordirol fel rhan o ddiweddariad y Strategaeth Genedlaethol.

Amserlen ac Arweinwyr

Mae'r gwaith o lenwi'r gronfa ddata asedau cenedlaethol wedi dechrau – Arweinydd:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Y Strategaeth Genedlaethol i'w chyhoeddi yn ystod haf 2018 – Arweinydd: Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 2 Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliant i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i roi swyddogaeth oruchwylio i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol neu gorff arall yn hytrach na Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig wrth gyflawni'r gwaith o fonitro'r strategaeth genedlaethol.

Derbyniwyd mewn egwyddor Yn dilyn archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru, gwnaethom dderbyn yr argymhelliad i adolygu trefniadau adrodd ar Adran 18. Pan fydd wedi'i sefydlu yn ddiweddarach yn 2017, gofynnir i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ystyried opsiynau ar gyfer adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ac archwilio sut y gall ddarparu adolygiad annibynnol neu swyddogaeth oruchwylio o'r adroddiad Adran 18, cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod rhoi'r swyddogaeth oruchwyliol hon i'r pwyllgor yn fodd priodol o wahanu dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru fel Awdurdod Rheoli Risg a'i swyddogaeth deddfwriaethol i adolygu'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Genedlaethol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â'r egwyddor o roi swyddogaeth oruchwyliol i'r pwyllgor newydd o ran monitro'r Strategaeth Genedlaethol, ond gellir gwneud hyn heb newid deddfwriaeth.

Cefndir: Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Adran 18) yn nodi cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru i fonitro ac adrodd ar y gwaith o weithredu'r Strategaeth Genedlaethol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru'n gosod cwmplas y gwaith adrodd hwn, ac yn nodi bod angen cynhyrchu'r adroddiadau hynny bob dwy flynedd. Yn arbennig, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynnydd gan yr awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddiwallu'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol.

Bydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael ei sefydlu'n ddiweddarach eleni. Bydd gan y pwyllgor rôl fel corff ymgynghorol, gan ddarparu cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet gan Awdurdodau Rheoli Risg ynghylch pob ffynhonnell o lifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'r gwahaniad o ran dyletswyddau yng Nghymru eisoes yn amlycach nag yn Lloegr, lle mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn llunio'r Strategaeth Genedlaethol yn ogystal ag yn adrodd yn ei gylch trwy adroddiadau Adran 18.

Argymhelliad 3 Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi mecanweithiau ar waith i ddarparu sicrwydd bod atebolrwydd ar gyfer holl fannau'r arfordir, ac ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau, yn glir a bod y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r holl bobl hynny sy'n gyfrifol am y morlin.

Derbyniwyd Mae hyn yn cysylltu â'r angen i eglurhau swyddogaethau a chyfrifoldebau yn Argymhelliad 1.

Mae Cynlluniau Rheoli Traethlinau yn gynlluniau anstatudol sy'n amlinellu'r strategaeth reoli ddewisach ar gyfer ein morlin cyfan. Maent wedi cael eu cynhyrchu gan y Grwpiau Arfordirol, sy'n cynnwys awdurdodau lleol ar yr arfordir, Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyrrff eraill â diddordeb yn yr arfordir. Gan fod y Grwpiau Arfordirol wedi datblygu'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau, maent yn parhau i fod yn y sefyllfa orau i arwain ar a monitro'r gwaith o gyflenwi camau gweithredu pob cynllun.

Mae'r rhain yn "ddogfennau byw" ac, wrth gymeradwyo pob un ohonynt, pwysleisiodd y cyn-Weinidog bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol â phreswylwyr lleol trwy ysgrifennu at gadeiryddion y Grwpiau Arfordirol yn 2014.

Ymgwymerodd Llywodraeth Cymru ag adolygiad o'r Grwpiau Arfordirol ym mis Mai 2016, gan ddilyn Argymhelliad 39 Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru. Mae Fforwm Grŵp Arfordirol Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o gylch gorchwyl y Grwpiau Arfordirol. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Fforwm Grŵp Arfordirol Cymru i sicrhau bod cylch gorchwyl yr holl Grwpiau Arfordirol yn eglur, gan gynnwys gweithredu Cynlluniau Rheoli Traethlinau, a'i fod yn cael ei gyfathrebu fel rhan o ddiweddariad y Strategaeth Genedlaethol.

Amserlen: Strategaeth Genedlaethol i'w chyhoeddi yn ystod haf 2018

Arweinydd: Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 4 Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i ddatblygu pwynt gwybodaeth sengl ar gyfer ymwybyddiaeth llifogydd, megis 'microfan' neu wefan, sy'n cynnwys manylion eglur am swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer ymwybyddiaeth llifogydd.

Derbyniwyd Mae codi ymwybyddiaeth o beryglon llifogydd yn waith hynod bwysig yn erbyn un o'r pedwar amcan a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru'n ymroddedig i ddatblygu microfan ac mae wedi ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn iddo arwain ar y prosiect hwn.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod un safle sy'n darparu neges gyson i'r cyhoedd yn bwysig, ac mae wrthi'n gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu microfan sy'n darparu negeseuon clir a chyson i'r cyhoedd ynghylch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r gwaith sydd ynghlwm wrth hwn yn mynd i gael ei gwmpasu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2017-18.

Amserlen: Gwaith cwmpasu yn ystod 2017-18; bydd Llywodraeth Cymru'n diweddarau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch yr amserlen ar gyfer datblygu'r prosiect ym mis Mawrth 2018.

Arweinydd: Cyfoeth Naturiol Cymru

Argymhelliad 5 Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol ar sail ranbarthol ac yn adrodd yn ôl erbyn mis Ionawr 2018.

Derbyniwyd Mae grwpiau rhanbarthol sefydledig eisoes yn gweithio ar lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi adroddiad ar y modd y mae gweithio rhanbarthol eisoes yn digwydd wrth reoli llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a sut y gellir annog hyn ymhellach.

Cefndir: Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n hyrwyddo gweithio rhanbarthol trwy dri grŵp llifogydd rhanbarthol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r holl awdurdodau lleol, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn trafod mesurau rheoli risg ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol yn ogystal â llifogydd o afonydd a dŵr wyneb.

Yn ogystal, mae pum Grŵp Arfordirol rhanbarthol yng Nghymru, sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau a chyflawni'r camau gweithredu a nodir ynddynt (gweler yr ymateb i Argymhelliad 3). Mae'r Grwpiau Arfordirol yn annog Awdurdodau Rheoli Risg i gydweithio i gyflawni'r camau, yn ogystal â rhannu arferion gorau rhwng partion. Adolygwyd swyddogaeth y Grwpiau Arfordirol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2016 trwy drafodaeth gydag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac argymhellwyd bod cylch gorchwyl y grwpiau hynny'n cael ei ddiweddarau a'i safoni.

Mae'r Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol yn cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer gweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol lle bo'n briodol.

Mae Grŵp Arfordirol Bae Ceredigion yn cynnal cyfarfod blynyddol sy'n cynnwys arweinwyr cabinet cynghorau Ceredigion, Gwynedd a Sir Benfro. Mae hyn yn ategu at gyfarfodydd ymarferwyr trwy godi ymwybyddiaeth o waith parhaus a chynlluniau'r dyfodol ymhlith y bobl sydd ynghlwm wrth benderfyniadau a chyfeiriad gwleidyddol. Gellid annog y math hwn o weithio ar lefel wleidyddol ar gyfer problemau arfordirol yn y Grwpiau Arfordirol eraill. Dylai hyn gael ei arwain gan Fforwm Grŵp Arfordirol Cymru, sy'n cwrdd yn rheolaidd i rannu arfer gorau.

Mae'r cysylltiadau sefydledig rhwng Awdurdodau Rheoli Risg, Fforwm Grŵp Arfordirol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n helpu i sicrhau dull cyson ac yn annog gweithio rhanbarthol a rhannu swyddogaethau, sy'n digwydd rhwng Gwynedd ac awdurdodau cyfagos. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r dasg i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o adolygu gweithrediad y grwpiau, gan adrodd am enghreifftiau o weithio rhanbarthol, ynghyd ag unrhyw gyfle i wella, yn arbennig mewn perthynas â nodi buddiau eraill megis twristiaeth a swyddi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Bapur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol, ac mae wrthi'n aros am ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

Amserlen: Adroddiad i'w gynhyrchu erbyn mis Ionawr 2018

Arweinydd: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Argymhelliad 6 Mae'r pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu safbwynt polisi o fewn y 12 i 24 mis nesaf sy'n amlinellu amrediad o opsiynau ar gyfer adlinio rheoledig.

Derbyniwyd Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd ag Argymhelliad 3 adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru. Ers archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus pan ddywed nad oes un dull hollgynhwysfawr o weithredu tuag at adlinio rheoledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwaith i ddatblygu 'pecyn cymorth arfordirol' a fydd yn cefnogi awdurdodau lleol trwy ddarparu canllawiau ac enghreifftiau o arferion gorau y gellir eu haddasu i amodau lleol.

Yn ogystal, bydd diweddariad y Strategaeth Genedlaethol yn 2018 yn amlinellu'r safbwynt polisi o ran sut y dylai Awdurdodau Rheoli Risg ystyried a gweithredu Cynlluniau Rheoli Traethlinau. Yn hyn o beth, bydd Llywodraeth Cymru'n amlinellu ei safbwynt polisi, a fydd yn galluogi gweithredu ar lefel leol, gan ddarparu canllawiau a chymorth trwy'r pecyn cymorth i helpu i wireddu hyn.

Cefndir: Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ddeall rhagor am yr opsiynau ar gael i gymunedau sy'n arfer polisi adlinio rheoledig trwy'r gwaith parhaus yn y Friog. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2018, a byddant yn helpu i ddatblygu'r pecyn cymorth.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi ymchwiliadau pellach i bolisiâu'r Cynllun Rheoli Traethlinau yn Nrenwydd yn Notais (Pen-y-bont ar Ogwr) a Niwawl (Sir Benfro) ac ar gyfer y rhan o'r arfordir rhwng y Rhyl a Thalacre (Sir Ddinbych a Sir y Fflint) ac o'r Borth i Ynys Las (Ceredigion). Bydd y rhain yn helpu hefyd i amlygu arfer gorau y gall eraill ei ddilyn wrth weithredu neu herio'r polisiâu yn y Cynlluniau Rheoli Traethlinau, megis adlinio rheoledig.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cwrdd yn ddiweddar â chadeirydd Fforwm y Grwpiau Arfordirol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, a Cyfoeth Naturiol Cymru i helpu i gwmpasu pecyn cymorth addasu'r arfordir. Mae'r gwaith hwn yn y camau datblygu cynnar a bydd yn ceisio cyfraniadau pellach gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Tai, Cynllunio a Bioamrywiaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol, i ddarparu canllawiau priodol ar gyfer awdurdodau lleol a chymunedau.

Bydd pecyn cymorth addasu'r arfordir yn cyfannu'r Strategaeth Genedlaethol ac yn darparu cyngor ymarferol ar gyfer ymarferwyr a chymunedau. Bydd yn cwmpasu holl bolisiâu'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau ac ni fydd yn cyfyngu ei hun i waith adlinio rheoledig yn unig.

Amserlen: Mae'r gwaith o baratoi pecyn cymorth yn barhaus a bydd yn cael ei gyflwyno wrth gyhoeddi, neu'n fuan ar ôl cyhoeddi, y Strategaeth Genedlaethol yn 2018.

Arweinydd: Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 7 Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n datblygu ac yn sicrhau y gweithredir Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol, sy'n golygu bod yr holl beryglon llifogydd ac erydu arfordirol yn cael eu hystyried ar y cyd fel rhestr â blaenoriaeth.

Derbyniwyd Mae'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl bellach yn gweithredu fel ein Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol. Mae'r mynegai'n cynnwys gwybodaeth am y perygl o lifogydd o afonydd, cyrsiau dŵr arferol, y môr a dŵr wyneb. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wastad wedi defnyddio'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl i flaenoriaethu ei raglen. Ers yn hwyr yn 2016, mae data ynglŷn â'r perygl o lifogydd dŵr wyneb wedi cael ei gynnwys ac, ym mis Ionawr 2017, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at yr holl awdurdodau lleol yn gofyn iddynt ddefnyddio'r gofrestr hon hefyd, ynghyd â gwybodaeth leol berthnasol arall, i gefnogi eu ceisiadau am gyllid a gan Fwrdd y Rhaglen.

Wrth ddatblygu'r rhaglen ar gyfer 2018-19 a thu hwnt, rydym yn defnyddio'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl ochr yn ochr â thystiolaeth leol o berygl llifogydd ac achosion o lifogydd. Bydd y rhaglen â blaenoriaeth hon yn ystyried cynlluniau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â pheryglon o wahanol ffynonellau.

Cefndir: Er bod y gofrestr Cymunedau mewn Perygl yn darparu mynegai llifogydd cenedlaethol, mae'r perygl hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a fodelwyd. O'r herwydd, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd data lleol ynghylch llifogydd hanesyddol, a ddarperir gan yr awdurdodau lleol wrth wneud penderfyniadau am gyllid.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bob amser wedi defnyddio'r mynegai hwn i flaenoriaethu ei raglen waith.

Gyda setliad cyllideb cyfalaf pedair blynedd wedi'i gadarnhau, rydym wrthi'n dod â phiblinell o gynlluniau ynghyd o Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu ar raddfa genedlaethol gan ddefnyddio'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl a thystiolaeth hanesyddol o berygl llifogydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n ystyried trefniadau gwell ar gyfer mapio perygl llifogydd trwy'r Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol newydd. Bydd hwn yn dangos peryglon a leddfwyd o lifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb. Ar ôl cwblhau'r asesiad, bydd yn cynnwys gwybodaeth hefyd am achosion hanesyddol o lifogydd. Bydd hyn yn gwella'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl ymhellach, a gallai yn y pen draw gymryd ei lle.

Amserlen: Cwblhawyd.

Mae'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl bellach yn gweithredu fel ein Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol.

Argymhelliad 8 Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried, fel rhan o'r adolygiad strategol, cydbwysedd buddsoddiad cyfalaf/refeniw ar gyfer llifogydd arfordirol a rheoli risg yn y dyfodol, ac yn amlinellu ymrwymadau refeniw dros gyfnod hirach i ganiatáu mwy o gynllunio strategol.

Derbyniwyd mewn egwyddor Rydym yn cydnabod bod cyllid refeniw cyn bwysiced â chyfalaf o ran darparu cyllid ar gyfer cynnal a chadw asedau sydd ohoni, a byddwn yn buddsoddi dros £22 miliwn mewn cyllid refeniw eleni ar gyfer y gwaith o reoli perygl llifogydd a'r arfordir.

Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch y modd y bydd ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei hail-lunio o ganlyniad i'r refferendwm i adael yr UE, ac mae ansicrwydd ynghylch yr effaith ar arian cyhoeddus y DU a chyllideb Cymru yn y tymor hirach. Gyda'r ansicrwydd hwn, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a'r cabinet gyhoeddi cynllun gwario refeniw un flwyddyn yn unig ar gyfer 2017-18 er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ar gyfer gwasanaethau craidd a buddsoddi mewn blaenoriaethau yn y tymor byr iawn.

Am fod mwy o hyder o ran cyllid cyfalaf, darparwyd cynlluniau cyfalaf pedair blynedd ar gyfer ein partneriaid cyflenwi, a fydd yn rhoi sicrwydd ar gyfer buddsoddiadau mwy hirdymor.

Yn unol ag Argymhelliad 1b yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol i ystyried cyfleoedd partneriaeth ariannu posibl.

Amserlen: Dylai setliad y gyllideb refeniw gael ei gadarnhau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf erbyn mis Rhagfyr 2017.

Arweinydd: Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 9 Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu cynllun tymor canolig/hir (y tu hwnt i 2021) ar gyfer ariannu prosiectau a fyddai'n cael eu cynnwys dan y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol tan 2021.

Derbyniwyd mewn egwyddor Mae'r Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol yn rhoi cyfle am fwy o fuddsoddi gan awdurdodau lleol yn y gwaith o reoli perygl arfordirol gyda chyllid yn cael ei ddyfarnu ar gyfer gwaith adeiladu o 2018-21. Rhaglen untro ydyw sy'n defnyddio cyfraddau llog isel a chyllid referniw tymor hir i alluogi buddsoddiad o £150 miliwn.

O 2021, bydd y rhaglen llifogydd graidd, yn amodol ar gyllid, yn parhau i ddarparu buddsoddiad mewn cynlluniau rheoli perygl llifogydd a'r arfordir ledled Cymru. Yn unol â'r rhaglen graidd, bydd cynlluniau'r dyfodol sy'n cael eu cynnig gan awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu blaenoriaethu yn ôl risg, gan ddefnyddio'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl a gwybodaeth leol ym mhob achos busnes.

Mae swyddogion wrthi'n datblygu piblinell o gynlluniau awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi'u cynllunio y tu hwnt i fis Mawrth 2021, felly, er nad ydym yn gallu gwarantu cyllid, gellir gwneud achos cryf dros barhau i fuddsoddi.

Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20, byddwn yn cynnal adolygiad yng nghanol y rhaglen gyda Thrysorlys Cymru ac awdurdodau lleol ynghylch cynnydd y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol fel mecanwaith cyllid a'r galw am gyllid tymor canolig a hir ar gyfer gwaith arfordirol.

Amserlen: Adolygiad yng nghanol y rhaglen i'w gwblhau ym mis Mawrth 2020
Arweinydd: Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 10 Mae'r pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ymgymryd ag archwiliad bob dwy flynedd i sicrhau bod y lefelau staffio a'r sgiliau angenrheidiol ar gael o fewn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i gyflawni amcanion y Strategaeth Genedlaethol.

Ni dderbyniwyd Mae Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am eu lefelau staffio eu hunain; serch hynny, fel rhan o'r gwaith o reoli'r prosiect, mae disgwyl i'r sefydliadau hyn ystyried materion ynghylch capasiti a'r hyn y mae angen ei wneud i gyflenwi'r rhaglen. Mae awdurdodau lleol yn gallu gwneud cais am gostau staff yn eu cynigion blynyddol ar gyfer Grant Refeniw Sengl Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, a gall awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru gynnwys costau staff cysylltiedig â chynlluniau cyfalaf yn eu ceisiadau am waith.

Mae archwiliadau diweddar (yn fewnol a chan Swyddfa Archwilio Cymru) wedi bod yn ddefnyddiol o ran codi cwestiynau ynglŷn ag adnoddau yn y manau cywir. Mae'r rhain wedi cael eu hategu gan adolygiad o sgiliau rheoli perygl llifogydd mewn awdurdodau lleol a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (yn 2015), ac yn dilyn hyn darparwyd hyfforddiant ychwanegol.

Yn ogystal, mae adroddiadau Adran 18 bob dwy flynedd ynghylch y gwaith o weithredu trefniadau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd nid yn unig yn gwella'r broses hon, ond bydd yn gallu gwneud sylwadau annibynnol am yr adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y rhain, gyda'i gilydd, ac yn taro cydbwysedd teg o ran adolygu, craffu a rhoi cyngor.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Nick Ramsay, AM
Cadeirydd – Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Medi 2017

Annwyl Nick Ramsay

ADRODDIAD PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS - AWST 2017

YMCHWILIAD I DREFN REOLEIDDIO CYMDEITHASAU TAI

YMATEB I'R ADRODDIAD

Mae'n bleser gennyf amgáu copi o ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad uchod a gaiff ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Ar ran y Cabinet, dymunaf ddiolch i chi ac i'r Pwyllgor am y modd gofalus ac ystyriol i chi gyflawni'r ymchwiliad a chynhyrchu'r adroddiad.

Yn gywir,

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai

Croesawn ganfyddiadau'r adroddiad ac rydym yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 15 argymhelliad.

Argymhelliad 1.

O gofio'r swm sylweddol o arian cyhoeddus a fuddsoddir yn y sector, a'r ddibyniaeth a roddir gan fenthycwyr ar reoleiddio effeithiol, rydym yn argymhell y rhoddir caniatâd i dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru recriwtio'n allanol fel mater o drefn a bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai sicrhau'r cydbwysedd mwyaf priodol ar ei thîm rheoleiddio.

Derbyniwyd yn rhannol - Pan fydd recriwtio mewnol yn methu canfod ymgeiswyr gyda'r cydbwysedd sgiliau priodol, byddwn yn gofyn caniatâd i recriwtio'n allanol ac yn gyhoeddus yn unol â pholisi recriwtio cyfredol Llywodraeth Cymru. Dylid nodi bod dwy allan o'r tair swydd wag ddiwethaf wedi cael eu llenwi drwy benodiadau allanol. Bydd cydbwysedd sgiliau priodol o fewn y tîm yn cael ei sicrhau drwy feithrin gallu o fewn y tîm neu wrth recriwtio os yw bylchau mewn sgiliau penodol wedi eu nodi, gan gynnwys gan Fwrdd Rheoleiddio Cymru (gweler Argymhelliad 2).

Argymhelliad 2.

Ar ben hynny, er budd tryloywder rydym yn argymhell y dylai Bwrdd Rheoleiddio Cymru, yn ei adroddiad blynyddol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, ystyried capasiti a sgiliau cyfredol y tîm rheoleiddio, a fydd, yn ysbryd cyd-reoleiddio yn galluogi rhanddeiliaid eraill i graffu ar allu Llywodraeth Cymru i reoleiddio.

Derbyniwyd - Mae Bwrdd Rheoleiddio Cymru wedi ymateb yn annibynnol i argymhellion yr adroddiad. Mae'r Bwrdd wedi cadarnhau y bydd ei adroddiadau blynyddol yn cynnwys rhan sy'n ystyried capasiti a sgiliau cyfredol y Tîm Rheoleiddio. Disgwylir yr adroddiad nesaf yn haf 2018.

Argymhelliad 3.

Dylai Bwrdd Rheoleiddio Cymru fod yn her effeithiol i dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru. O ystyried natur sensitif rhai materion a drafodir gan y Bwrdd, roedd yn anodd i'r Pwyllgor benderfynu pa mor effeithiol y mae'r her honno wedi bod. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Bwrdd Rheoleiddio Cymru yn ystyried sut y gellir bod yn fwy agored a thryloyw o ran y ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd.

Derbyniwyd - Mae Bwrdd Rheoleiddio Cymru wedi ymateb yn annibynnol i argymhellion yr adroddiad. Bydd y Bwrdd yn ystyried sut y gellir bod yn fwy agored a thryloyw eleni gyda'r bwriad o gynnwys yn eu hadroddiad blynyddol grynoded o'r agweddau penodol fu o her arbennig i'r tîm rheoleiddio. Yn ogystal, bydd yn parhau i gyhoeddi crynodebau o gyfarfodydd y Bwrdd, lle nad yw'r trafodaethau yn gyfrinachol, gan nodi sut y mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â'r tîm rheoleiddio ac yn ei herio.

Argymhelliad 4.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer sicrhau bod setiau data clir a chymaradwy ar gael i gynorthwyo tenantiaid wrth benderfynu ar safbwynt a pholisïau eu Cymdeithas Dai, a herio hynny. Roedd yr hyn a wneir yn y maes hwn

gan Reolydd Tai yr Alban wedi creu argraff arnom, a hoffem annog Llywodraeth Cymru i fynd ati yn yr un modd.

Derbyniwyd - Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda'r sector a rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig tenantiaid, er mwyn sicrhau fod data priodol ar gael erbyn mis Hydref 2018. Fel y datblygir y set data ar gyfer Cymru, byddwn yn sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth brofiad yr Alban. Gweler hefyd Argymhelliad 9.

Argymhelliad 5.

O ystyried y ddibyniaeth ar hunan-arfarnu o fewn y broses reoleiddio ac ar ôl clywed adborth gan denantiaid nad oedd y system bob amser yn gadarn neu'n gywir, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd ei bod yn fodlon y caiff safbwyntiau tenantiaid eu cofnodi'n iawn a'u hadlewyrchu yn y dyfodol ac y caiff y trefniadau ymgysylltu newydd â thenantiaid a wneir gan TPAS Cymru eu monitro'n ofalus.

Derbyniwyd - Mae cynnwys tenantiaid mewn modd effeithiol a phriodol yn rhan annatod o'r safonau perfformiad (SP2) o dan y fframwaith rheoleiddio diwygiedig a bydd yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith y tîm rheoleiddio. Bydd unrhyw ddiffygion gyda'r gwaith hwn yn cael eu hamlygu gan yr adolygiad ar y fframwaith rheoleiddio a bennir ar gyfer dechrau 2018. Ar ben hyn, mae trefniadau newydd TPAS Cymru ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid yn cael eu monitro'n agos gan Grŵp Cyflawni sy'n cael ei gadeirio gan y Bwrdd Rheoleiddio. Caiff effaith gyffredinol y trefniadau newydd ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid eu harolygu'n ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2018.

Argymhelliad 6.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwneud gwahaniaeth clir rhwng tryloywder a chraffu, gyda thryloywder yn angenrheidiol, ond heb fod yn ddigonol i gyflawni craffu, ac rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob Cymdeithas Dai allu dangos i'r Tîm Rheoleiddio sut y maent yn grymuso eu tenantiaid i graffu ar eu perfformiad. Credwn y dylai hyn fynd y tu hwnt i gyhoeddi gwybodaeth a galluogi gwahanol Gymdeithasau Tai i ymateb i'w hamgylchiadau lleol lle mae gofyn iddynt fod yn rhagweithiol yn eu hagwedd. Dylai'r camau hyn yn fod yn rhan annatod o ddangos cyfranogiad effeithiol a phriodol tenantiaid fel rhan o'r Safonau Perfformiad.

Derbyniwyd - Mae gallu tenantiaid i graffu ar berfformiad Cymdeithasau Tai yn rhan annatod o Safon Perfformiad 2. Bydd yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith y tîm rheoleiddio. Caiff unrhyw ddiffygion yn y gwaith hwn eu hamlygu gan yr adolygiad ar y fframwaith rheoleiddio a bennir ar gyfer dechrau 2018.

Argymhelliad 7.

Nodwn ystyriaeth Llywodraeth Cymru o dalu aelodau bwrdd fel rhan o'i hystyriaeth ehangach ar reoleiddio. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i alluogi cymdeithasau tai i benderfynu a ydynt am dalu aelodau eu bwrdd ai peidio, ac y rhoddir cyfrifoldeb i gymdeithasau tai dros bennu'r tâl hwnnw mewn ffordd sy'n agored a thryloyw. Dylai taliadau i Aelodau Byrddau gael eu datgelu'n briodol yng Nghyfrifon Blynyddol Cymdeithasau Tai.

Derbyniwyd - Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth fuan i alluogi cymdeithasau tai i benderfynu a ydynt am dalu aelodau eu bwrdd ai peidio. Disgwylir cyhoeddiad ym mis Rhagfyr 2017.

Mae cyfrifoldebau cymdeithasau tai parthed talu aelodau eu bwrdd a datgelu'r cyfryw daliadau i aelodau eu bwrdd wedi eu nodi yng Nghod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC Cod B2.1). Mae cydymffurfio â'r cod yn rhan angenrheidiol o'r safonau perfformiad newydd (SP1) ac felly yn rhan allweddol o waith y tîm rheoleiddio.

Argymhelliad 8.

Rydym yn croesawu'r adolygiad arfaethedig o lywodraethu o fewn y sector a hoffem annog Llywodraeth Cymru i gydweithio'n agos â Chartrefi Cymunedol Cymru tra mae'n diweddarau ei God Llywodraethu yn sgil canfyddiadau'r adolygiad.

Derbyniwyd - Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio yn agos gyda'r sector a gyda grwpiau sy'n cynrychioli tenantiaid drwy'r Grŵp Llywio a ffurfiwyd i arwain gwaith y Bwrdd Rheoleiddio o adolygu materion llywodraethu, a byddwn yn parhau i gydweithio yn y modd hwn. Bydd canfyddiadau'r adolygiad ar lywodraethu yn cael eu hystyried pan fydd CCC yn diweddarau ei Gôd Llywodraethu. Cwblheir yr adolygiad o lywodraethu erbyn mis Mawrth 2018.

Argymhelliad 9.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi dulliau ar waith ar gyfer adrodd a meincnodi gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch pa mor dda y mae'r sector yn perfformio. Rydym yn argymhell hefyd y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael ar wefan ganolog, ynghyd â setiau data eraill fel y nodir yn Argymhelliad 4.

Derbyniwyd - Bydd meincnodi perfformiad y sector yn ffurfio rhan o'r gwaith a gyfeiriwyd ato yn Argymhelliad 4. Ein bwriad yw cyhoeddi'r data ar un plattfform, o bosib gwefan Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10.

Rydym yn argymhell bod unrhyw ddadredeoleiddio o ran y sector sy'n angenrheidiol i wyrdroi penderfyniad SYG yn gymesur ac yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru, fel rheoleiddiwr, ddigon o bwerau o hyd i ddiogelu buddiannau rhanddeiliaid, yn arbennig tenantiaid.

Derbyniwyd - Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth ar leihau rheolaethau rheoleiddio, bu'n gwbl eglur y dylai'r diwygiadau rheoleiddio fodloni'r hyn sy'n ofynnol i sicrhau bod y sector yn cael ei ddosbarthu'n ôl yn rhan o'r sector preifat. Disgwylir y caiff y Mesur ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Hydref 2017. Bydd y fframwaith rheoleiddio newydd yn sicrhau y bydd yr agweddau rheoleiddio yn parhau'n rymus.

Argymhelliad 11.

Nodwn fanteision posibl arallgyfeirio. Er bod angen arallgyfeirio i draws-gymorthdalau tai fforddiadwy, credwn fod risgiau difrifol i'r sector os na chaiff hyn ei reoli'n effeithiol. Er y byddai penderfyniad ail-ddosbarthu'r SYG yn rhybuddio yn erbyn rheolaeth bellach Llywodraeth Cymru o sut y mae cymdeithasau tai yn rhedeg eu materion eu hunain, credwn bod angen mwy o eglurder ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn goruchwyllo arallgyfeirio. Mae hyn yn arbennig o wir lle y caiff ei wneud gan is-gwmni landlord cymdeithasol sydd heb gofrestru.

Derbyniwyd - Bwriad y fframwaith rheoleiddio newydd yw sicrhau y caiff risgiau arallgyfeirio eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn hanfodol i'r Safonau Perfformiad newydd (SP 1, 3 ac 8) a bydd yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith y tîm

rheoleiddio. Caiff unrhyw ddiffygion yn y gwaith hwn eu hamlygu gan yr adolygiad o'r fframwaith rheoleiddio a bennir ar gyfer dechrau 2018.

Argymhelliad 12.

Rydym yn argymhell y dylai'r ddogfen Risgiau'r Sector a Disgwyliadau Rheoleiddio ddarparu manylion pellach am ddiddordeb dilys Llywodraeth Cymru mewn is-gwmnïau landlordiaid cymdeithasol nad ydynt wedi cofrestru ac amlinellu enghreifftiau a fyddai'n peri pryder i'r Rheoleiddiwr.

Derbyniwyd - Bydd sylwebaeth fwy manwl ar y pwnc yma yn cael ei chynnwys yn y ddogfen nesaf ar Risgiau'r Sector a gaiff ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2018.

Argymhelliad 13.

Rydym yn argymhell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o lefelau cyfredol arallgyfeirio o fewn y sector - ac y dylai'r canfyddiadau hyn gael eu cyhoeddi.

Derbyniwyd – Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys asesiad cryno o'r risg yma ar draws y sector pan gaiff y papur nesaf ar Risgiau'r Sector ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018.

Argymhelliad 14.

Mae gennym bryderon ynghylch yr effaith y byddai'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ei chael ar y sector tai yng Nghymru. Rydym yn argymhell bod y Rheoleiddiwr yn cynnal asesiad o gyfalaf yr holl gymdeithasau tai a lefel y risgiau y maent yn eu hwynebu a chrynhoi'r canfyddiadau.

Derbyniwyd - Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys asesiad cryno o'r effaith y byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn ei gael ar gyfalaf cymdeithasau tai pan gaiff y papur nesaf ar Risgiau'r Sector ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018. Cynhelir trafodaethau unigol gydag unrhyw Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sydd yn cario risg uwch na'r ystod arferol.

Argymhelliad 15.

Gan ystyried nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau o ran pennu cyflogau uwch reolwyr cymdeithasau tai, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ail-bwysleisio a chymeradwyo pwysigrwydd bod yn agored ac yn dryloyw o ran pennu cyflogau uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu mesurau i sicrhau bod gan ei Dîm Rheoleiddio rôl allweddol o ran sicrhau bod y broses o bennu cyflog yn gadarn a bod datgeliad priodol o gyflogau uwch reolwyr yng Nghyfrifon Blynnyddol Cymdeithasau Tai.

Derbyniwyd - Mae trefniadau parthed pennu cyflogau uwch reolwyr a datgelu cyflog Prif Weithredwyr wedi eu cynnwys o fewn Cod Llywodraethu CCC. Hefyd, mae'n ofynnol i gyhoeddi tâl y swyddog gyda'r cyflog uchaf yn y cyfrifon statudol yn ogystal â chyhoeddi nifer yr uwch swyddogion o fewn bandiau cyflog sy'n cael eu pennu gan y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig unigol. Mae cydymffurfio â'r côd yn rhan hanfodol o'r safonau perfformiad newydd (SP 1) ac felly yn rhan allweddol o waith y tîm rheoleiddio.



Nick Ramsay AM
National Assembly for
Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Dear Nick

Following the publication of the report this week by the Public Accounts Committee into the regulatory oversight of housing associations, I wanted to take this opportunity to thank you and the rest of the committee for your work as part of this inquiry.

As the membership body for housing associations, we found the inquiry to be a helpful and robust consideration of the regulation of the housing association sector, which is both vital to the provision of public services in Wales and to the Welsh economy, and we welcome the recommendations the committee has put forward in its report.

We agree with the overall conclusion of the report that the latest regulatory framework and the new regulatory judgements are important steps in improving the openness and transparency of the regulation of housing associations and we will be working closely with our members on the recommendations the committee has made.

Our response to the committee's report is available here: <http://bit.ly/2uXUuTw> and alongside our public response, I wanted to reassure you that we have already begun working on many of the areas the committee has highlighted. In particular, we take very seriously the need to improve the accessibility of information for tenants. We have already discussed this issue at our member networks, and we will now look to work closely with Welsh Government to ensure that recommendation is taken forward in a meaningful way.

Alongside this, CHC will be reviewing our Code of Governance in the coming months to ensure it continues to be a robust and useful guide for housing associations in light of the committee's findings and the Regulatory Board for Wales' ongoing review of governance in the sector. We expect to launch the revised code in March 2018 at our Governance Conference and we will be happy to share the updated code with you at that stage.



In the meantime, I am happy to discuss any of these issues or the wider work of housing associations with you at any time. Please don't hesitate to get in touch with any questions.

Kind regards

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Stuart Ropke', with a small horizontal line at the end.

Stuart Ropke
Chief Executive

Public Accounts Committee Inquiry into the Regulatory Oversight of Housing Associations

Response to the Report of the Public Accounts Committee August 2017

I am writing on behalf of the Regulatory Board for Wales (RBW) to respond to the Report of the Public Accounts Committee into the Regulatory Oversight of Housing Associations.

The RBW welcomes the Report's finding that "governance and regulation within the housing sector to be working well enough for housing associations to be granted more autonomy" and that "the new Regulatory Judgements are a step in the right direction" and the Public Accounts Committee view that housing associations "should do more to be open and transparent in their decisionmaking".

The RBW supports and welcomes the Public Accounts Committee's fifteen recommendations.

With reference to Recommendation 2, the RBW is pleased to confirm that we will include in our annual reports information on the skills and capacity of the Regulatory Team.

In relation to Recommendation 3, we will consider the issue of further openness and transparency this year with the intention of providing a summary of specific areas of challenge to the regulation team in our Annual Report and, where issues are not confidential in nature in our published summaries of our quarterly Board meetings.

Rather than responding individually to the recommendations, I am, in this response, keen to set out the RBW's response to key themes within the inquiry report.

Assurances provided to housing association tenants should apply to all social housing tenants

As set out in our submission to the Committee, the Regulatory Board is committed to ensuring that the Regulatory Framework's key principle of tenants being at the heart of regulation is a reality.

A number of the Committee's recommendations reference the importance of providing assistance to tenants to hold their landlords to account. As a key issue of principle, the Regulatory Board believes that assurances provided to the tenants of housing associations should apply to all social housing tenants, including local authority tenants.

We warmly welcome the Committee's vision of the availability of clear and comparable data sets to assist tenants in determining and challenging the position and policies of their Housing Association. The Board would like to see relevant data being available to all tenants of social housing – housing association and local authority tenants.

The Board similarly welcomes the priority given by the Committee to ensuring that tenants' views are adequately captured. Our arrangements with TPAS Cymru to capture the views of housing association tenants are being very actively monitored by the Making it Work Group which is chaired by myself as Regulatory Board chair. The Regulatory Board is highly committed to ensuring that these arrangements are effective in hearing the tenants' voice. The Board, however, remains very conscious that such assurance is not available to all tenants of social landlords. In the interests of fairness and a level playing field, the provision in respect of quality of landlord services should be expanded to cover local authority tenants.

The Board also welcomes the Committee's prioritisation of tenant scrutiny of housing association performance. We believe that the opportunity to undertake such scrutiny should also be available to tenants of local authorities.

The key important of good governance

The importance of good governance was a key theme of the Regulatory Board's submission to the Committee and prompted the Board's decision to prioritise an early review of governance within housing associations. The review is progressing under the leadership of a steering group, chaired by a member of the regulatory board and involving sector and stakeholder representatives. Close liaison with Community Housing Cymru is key to the review approach and the review findings will inform CHC's review of its Code of Governance. The review of governance will be completed by the end of March 2018.

Diversification

The Regulatory Board agrees that diversification brings potential benefits as well as risks. As independent organisations, we believe that decisions re diversification are the sole responsibility of autonomous housing association boards. However, there is a key role for regulation, through ongoing regulatory engagement, in ensuring good governance around those decisions, in particular, gaining assurance that housing associations understand the risks of such decisions and have the skills needed to take robust decisions.

The Board welcomes the Committee's recommendation that a review be undertaken of current levels of diversification and proposes, in the interests of openness, that up to date information on levels of diversification within the housing association sector should form a regular part of our Annual Report to the Cabinet Secretary. The Board has a particular interest in the impacts of diversification on tenants and will seek to ensure that this is considered as part of continuous regulatory assessment.

Independent input to the review of the Regulatory Framework

The effectiveness of the application of the Regulatory Framework will be the subject of review in the New Year. The Board will be very actively involved in that Review and, to ensure its robustness, have agreed that the Review should include independent objective input reporting directly to the Regulatory Board.

Helen White
Chair
Regulatory Board for Wales

Eitem 10

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Awst 2017

Aunwyl Nick,

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad ar dâl uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yfory.

Mae hyn yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad. Amgaeaf gopi o'r adroddiad er gwybodaeth ichi.

Cofion,

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 03000253289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 212

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Tâl uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru 2015 – 2016

Cyflwyniad

1. Paratowyd yr adroddiad hwn er mwyn helpu i wneud yr wybodaeth am dâl uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn fwy tryloyw. Mae hyn yn dilyn yr argymhelliad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth am dâl uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.
2. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am gyrff iechyd, awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, yr heddlu, sefydliadau eraill a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru neu a noddir gan Lywodraeth Cymru a, lle mae gwybodaeth ar gael, sefydliadau addysg uwch.
3. Daw'r wybodaeth o gyfrifon blynyddol a datganiadau polisi tâl a gyhoeddwyd gan y sefydliadau, ac adroddiad ar dâl uwch-reolwyr a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Chwefror 2014. Mae'r sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yr un fath â'r rhai yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, ac eithrio Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a chan ychwanegu sefydliadau addysg uwch.
4. Bwriad yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth am dâl uwch-reolwyr mewn un lle. Nid dadansoddi na chynnig casgliadau neu argymhellion yw ei ddiben.

Gofynion o ran datgelu cydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr

5. Rhaid i bob corff cyhoeddus adrodd ar dâl ei staff uwch yn ei ddatganiadau ariannol blynyddol neu ei adroddiad cydnabyddiaeth ariannol. Mae union natur yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn amrywio rhwng sectorau gwahanol yn unol â'r gofynion statudol perthnasol a'r canllawiau cyfrifyddu cysylltiedig.
6. Bydd cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a chyrrff y llywodraeth ganolog (e.e. Llywodraeth Cymru a'r cyrrff a noddir ganddi) yn paratoi eu cyfrifon yn unol â'r canllawiau a geir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i lunio adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol blynyddol.
7. Mae gofynion Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn berthnasol i lawer o gyrff cyhoeddus, e.e awdurdodau lleol, heddluoedd, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Rhaid i'r cyrrff hyn lunio datganiadau ariannol blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth benodol am

gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr, ond nid oes rhaid iddynt lunio adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol.

8. Mae'r gofynion ar gyfer sefydliadau addysg uwch wedi'u hamlinellu yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu (SORP) yn ogystal â'r cyfarwyddiadau ar gyfrifon blynyddol a gyhoeddir gan y corff ariannu perthnasol.
9. Mae llawer o'r sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn llunio datganiad blynyddol ar bolisi tâl. Mae hyn wedi bod yn ofyniad ar awdurdodau lleol (cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, ac awdurdodau tân ac achub, yng Nghymru) o dan adran 38 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ers y flwyddyn ariannol 2012-13. Yn fwy diweddar (2015-16), mae Llywodraeth Cymru (fel cyflogwr) a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi llunio datganiadau ar bolisi tâl yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ynghylch tryloywder adroddiadau ar gydnabyddiaeth ariannol staff uwch.¹

Tueddiadau o ran cyflogau prif weithredwyr

10. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn dangos cyflogau prif weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Lle mae'r wybodaeth ar gael, dangosir cymhariaeth rhwng cyflog prif weithredwyr yn 2015-16 a chyflog prif weithredwyr yn y ddwy flynedd ariannol flaenorol.
11. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn seiliedig ar gyflog blynyddol gros ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, treuliau na buddiannau mewn nwyddau. Os cafodd swydd ei llenwi am ran o flwyddyn yn unig, caiff hyn ei ddangos a'i egluro mewn troednodyn. Os oedd mwy nag un person wedi dal y swydd, rydym wedi adio'r gydnabyddiaeth at ei gilydd a chaiff hyn ei egluro mewn troednodyn. Mae'r wybodaeth wedi'i chyflwyno yn yr un fformat ag y mae yng nghyfrifon y sefydliad. Hynny yw, fel cyflog penodol neu fel ystod cyflog.

Corff iechyd	2013-14	2014-15	2015-16
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	£190,000	£200,000	£210,000
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	£185,000	£185,000	£195,000
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	£200,000	£200,000	£200,000
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	£185,000	£190,000	£210,000
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	£170,000	£170,000	£170,000
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	£170,000	£170,000	£170,000
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	£140,000	£155,000	£150,000
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	£130,000	£135,000	£155,000
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	£130,000	£130,000	£130,000

¹Cyhoeddwyd egwyddorion Llywodraeth Cymru ynghylch tryloywder ym mis Rhagfyr 2015 - <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/publications/transparency-of-senior-remuneration/?skip=1&lang=cy>

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	£120,000	£120,000	£152,500
---	----------	----------	----------

Corff llywodraeth leol	2013-14	2014-15	2015-16
Cyngor Sir Ynys Môn	£141,000	£141,160	£116,000 ²
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	£109,625	£111,518	£95,630 ³
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	£125,246	£128,169	£125,841
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	£137,000	£137,000	£137,000 ⁴
Cyngor Sir Caerdydd	£170,000	£166,937	£170,000
Cyngor Sir Caerfyrddin	£163,470	£168,938	£169,025 ⁵
Cyngor Sir Ceredigion	£108,226	£108,226	£108,226
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	£108,713	£111,573	£114,435
Cyngor Sir Ddinbych	£132,411	£132,144	£134,750
Cyngor Sir y Fflint	£131,233	£131,233	£131,233
Cyngor Gwynedd	£108,264	£101,984 ⁶	£103,805
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	£111,100	£115,192	£114,227
Cyngor Sir Fynwy	£110,000	£110,000	£110,000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	£134,253	£133,738	£134,253
Cyngor Dinas Casnewydd	£134,638	£134,638	£134,638
Cyngor Sir Penfro	£174,579	£144,998	£131,013 ⁷
Cyngor Sir Powys	£133,000	£133,000	£133,000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	£142,000	£142,000	£142,000 ⁸
Abertawe (Dinas a Sir)	£140,000	£140,000	£140,000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	£109,528	£111,278	£111,278
Cyngor Bro Morgannwg	£127,133	£126,950	£116,539
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam	£113,000	£117,000	£121,000

Awdurdod Parc Cenedlaethol	2013-14	2014-15	2015-16
Bannau Brycheiniog	£75,000	£75,000	£77,000
Sir Benfro	£76,000	£76,000	£77,000
Eryri	£79,000	£79,000	£77,000

² Mae hwn yn cynnwys cyflog Prif Weithredwr a adawodd ar 31/05/15 (£24,000) a Phrif Weithredwr a ddechreuodd ar 01/06/15 (£92,000).

³Y Prif Weithredwr wedi ymddeol ar 29/02/16 a'r swydd wedi'i dileu'n barhaol o'r strwythur staffio.

⁴Caerffili – atalwyd y Prif Weithredwr ym Mawrth 2013. Fe gymerodd y Dirprwy Brif Weithredwr drosodd fel Prif Weithredwr Dros Dro, ond cafodd yntau ei atal dros dro ym mis Gorffennaf 2013. Talwyd £132,920 i'r Prif Weithredwr Dros Dro yn 2015/16. Talwyd £142,524 i'r Prif Weithredwr Interim yn 2015/16.

⁵Mae'r cyflog yn cynnwys 'ffioedd a lwfansau' ond nid yw manylion y rhain wedi'u nodi, felly ni chawsant eu tynnu o'r ffigur fel a wnaed gyda'r ffigurau eraill.

⁶Mae hwn yn cynnwys cyflog Prif Weithredwr a adawodd ar 31/09/14 a Phrif Weithredwr a ddechreuodd ar 01/10/14.

⁷Ffigur blynyddol. Dechreuodd y Prif Weithredwr yn ei swydd ar 01/08/2015 - y cyflog rhwng hynny a 31/03/2016 oedd £87,342. Cydnabyddiaeth ariannol Pennaeth Dros Dro y Gwasanaeth Cyflogedig oedd £134,998.

⁸ Mae hwn yn cynnwys cyflog Prif Weithredwr a adawodd ar 31/08/15 (£59,000) a Phrif Weithredwr a ddechreuodd ar 01/09/15 (£83,000).

Awdurdod Tân ac Achub	2013-14	2014-15	2015-16
Canolbarth a Gorllewin Cymru	£134,812	£131,917	£144,229
Gogledd Cymru	£120,911	£119,835	£121,081
De Cymru	£126,000	£126,000	£128,000

Heddlu	2013-14	2014-15	2015-16
Dyfed Powys	£125,020	£126,237	£127,465
Gwent	£133,068	£135,202	£136,567
Gogledd Cymru	£143,934	£138,885	£141,444
De Cymru	£155,235	£156,725	£157,648

Corff a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru	2013-14	2014-15	2015-16
Archwilydd Cyffredinol Cymru	£151,500	£153,000	£153,000
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	£140,000 - £145,000	£145,000 - £150,000	£145,000 - £150,000
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	£120,000 - £130,000	£115,000 - £125,000 ⁹	£140,000 - £145,000
Llywodraeth Cymru	£155,000 - £160,000	£160,000 - £165,000	£160,000 - £165,000

Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	2013-14	2014-15	2015-16
Cyngor Celfyddydau Cymru	£93,380	£93,380	£95,248
Cyngor Gofal Cymru	£95,000	£95,000	£95,000
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	£120,000	£120,000	£120,000
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	£46,550 - £56,900	£46,550 - £56,900	£46,550 - £56,900
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	£60,000 ¹⁰	£90,000	£74,750 ¹¹
Amgueddfa Cymru	£95,000	£95,000	£95,000
Cyfoeth Naturiol Cymru	£140,000	£140,000	£145,000 - £150,000
Chwaraeon Cymru	£79,170	£89,483	£92,500

Comisiynwyr¹²	2013-14	2014-15	2015-16
Comisiynydd Plant Cymru	£90,000	£85,000	£85,000
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	£93,000	£90,000	£90,000
Comisiynydd y Gymraeg	Amherthnasol	£95,000 - £100,000	£95,000 - £100,000

Arolygiaethau	2013-14	2014-15	2015-16
Estyn	£110,000	£110,000	£90,000

⁹ Mae'r Ombwdsmon presennol yn y swydd ers 01/08/14. Roedd datgeliad 2014-15 yn cynnwys cyflog yr Ombwdsmon dros dro rhan-amser am y cyfnod o 01/04/14 i 31/07/14 (£25-30,000) a chyflog yr Ombwdsmon am y cyfnod o 01/08/14 i 31/03/15 (£90-95,000). Roedd datgeliad 2013-14 yn cynnwys cyflog yr Ombwdsmon blaenorol am y cyfnod o 01/04/13 i 30/11/13 (£90-95,000) a'r Ombwdsmon dros dro rhan-amser am y cyfnod o 02/12/13 i 31/03/14 (£30-35,000).

¹⁰ Roedd y post yn wag am y cyfnod o 01/04/13 i 31/07/13.

¹¹ Mae hwn yn cynnwys cyflog Llyfrgellydd a adawodd ar 31/08/15 (£37,500) a Llyfrgellydd a ddechreuodd ar 02/11/15 (£37,250). Y cyflog blynyddol yw £90,000.

¹² Penodwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2016 felly nid yw manylion y Comisiynydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Corff Addysg Uwch¹³	2013-14	2014-15	2015-16
Prifysgol Aberystwyth	£219,000	£224,000	£237,000 ¹⁴
Prifysgol Bangor	£223,000	£228,000	£245,000
Prifysgol Caerdydd	£240,000	£249,000	£253,000
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	£229,058	£239,812	£276,950 ¹⁵
Prifysgol De Cymru	£191,000	£222,000	£225,000
Prifysgol Abertawe	£244,000	£247,000	£251,000
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ¹⁶	£218,000	£226,000	£232,000
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	£227,090	£301,548 ¹⁷	£61,667 ¹⁸

Rhyw

12. Mae'r tabl isod yn dangos rhyw y prif weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hefyd yn cymharu'r sefyllfa â 2012-13 (ar sail adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) lle mae'r cyrff yn gymaradwy. Dylid nodi nad oedd rhyw Is-Gangellorion prifysgolion wedi'i gynnwys yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, felly nid yw ffigurau 2012-13 wedi'u cynnwys yma.

Sector	2012-13		2015-16	
	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw
Cyrff y GIG	8	2	5	5
Awdurdodau Lleol	18	4	19	3
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	3	0	3	0
Awdurdodau Tân ac Achub	3	0	3	0
Heddluoedd	4	0	4	0
Cyrff Cronfa Gyfunol Cymru	3	1	3	1
Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Comisiynwyr ac Arolygiaethau	10	4	7	6
Cyrff Addysg Uwch	Ddim ar	Ddim ar	5	3

¹³Mae'r tueddiadau o ran cyflogau Is-Gangellorion wedi'u cyflwyno yn ôl sefydliad addysg uwch fel cyflog blynyddol gros yn cynnwys bonysau, lwfansau amhensiynadwy, buddiannau mewn nwyddau, taliadau yn lle gwyliau blynyddol neu rybudd ond heb gynnwys cyfraniadau pensiwn.

¹⁴Yn ogystal, talwyd cyflog o £61,000 a lwfans amhensiynadwy o £14,000 i'r Is-Ganghellor Dros Dro am y cyfnod o 01/02/2016 i 31/07/2016.

¹⁵Mae hwn yn cynnwys £29,230 a dalwyd i'r Is-Ganghellor yn lle gwyliau blynyddol cyn iddo ymddeol.

¹⁶Oherwydd bod Is-Ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd yn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, mae cyfrifon y Brifysgol yn nodi bod 20% o enillion yr Is-Ganghellor yn cael eu hailgodi ar Brifysgol Cymru.

¹⁷Mae cyfrifon blynyddol y Brifysgol yn dangos y talwyd £189,435 yn ychwanegol i Is-Ganghellor Interim, a gyflogwyd drwy asiantaeth, rhwng Chwefror 2015 a 31/07/2015.

¹⁸Mae'r Is-Ganghellor cyfredol yn ei swydd ers 01/04/16. Mae blwyddyn ariannol y Brifysgol yn gorffen ar 31 Gorffennaf, felly dyma'r cyflog am y pedwar mis o 01/04/16 i 31/07/16. Mae cyfrifon blynyddol y Brifysgol yn dangos bod £1,414 yn ychwanegol wedi cael ei dalu mewn costau adleoli. Hefyd, talwyd £270,581 i Is-Ganghellor Interim a gyflogwyd drwy asiantaeth rhwng 01/08/15 a 31/03/16.

	gael	gael		
Cyfanswm	49	12	49	18
%	80.3	19.7	73	27

Cymarebau tâl

13. Mae'n rhaid i gyrff sy'n cyflwyno adroddiadau o dan y FReM gynnwys y gymhareb rhwng tâl canolrifol staff (cyflog y person sydd yng nghanol rhestr o dâl yr holl gyflogeion) a thâl y 'cyfarwyddwr' sy'n derbyn y tâl uchaf (yn seiliedig ar bwynt canol band cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr hwnnw). Dangosir y rhain, a'r 'lluosydd tâl staff' yw'r gymhareb ar gyfer 2015-16.
14. Mae egwyddorion tryloywder Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai datganiadau ar bolisi tâl gynnwys y berthynas rhwng y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer swyddi uwch a chydabyddiaeth ariannol y cyflogeion sy'n derbyn y tâl isaf.
15. Mae mwyafrif y sefydliadau a restrir isod wedi defnyddio union gyflog y Prif Weithredwr, neu bwynt canol band cyflog y Prif Weithredwr, wedi'i gymharu â'r cyflog canolrifol. Mae'r eithriadau wedi'u hesbonio yn y troednodiadau. Mae'r holl wybodaeth wedi'i chymryd o gyfrifon blynyddol ar gyfer 2015-16.
16. Nid yw sefydliadau addysg uwch yn cyhoeddi'r wybodaeth hon, fel nid yw wedi'i chynnwys yma.

Corff iechyd	Band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf (£000)	Tâl canolrifol	Lluosydd tâl staff
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	£210,000	£28,180	7.45:1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	£195,000	£26,064	7.48:1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	£200,000	£27,760	7.20:1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	£210,000	£28,094	7.47:1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	£170,000	£27,369	6.21:1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	£170,000	£26,041	6.53:1
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	£175,000	£30,057	5.82:1
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	£155,000	£25,948	5.97:1
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	£130,000	£26,929	4.83:1
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambwlans Cymru	£152,500	£30,214	5.05:1

Corff llywodraeth leol¹⁹	Band y cyfarwyddwr	Tâl canolrifol	Lluosydd tâl staff
--	---------------------------	-----------------------	---------------------------

¹⁹Nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi tâl canolrifol, ond mae'r mwyafrif yn gwneud hynny. Yn yr achosion prin lle nad yw awdurdodau lleol wedi cyhoeddi tâl canolrifol, mae'r lluosydd wedi cael ei gymhwysu i gyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y tâl uchaf er mwyn cyfrifo'r cyflog canolrifol.

	â'r tâl uchaf		
Cyngor Sir Ynys Môn	£116,000	£17,929	6.47:1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	£109,693	£20,465	5.36:1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	£125,841	£19,742	6.37:1 ²⁰
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	£142,524	£19,742	7.2:1
Cyngor Sir Caerdydd	£170,000	£20,849	8:1
Cyngor Sir Caerfyrddin	£169,025	£20,944	8.07:1
Cyngor Sir Ceredigion	£108,226	£16,054	6.8:1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	£114,435	£17,714	6.46:1
Cyngor Sir Ddinbych	£134,750	£21,530	6.26:1
Cyngor Sir y Fflint	£131,233	£16,969	7.73:1
Cyngor Gwynedd	£103,805	£19,622	5.29:1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	£142,669	£25,296	5.64:1 ²¹
Cyngor Sir Fynwy	£110,000	£20,253	5.43:1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	£134,253	£20,849	6.44:1
Cyngor Dinas Casnewydd	£134,638	£20,713	6.5:1
Cyngor Sir Penfro	£134,998 ²²	£17,372	7.77:1
Cyngor Sir Powys	£133,000	£19,048	6.97:1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	£142,000	£19,742	7:1
Abertawe (Dinas a Sir)	£140,000	£21,783	6.43:1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	£111,278	£18,376	6.05:1
Cyngor Bro Morgannwg	£116,539	£19,423	6:1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	£121,000	£19,055	6.35:1

Awdurdod Parc Cenedlaethol	Band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf	Tâl canolrifol	Lluosydd tâl staff
Bannau Brycheiniog	£77,000	£22,212	3.5:1
Sir Benfro	£77,000	£18,376	4.16:1
Eryri	£77,000	£23,000	3.4

Awdurdod Tân ac Achub	Band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf	Tâl canolrifol	Lluosydd tâl staff
Canolbarth a Gorllewin Cymru	£144,229	£29,345	4.91:1
Gogledd Cymru	£127,859	£29,345	4.36:1
De Cymru	£128,000	£28,000	4.57:1

Heddluoedd	Band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf	Tâl canolrifol	Lluosydd tâl staff
Dyfed Powys	£132,171	£35,254	3.75:1

²⁰ 6.64:1 yw'r gymhareb a nodir yn y cyfrifon blynyddol - mae hyn oherwydd bod cyflog y Prif Weithredwr yn cynnwys ffioedd swyddog canlyniadau o £5250. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.

²¹ Mae'n ymddangos bod cyfraniadau pensiwn wedi'u cynnwys yng nghyflog y Prif Weithredwr a'r cyflog canolrifol.

²² Dyma gyflog Pennaeth Dros Dro y Gwasanaeth Cyflogedig, yn absenoldeb Prif Weithredwr am y flwyddyn gyfan.

Gwent	£147,897	£34,779	4.25:1
Gogledd Cymru	£144,721	£31,657	4.6:1
De Cymru	£157,648	£31,921	5.2:1

Corff a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru	Band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf	Tâl canolrifol	Lluosydd tâl staff
Archwilydd Cyffredinol Cymru	£153,000	£43,850	3.49:1
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	£145,000 - £150,000	£31,031	4.75:1
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	£140,000 - £145,000	£40,218	3.5:1
Llywodraeth Cymru	£195,000 - £200,000	£34,750	5.8:1

Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	Band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf	Tâl canolrifol	Lluosydd tâl staff
Cyngor Celfyddydau Cymru	£95,428	£31,700	3:1
Cyngor Gofal Cymru	£100,000	£30,036	3.32:1
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	£120,000	£40,411	2.97:1
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	£90,000	£23,003	3.91:1
Amgueddfa Cymru	£95,000	£23,917	4.1:1
Cyfoeth Naturiol Cymru	£145,000 - £150,000	£28,215	5.2:1
Chwaraeon Cymru	£92,500	£24,620	3.8:1

Comisiynwyr	Band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf	Tâl canolrifol	Lluosydd tâl staff
Comisiynydd Plant Cymru	£85,000	£34,750	2.46:1
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	£90,000	£35,500	2.53:1
Comisiynydd y Gymraeg	£95,000 - £100,000	£34,750	2.81:1

Arolygiaethau	Band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf	Tâl canolrifol	Lluosydd tâl staff
Estyn	£90,000	£60,050	1.49:1

Cymariaethau - cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr

17. Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dangos nifer y cyfarwyddwyr a'r uwch-reolwyr sy'n ennill mwy na £60,000 (£50,000 am rai sectorau) yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fesul bandiau tâl o £25,000, lle'r oedd yr wybodaeth hon ar gael. Ni ddarparwyd yr wybodaeth hon gan bob sefydliad, ac fe ddefnyddiodd y sefydliadau a ddarparodd yr wybodaeth sawl fformat gwahanol. Oherwydd hynny, nid yw'r data wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Llywodraeth Cymru
Gorffennaf 2017**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog

Lluniais yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 19 o Atodlen 8 yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, lle nodir y gallaf lunio adroddiad ar fater a ddaw i'm sylw wrth edrych ar gyfrifon sydd i'w harchwilio, os tybiaf y byddai tynnu sylw'r cyhoedd at y mater hwnnw o fudd i'r cyhoedd. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl llunio'r adroddiad hwnnw, mae'n ofynnol i mi ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Wrth gynnal fy archwiliad o gyfrifon Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, nodais rai materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn fy nhyb i, ac rwyf bellach yn tynnu sylw'r cyhoedd at y materion hynny drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru a gyflawnodd yr archwiliad hwn yn cynnwys Alison Butler a Dave Rees, o dan gyfarwyddyd John Herniman.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Canfyddiadau Manwl	
Mae'r modd yr aeth y Bwrdd lechyd ati i gaffael a rheoli contractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates yn llawer is na'r safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl gan gorff cyhoeddus	9
Roedd y modd y dyfarnwyd contract ymgynghori AD i RKC Associates ym mis Chwefror 2016, ynghyd â gweithredoedd penderfynwyr allweddol yn tansailio hygrededd y broses gaffael	35
Roedd y broses a ddilynodd y Bwrdd lechyd a arweiniodd at benodi perchennog RKC Associates i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Ebrill 2016 yn tansailio hygrededd y Bwrdd yn llwyr. Nid oedd y broses yn ddigon tryloyw ychwaith, ac nid oedd cofnod digonol ohoni	50
Atodiadau	
Atodiad 1 – Crynodeb o gontractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates a'r cyflawniadau a nodwyd yn y contract	57
Atodiad 2 – Taliadau a wnaed gan y Bwrdd lechyd i RKC Associates am waith ymgynghori AD a gyflawnwyd rhwng 11 Tachwedd 2014 a 31 Mawrth 2016 (heb gynnwys TAW)	58
Atodiad 3 – Enghreifftiau lle torrwyd Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd lechyd wrth ddyfarnu contractau i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015	59
Atodiad 4 – Adolygiad Trysorlys Ei Mawrhydi o drefniadau treth penodeion sector cyhoeddus - Crynodeb o'r argymhellion	62

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 Ar fyr-rybudd ar 1 Hydref 2014, gadawodd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) ar secondiad i sefydliad arall o fewn y GIG fel prif weithredwr dros dro. O ganlyniad i hyn, gwelodd y Bwrdd Iechyd ostyngiad yng nghapasiti cyffredinol ei arweinyddiaeth AD.
- 2 Rhwng 1 Rhagfyr 2014 a 31 Mawrth 2016, ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i dri chontract ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD gyda chwmni preifat o'r enw RKC Associates Ltd (RKC Associates), er mwyn ceisio datrys y diffyg yng nghapasiti'r arweinyddiaeth AD. Perchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates yn ystod y cyfnod hwn oedd Ms Chana, a gafodd ei phenodi'n ddiweddarach yn Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn y Bwrdd Iechyd. Nodir hyd y contractau a'r cyflawniadau a bennwyd ar eu cyfer yn **Atodiad 1**. Terfynodd Ms Chana ei phenodiad fel cyfarwyddwr RKC Associates ar 28 Chwefror 2016.
- 3 Rhwng 11 Tachwedd 2014 a 31 Mawrth 2016, cyflawnodd Ms Chana 264.5 o ddiwrnodiau o waith ymgynghori AD o fewn y Bwrdd Iechyd, a thalodd y Bwrdd Iechyd £290,809+ TAW i RKC Associates am y gwasanaeth a ddarparwyd. Ceir dadansoddiad o'r taliadau i RKC Associates yn **Atodiad 2**.
- 4 Ar 30 Medi 2015, gadawodd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd, a oedd wedi bod ar secondiad i sefydliad arall o fewn y GIG, ei swydd, a dechreuodd y Bwrdd Iechyd ymarfer recriwtio i benodi Cyfarwyddwr newydd. Ni lwyddwyd i wneud hynny, ar ôl i bob ymgeisydd ar y rhestr fer dynnu'n ôl am amryfal resymau.
- 5 Ym mis Ionawr 2016, ymgeisiodd Ms Chana am y swydd, er nad oedd y swydd wedi cael ei hail-hysbysebu. Trefnodd y Bwrdd Iechyd banel asesu i ystyried cais Ms Chana ac, yn dilyn cyfarfod y panel hwnnw, cynigiwyd y swydd i Ms Chana ar gontract blwyddyn cyfnod penodol ar gyflog blynyddol o £150,000. Gan fod y cyflog a gynigiwyd yn uwch na'r ystod yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i chymeradwyo ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol y GIG, roedd y cynnig swydd yn amodol ar gymeradwyaeth o'r cyflog gan Lywodraeth Cymru. Ni chafwyd y gymeradwyaeth honno hyd 21 Ebrill 2016, ond dechreuodd Ms Chana ei swydd ar 5 Ebrill 2016. Gadawodd Ms Chana ei swydd yn y Bwrdd Iechyd o'i gwirfodd ddiwedd mis Tachwedd 2016.
- 6 Wrth archwilio cyfrifon y Bwrdd Iechyd, deuthum yn ymwybodol o'r taliadau a wnaed i RKC Associates am wasanaethau ymgynghori AD o dan y tri chontract ymgynghori y cyfeirir atynt ym **mharagraff 2**. Sylwais hefyd fod dau o'r contractau hyn wedi cael eu dyfarnu heb gynnal ymarfer tendro cystadleuol. Oherwydd maint taliadau'r contractau, a'r methiant i sicrhau cystadleuaeth ar eu cyfer, penderfynais gynnal adolygiad o'r broses a ddilynwyd i'w caffael, i'w dyfarnu a'u rheoli.

- 7 Yn ystod fy adolygiad, nodwyd sawl mater difrifol yn gysylltiedig â'r contractau ymgynghori a bu'n rhaid ehangu cwmpas yr adolygiad i archwilio'r broses gaffael ar gyfer y trydydd contract ymgynghori, a'r broses recriwtio a arweiniodd at benodi Ms Chana fel Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn y Bwrdd Iechyd.
- 8 Mae'n bwysig nodi na cheisiwyd, yn yr adolygiad hwn, asesu ansawdd y gwaith a gyflawnodd Ms Chana. Mae a wnelo fy nghasgliadau â gweithredoedd swyddogion a chyn-swyddogion y Bwrdd Iechyd, ac ni ddylid casglu na chyflawnodd Ms Chana ei gwaith hyd at safon briodol.
- 9 Yn ystod fy adolygiad archwilio, daeth Prif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd, Ms Casey, yn Gyfarwyddwr Rhaglen Weithredol y Bwrdd Iechyd ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu. Fodd bynnag, cyfeirir yma at Ms Casey fel Prif Swyddog Gweithredu, gan mai dyna oedd ei rôl ar adeg y digwyddiadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. Gadawodd Ms Casey gyflogaeth y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2017.
- 10 Bu'r archwiliad yn hir a chymhleth. Bu'n hynod anodd cael darlun clir o'r ffeithiau'n gysylltiedig â'r materion dan sylw yn yr archwiliad. Roedd adroddiadau swyddogion a chyn-swyddogion y Bwrdd Iechyd yn gwrthdaro â'i gilydd ac yn anghyson, ac roedd tuedd i'r swyddogion hynny feio'r naill a'r llall am y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad. Ni ymdriniwyd â'm ceisiadau am wybodaeth mewn modd boddhaol, ac fe gafodd dogfennau nad oeddent yn bodoli, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthyf, eu cyflwyno sawl mis ar ôl i mi wneud cais amdanynt. Ni chynhaliodd y Bwrdd Iechyd drywydd archwilio digonol o'r modd y gwnaed y penderfyniadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, ac o ganlyniad i hynny rwyf yn amheus o hyd ynghylch y graddau y bu rhai swyddogion yn ymwneud â phenderfyniadau i ymrwymo i gontractau ag RKC Associates.
- 11 Drwy gydol yr archwiliad, mynnai Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd Iechyd, Ms Casey, mai cyn Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, yr Athro Cairns, fu'n gyfrifol am negodi a chytuno i ddyfarnu contractau i RKC Associates. Roedd swyddogion eraill y Bwrdd Iechyd hefyd o'r farn ei fod wedi bod â rhan yn y penderfyniadau i ddyfarnu'r contractau. Yn ôl yr Athro Cairns, fodd bynnag, ni wnaeth negodi'r contractau na rhoi awdurdod i'w dyfarnu, ac nid wyf wedi gweld unrhyw ddogfennau sy'n tystio i'w ymglymiad. Gan hynny, nid oeddwn yn gallu casglu i ba raddau y bu'r Athro Cairns yn ymwneud â'r materion hyn.

- 12 Mae Ms Casey yn ystyried ei bod wedi cael ei beirniadu ar gam, gan ei bod o'r farn mai diffygion torfol, corfforaethol yw'r diffygion a nodwyd, ac mai'r Athro Cairns a wnaeth y penderfyniadau allweddol yn gysylltiedig â dyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates. Fodd bynnag, fel y nodir ym **mharagraff 31, 47, 48, 145 a 146**, mae'r dystiolaeth ddogfennol a oedd ar gael i mi yn dangos bod Ms Casey â rhan annatod yn y penderfyniadau hyn. Llofnododd Ms Casey ddau gontract ymgynghori rhwng y Bwrdd Iechyd ac RKC Associates nad oeddent wedi'u caffael yn unol â rheolau caffael y Bwrdd Iechyd. Wrth lofnodi'r dogfennau hyn, derbyniodd Ms Casey gyfrifoldeb am y penderfyniadau i ymrwymo i'r contractau, gan gynnwys bod yn gyfrifol am y modd yr aethpwyd ati i gaffael y gwasanaethau a roddwyd ar gontract. Roedd Ms Casey hefyd yn cymryd rhan mewn proses dendro ar gyfer trydydd contract, er ei bod eisoes yn defnyddio RKC Associates i gyflenwi'r contract a hysbysebwyd, cyn y broses gaffael ac wrth i'r broses honno fynd rhagddi.
- 13 Nodir canfyddiadau manwl fy archwiliad yn yr adroddiad hwn. Dyma fy mhrif gasgliadau:
- a Mae'r modd yr aeth y Bwrdd Iechyd ati i gaffael a rheoli contractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates yn llawer is na'r safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl gan gorff cyhoeddus:
- ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â'i weithdrefnau caffael ei hun wrth ddyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, felly gallai'r contractau, a hefyd y taliadau a wnaed oddi tanynt, fod yn anghyfreithlon;
 - torrwyd rheolau caffael cyhoeddus wrth ddyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates;
 - ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar RKC Associates, ac yn sgil hynny achoswyd risg ariannol a risg i enw da'r Bwrdd Iechyd, heb fod angen;
 - roedd yr Bwrdd Iechyd yn torri ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog pan gytunodd ar gontractau ag RKC Associates, a oedd wedi cael eu drafftio gan berchennog RKC Associates;

- penododd y Bwrdd lechyd berchennog RKC Associates i gyflenwi prosiectau ymgynghori, ond fe'i defnyddiwyd gan y Bwrdd lechyd fel aelod uwch o staff, ac y mae'n bosib ei fod felly wedi gor-hawlio £58,162 mewn TAW;
 - fel y swyddog a lofnododd y contractau ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, yr oedd dyletswydd ar Brif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd lechyd i sicrhau bod proses briodol wedi'i dilyn. Mae ei methiant i wneud hynny wedi creu amheuan ynghylch a gafodd y penderfyniad i ddyfarnu'r contractau hyn ei seilio'n gyfan gwbl ar ystyriaethau dilys; ac
 - ni wnaeth y Bwrdd lechyd gyflawni gwaith monitro effeithiol ar ei gontractau ag RKC Associates, ac fe gafwyd taliadau a oedd yn uwch na gwerth y contractau a threuliau heb eu dilysu yn gysylltiedig â chontractau.
- b) Roedd y modd y dyfarnwyd contract ymgynghori AD i RKC Associates ym mis Chwefror 2016, ynghyd â gweithredoedd penderfynwyr allweddol yn tanseilio hygrededd y broses gaffael:
- cychwynnodd y Bwrdd lechyd broses gaffael ar gyfer contract a gwahodd ac arfarnu tendrau ar gyfer y contract hwnnw, er ei fod eisoes wedi ymrwymo ag RKC Associates cyn dechrau'r broses dendro;
 - amharwyd ar gadernid a hygrededd y broses gaffael a hysbysebwyd mewn sawl ffordd allweddol, ac fe gymerodd Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd lechyd ran yn y broses er ei bod yn gwybod bod RKC Associates eisoes wedi dechrau gwaith o dan y contract cyn cychwyn y broses gaffael;
 - ni chadwodd yr Adran Gaffael ddogfennau digonol ynghylch y broses gaffael; ac
 - oeddod y Bwrdd lechyd cyn gofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol newydd, gan achosi i'r Bwrdd lechyd orfod gwario heb fod angen ar gontract ymgynghori.

- c Roedd y broses a ddilynodd y Bwrdd Iechyd a arweiniodd at benodi perchennog RKC Associates i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Ebrill 2017 yn tanseilio hygyddedd y Bwrdd yn llwyr. Nid oedd y broses yn ddigon tryloyw ychwaith, ac nid oedd cofnod digonol ohoni:
- nid yw'n glir pam bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu mynd rhagddo â phroses i recriwtio i swydd ar lefel y Bwrdd, gydag ond un ymgeisydd nad oedd wedi gwneud cais am y swydd pan gafodd ei hysbysebu'n wreiddiol;
 - nid oedd cofnod da o'r broses recriwtio, ac o ganlyniad i hyn nid yw'n glir pryd y trodd y sawl a oedd wedi bod yn goruchwylio'r ymarfer recriwtio yn ymgeisydd;
 - tanseiliwyd uniondeb y broses recriwtio gan fod gan yr unig ymgeisydd fynediad at rai o'r cwestiynau asesu cyn cael ei chyfweld ar gyfer y swydd; ac
 - roedd yr wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd a'i Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ynghylch y penodiad yn anghywir, yn anghyflawn ac yn anghyson.

Canfyddiadau manwl

Mae'r modd yr aeth y Bwrdd Iechyd ati i gaffael a rheoli contractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates yn llawer is na'r safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl gan gorff cyhoeddus

Ni chydymffurfiodd y Bwrdd Iechyd â'i weithdrefnau caffael ei hun wrth ddyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 ac ym mis Mehefin 2015, felly gallai'r contractau, a hefyd y taliadau a wnaed oddi tanynt, fod yn anghyfreithlon

Roedd y penderfyniad i ddyfarnu contract gwerth £114,625 + TAW i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 yn groes i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd Iechyd

- 14 Ym mis Tachwedd 2014, ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gontract â chwmni preifat, RKC Associates, ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar 1 Rhagfyr 2014. Roedd y contract ar ffurf dogfen 'cynnig am gefnogaeth ymgynghori' a anfonwyd gan berchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates, Ms Chana, at Brif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd, Ms Casey, ar 22 Hydref 2014. Er nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cael hyd i gopi wedi'i lofnodi o'r ddogfen hon, mae negeseuon e-bost o'r un cyfnod rhwng y Bwrdd Iechyd a Ms Chana yn cadarnhau mai'r telerau a nodwyd yn y ddogfen gynnig oedd telerau cytunedig y contract, (ynghyd â chyfraddau cytunedig y contract ar gyfer treuliau, a nodwyd yn y negeseuon e-bost hynny). Mae Ms Casey hefyd yn cofio llofnodi'r contract.
- 15 Yn y ddogfen gynnig, nodwyd y byddai RKC Associates yn darparu'r canlynol i'r Bwrdd Iechyd:
 - 'Cefnogaeth lefel uchel dros dro i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a DT, gan adrodd wrth y Prif Swyddog Gweithredu am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar 1 Rhagfyr 2014, i'w hadnewyddu drwy gyd-gytundeb;
 - mae angen cynnal adolygiadau penodol o ddau faes uchel eu blaenoriaeth yn y Gyfarwyddiaeth (Y Gweithlu a DT), gan anelu i gynyddu eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd:
 - y broses recriwtio; a'r
 - broses rheoli presenoldeb.

Gallai meysydd eraill perthnasol â blaenoriaeth godi yn dilyn adolygiad cychwynol. Cynhelir adolygiad o'r rhain drwy gytundeb.'

- 16 Nodir yn y ddogfen gynnig y byddai'r gwasanaethau sydd eu hangen yn cael eu darparu mewn 3 cham fel a ganlyn:
- Cam 1: Dadansoddi, adolygu a diagnosis (Rhagfyr 2014 hyd Ionawr 2015)
- Cam 2: Gweithdai cynlluniau gweithredu a chymeradwyo cynlluniau (Ionawr 2015 hyd Chwefror 2015)
- Cam 3: Gweithredu cynlluniau (Mawrth 2015 hyd Mai 2015).
- 17 Nodai'r ddogfen hefyd mai Ms Chana 'yw'r prif ymgynghorydd a bennwyd i ddarparu cefnogaeth lefel uwch dros dro fel ymgynghorydd rheoli hunangyflogedig' ond 'y gallai RKC Associates ddarparu ymgynghorwyr eraill dros dro fel bo'r angen.' Nodwyd mai'r gyfradd a oedd yn daladwy o dan y contract i RKC Associates am y gwasanaethau a ddarparwyd oedd £1,000 y diwrnod, plws 'treuliau rhesymol' + TAW.
- 18 Rhwng 11 Tachwedd 2014 a 31 Mai 2015, talodd y Bwrdd lechyd £114,625 + TAW i RKC Associates am 104 diwrnod o waith ymgynghori AD a gyflawnwyd gan Ms Chana a threuliau'n gysylltiedig â'r contract (er mai dyddiad dechrau'r contract oedd 1 Rhagfyr 2014).
- 19 Mae'r Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, yn datgan bod y Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Adam Cairns (Yr Athro Cairns) wedi gofyn iddi: 'jyst gael rhywun i mewn' i wneud gwaith llanw yn Adran y Gweithlu a Datblygu Trefniadol tra bo Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd lechyd yn absennol ar secondiad o'i swydd. Ar sail y cyfarwyddyd hwn, cysylltodd Ms Casey â Ms Chana, y bu'n gweithio â hi'n flaenorol mewn dau sefydliad arall o fewn y GIG. Mynegodd Ms Chana ddiddordeb mewn cyflawni rôl bosibl o fewn y Bwrdd lechyd. Wedi hynny, trefnodd Ms Casey gyfarfod rhwng Ms Chana a Chyfarwyddwr Nyrsio y Bwrdd lechyd, a chyfarfod ar wahân rhwng Ms Chana a Phrif Weithredwr y Bwrdd lechyd, yr Athro Cairns. Roedd Ms Casey yn bresennol yn y naill gyfarfod a'r llall. Mae Ms Casey yn cofio mai pwrpas y cyfarfodydd oedd i'r Bwrdd lechyd 'amlinellu natur y rôl yr oedd ei hangen, i ystyried a allai [Ms Chana] fod yn ymgeisydd addas, ac i [Ms Chana] ystyried a allai'r rôl fod o ddiddordeb iddi'. Mae Ms Casey yn datgan mai: 'casgliad y cyfarfodydd oedd y byddai'r naill ochr a'r llall yn ystyried y mater ymhellach cyn dod i unrhyw benderfyniad.' Mae Ms Chana wedi dweud wrthyf fod y Prif Weithredwr ar y pryd wedi gofyn yn y cyfarfod iddi gyflwyno cynnig ar gyfer unrhyw ymrwymiad posibl gan y Bwrdd lechyd.

Tudalen y pecyn 242

Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, y Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth a Enillir

- 20 Mae'n rhaid i gyrrff y GIG weithredu mewn modd teg a thryloyw wrth gaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gallu dangos bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd, neu os ydynt yn penderfynu gwyro oddi wrth bolisi, fod rheswm da dros wneud hynny. O dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), mae'n ofynnol i gyrrff GIG Cymru fabwysiadu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) er mwyn rheoli eu trafodion a'u busnes ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi SFIs enghreifftiol i gyrrff GIG Cymru, ac fe fabwysiadodd y Bwrdd Iechyd yr SFIs hyn. Mae'r SFIs, ynghyd â'r Rheolau Sefydlog (SOs), cynllun penderfyniadau a neilltuir i'r Bwrdd a Chynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir yn creu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cynnal busnes y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae SFIs y Bwrdd Iechyd yn pennu'r rheolau a ddilynir ganddo wrth gaffael. Yn y Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth a Enillir nodir y sawl y mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r grym iddo/iddynt wneud penderfyniadau ynghylch caffael a chontractau. Os na fydd corff y GIG yn cydymffurfio â'r SFIs, yr SOs, y Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth a Enillir, heb fod rheswm da am hynny, gallai hynny olygu bod penderfyniadau a wneir a unrhyw wariant cysylltiedig yn groes i'r gyfraith.
- 21 Ni ddilynodd y Bwrdd Iechyd ofynion ei SFIs pan ymrwymodd i gontract ag RKC Associates am wasanaethau ymgynghori ym mis Tachwedd 2014. Yn ôl yr SFIs: 'dylid cynnal tendr cystadleuol i gaffael unrhyw waith, nwyddau a gwasanaethau gwerth mwy na £25,000, heb gynnwys TAW'. (SFIs, atodlen 1, para 4.1) Nodir hefyd: 'y dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol ofyn i isafswm o bedwar cwmni gyflwyno tendr am gontractau ac iddynt werth rhwng £25,000 a'r trothwy ar y pryd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd'. (SFIs, atodlen 1, para 5.1) Ni chynhaliwyd cystadleuaeth ar gyfer y contract, yr oedd ei werth yn £114,625 + TAW, ac ni ofynnwyd am dendrau gan gyflenwyr posibl.
- 22 Nodir yn yr SFIs amgylchiadau eithriadol pan na fydd angen cynnal ymarfer tendro cystadleuol, hy, lle na allai ond un cwmni neu gontractwr gyflenwi'r gwasanaeth, neu lle bydd angen eitem neu wasanaeth priodol o natur neilltuol. Yn yr amgylchiadau hynny, caiff y Bwrdd Iechyd ddyfarnu contract heb gynnal cystadleuaeth, drwy weithredu tendr unigol. Yr oedd nifer o gyflenwyr a allai fod wedi darparu'r gwasanaeth a ddarparwyd gan RKC Associates, ac nid oedd angen eitem neu wasanaeth priodol. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gaffael y gwasanaeth drwy weithredu tendr unigol ychwaith. Yn ôl yr SFIs: 'ni cheir ond defnyddio gweithred tendr sengl yn dilyn cyflwyniad ffurfiol a chyda chaniatâd ysgrifenedig clir y Prif

Weithredwr, neu ddirprwy dynodedig, ac ar ôl rhoi ystyriaeth ddigonol i'r gofynion caffael. Dylai'r Prif Weithredwr gadw cofnod manwl. Mae'n rhaid adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio ynghylch pob gweithred tendr sengl ac estyniad ar contract.' O ran y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014:

- ni chyflwynwyd cais ffurfiol yn gofyn am weithred tendr sengl;
- nid oedd unrhyw ganiatâd ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr neu ddirprwy dynodedig yn cymeradwyo gweithred tendr sengl;
- nid wyf wedi cael unrhyw dystiolaeth sy'n dangos ystyriaeth o ofynion caffael, ac ni ofynnwyd i'r Adran Gaffael am gyngor ynghylch gofynion caffael.
- ni chadwodd y Prif Weithredwr unrhyw gofnod o weithred tendr sengl yn gysylltiedig â'r contract; ac
- ni adroddwyd wrth Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd lechyd am ddyfarnu'r contract fel gweithred tendr sengl.

23 Ar ben hynny, ni weithredodd y Bwrdd lechyd yn unol â'i Gynllun Dirprwyo a'i Fframwaith Ymreolaeth a Enillir, a nodai fod awdurdod i gaffael a gweithdrefnau contractio ar gyfer nwyddau a gwasanaethau dros £1,000 wedi'u dirprwyo i Bennaeth Caffael y Bwrdd lechyd (ar wahân i eithriadau penodedig nad ydynt yn berthnasol i'r achos hwn). Caffaelwyd gwasanaethau RKC Associates heb gyfeirio at Bennaeth Caffael y Bwrdd lechyd, ac rwyf o'r farn fod y rhai a gymerodd ran yn yr ymarfer caffael hwn wedi gweithredu heb awdurdod y Bwrdd lechyd.

24 Rwyf felly o'r farn fod y contract wedi'i ddyfarnu yn groes i SFIs, Cynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd lechyd. Rwyf hefyd o'r farn fod y contract hwn wedi'i ddyfarnu'n groes i ddarpariaethau eraill yn SFIs y Bwrdd lechyd. Nodir y rhain yn **Atodiad 3**. Fel y nodwyd ym **mharagraff 20**, gallai methu cydymffurfio â gofynion SFIs, y Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth a Enillir, heb fod rheswm da am hynny, olygu bod penderfyniadau a wneir ac unrhyw wariant cysylltiedig yn anghyfreithlon. Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi esbonio wrthyf pam na ddilynwyd y broses briodol.

Penderfyniad i ymrwymo i gontract ag RKC Associates

- 25 Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi gallu cyflwyno unrhyw ddogfennau o'r cyfnod dan sylw sy'n cofnodi sut a pham y penderfynwyd ymrwymo i gontract ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 heb ofyn am dendrau cystadleuol. Mae Adran Gaffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) (yr Adran Gaffael) yn rheoli ymarferion caffael ar ran y Bwrdd lechyd. Mae Pennaeth Caffael y Bwrdd lechyd yn datgan na ofynnwyd i'r Adran Gaffael gynghori neu gymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn y contract a gynigiwyd.
- 26 Yn ôl yr Athro Cairns, er iddo ef a Ms Casey gwrdd â Ms Chana ar 16 Hydref 2014, pwrpas y cyfarfod hwnnw oedd asesu a oedd gan Ms Chana y sgiliau a'r profiad gofynnol i gyflawni'r rôl gefnogol yr oedd ei hangen yn y Bwrdd lechyd. Ei dybiaeth ef oedd mai Ms Casey a roddodd gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract i RKC Associates, ac yn ôl ei atgof ef, bu'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid yn ymwneud â'r mater o safbwynt cyllid. Disgwylid yr Athro Cairns oedd y byddai unrhyw benderfyniad i ddyfarnu contract yn unol â threfniadau cyllid a chaffael y Bwrdd lechyd.
- 27 Serch hynny, mae Ms Casey yn mynnu mai'r Athro Cairns a wnaeth y penderfyniad i ddefnyddio gwasanaeth Ms Chana drwy ei chwmmi, RKC Associates, a bod yr Athro Cairns wedi cytuno ar y telerau ar gyfer hynny mewn cyfarfod. Cyfarfu'r Athro Cairns â Ms Chana ar eiddo'r Bwrdd lechyd ar 11 Tachwedd 2014. Dywedodd Ms Casey ei bod wedi meddwl y byddai'r Athro Cairns wedi sicrhau bod y broses briodol yn cael ei dilyn er mwyn caffael gwasanaeth RKC Associates. Fodd bynnag, nid yw'r honiad hwn yn gyson â'r dystiolaeth ddogfennol sydd ar gael. Ar 6 Tachwedd 2014, ysgrifennodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd lechyd at Ms Chana i'w hysbysu bod y contract a gynigiwyd 'yn hollol iawn ac yn dderbyniol.' Ymddengys felly fod telerau ymrwymiad Ms Chana wedi'u cytuno cyn cyfarfod Ms Chana â'r Athro Cairns ar 11 Tachwedd 2014.
- 28 Mae Ms Casey hefyd wedi tynnu sylw fy archwilwyr at y ffaith ei bod wedi anfon drafft o'r contract at y Cyfarwyddwr Cyllid ar y pryd, a oedd yn gyfrifol am y portffolio caffael. Cafodd wybod yn ddiweddarach gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid fod y contract yn 'iawn i'w lofnodi.' Mae hi hefyd yn datgan 'na chrybwyllwyd yr angen i gynnal proses gaffael/SFI ar unrhyw bryd yn ystod unrhyw ran o'r broses hon.'
- 29 Fodd bynnag, mae'r cyn Gyfarwyddwr Cyllid yn cofio ei bod wedi holi Ms Casey ynghylch sut y cytunwyd i ddyfarnu contract i RKC Associates, a bod Ms Casey wedi dweud wrthi fod y contract 'wedi'i gytuno gan [y Prif Weithredwr ar y pryd] ac mai ond geiriad y contract yr oedd angen ei adolygu.' Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ar y pryd yn cofio ei bod wedi gwirio hyn gyda'r Athro Cairns, a gadarnhaodd ei fod wedi cytuno i ddyfarnu'r contract. Ni wnaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ar y pryd gadw cofnod ysgrifenedig o'r sgysiau hyn.

30 Mae'r Athro Cairns yn mynnu na wnaeth negodi'r contractau na rhoi awdurdod i'w dyfarnu, ac nid wyf wedi cael unrhyw dystiolaeth ddogfennol o'i ymglymiad. Gan hynny, nid wyf wedi gallu casglu i ba raddau y bu'r Athro Cairns yn ymwneud â'r materion hyn.

31 Waeth pwy a gytunodd y gellid dyfarnu contract i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, erys y ffaith bod y contract wedi'i ddyfarnu'n groes i reolau caffael y Bwrdd lechyd. Ar ben hynny, mae'r dystiolaeth ddogfennol sydd ar gael i mi yn dangos bod gan Ms Casey ran annatod yn y broses o negodi telerau'r contract ag RKC Associates, a'i bod wedi llofnodi'r contract ar ran y Bwrdd lechyd. Mae fy nghasgliad yn seiliedig ar y canlynol:

- derbyniodd Ms Casey y cynnig contract gan Ms Chana drwy e-bost ar 22 Hydref 2014, ond chwe diwrnod ar ôl y cyfarfod y cyfeirir ato ym **mharagraff 26**. Fel Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd lechyd, dylai Ms Casey Dylai fod wedi bod yn ymwybodol na ellid gofyn am dendrau a'u hasesu fel sy'n ofynnol yn SFIs y Bwrdd lechyd o fewn y cyfnod hwn o amser. Llofnododd Ms Casey y contract er hynny.
- er bod Ms Casey yn honni bod yr Athro Cairns wedi cytuno i delerau'r ymrwymiad â Ms Chana, nodir yn yr e-bost cyflwyno i'r cynnig contract a anfonwyd gan Ms Chana at Ms Casey ar 22 Hydref 2014: 'rwy'n atodi fy nghynnig drafft sy'n adlewyrchu ein sgwrs dros y ffôn ddydd Llun yr wythnos hon [20 Hydref 2014]'. Rwyf felly o'r farn y bu Ms Casey yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses o gytuno ar delerau ymrwymiad Ms Chana.
- yn ôl negeseuon e-bost o'r un cyfnod rhwng Ms Casey ac Adran Gyllid y Bwrdd lechyd, roedd staff yr Adran Gyllid o'r farn mai Ms Casey oedd i benderfynu ynghylch y penderfyniad i ymrwymo i gontract. Er enghraifft, ar 4 Tachwedd 2014, ysgrifennodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd lechyd at Ms Casey yn nodi 'ei bod hi'n ymddangos yn iawn i lofnodi'r contract'.
- ar 4 Tachwedd 2014, ysgrifennodd Ms Casey at Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd lechyd yn nodi bod Ms Chana ar gael am ddeuddydd yr wythnos ganlynol 'i'w hymsefydlu' ac y byddai Ms Chana wedyn yn 'dechrau gweithio 4 diwrnod yr wythnos yn ffurfiol o 1 Rhagfyr.' Mae'r neges e-bost hon yn arwydd cryf bod y penderfyniad i apwyntio RKC Associates wedi'i wneud cyn i'r Athro Cairns gyfarfod â Ms Chana ar 1 Tachwedd 2014. Roedd y cyfarfod ar 11 Tachwedd 2014 rhwng Ms Chana a'r Athro Cairns yn rhan o gyfnod ymsefydlu cytunedig Ms Chana yn y Bwrdd lechyd, a derbyniodd Ms Chana dal am ddiwrnodiau ymsefydlu 11 ac 12 Tachwedd 2014 yn rhan o'r contract ymgynghori.

- dywedodd Ms Chana Dywedodd mai'r Prif Weithredwr a gytunodd ar y telerau i'w hymrwymo, ond esboniodd wedyn ei bod yn ystyried iddo wneud hynny 'drwy ei gasgliad o adroddiadau uniongyrchol.' Deallaf fod hyn yn golygu nad oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn ymwneud yn uniongyrchol â thrafod na chytuno ar delerau'r ymrwymiad â Ms Chana.
 - ar 12 Mai 2016, dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd wrthyf, mewn ymateb i'm hymholiadau archwilio, fod Ms Casey wedi cytuno ar delerau'r contractau ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014.
- 32 Gan fynnu mai rhan fach oedd ganddi wrth benderfynu ynghylch y contract, tynnodd Ms Casey sylw at y ffaith ei bod wedi anfon e-bost at y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid ar 4 Tachwedd 2014 yn dweud bod y Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Cairns 'wedi crybwyll heddiw ei fod yn awyddus i [Ms Chana] ddechrau cyn gynted ag sy'n bosibl. Deallaf ei bod a gael am ddau ddiwrnod wythnos nesaf i'w hymsefydlu, ac wedyn i ddechrau gweithio'n ffurfiol 4 diwrnod yr wythnos o 1 Rhagfyr. Deallaf ei bod yn bwriadu gweithio'n hyblyg, ac mae hyn yn golygu gweithio gartref rai diwrnodiau.' Fodd bynnag, ar adeg cynnal y cyfarfod hwn, roedd telerau'r contract eisoes wedi'u cytuno yn amodol ar gadarnhau rhai manylion ariannol yn gysylltiedig â threuliau contract a geiriad anfonebau.
- 33 Mae Ms Casey yn mynnu nad yw hi 'erioed wedi gwadu na chydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau caffael, [ac] nad oedd yn ymwybodol y dylid bod wedi cydymffurfio â'r gweithdrefnau hynny ar yr adegau perthnasol.' Dywedodd wrth fy archwilwyr iddi ddod yn ymwybodol o'r diffyg cydymffurfio â rheolau caffael mewn cyfweliad â'm cynrychiolwyr ym mis Rhagfyr 2016.
- 34 Serch hynny, wrth lofnodi'r contract, derbyniodd Ms Casey gyfrifoldeb am y penderfyniadau i ymrwymo i gontract, a oedd y cynnwys cyfrifoldeb i sicrhau bod y gwasanaethau a roddwyd ar gontract wedi'u caffael yn unol â rheolau caffael y Bwrdd Iechyd. Nid wyf yn derbyn esboniad Ms Casey, sef nad oedd yn ymwybodol ar y pryd bod angen cydymffurfio â rheolau caffael. Fel cyfarwyddwr gweithredol y Bwrdd Iechyd, dylai fod wedi bod yn ymwybodol o'r gofynion, ac os nad oedd yn ymwybodol o'r gofynion, dylai fod wedi gofyn a gyngor oddi wrth Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd.

Roedd y penderfyniad i ddyfarnu contract gwerth rhwng £110,888 a £112,078 + TAW i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 yn groes i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cynllun Dirprwyo ac Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd Iechyd

35 Ar 1 Mehefin 2015, anfonwyd llythyr at Ms Chana oddi wrth Brif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd, Ms Casey, yn datgan 'Ysgrifennaf i gadarnhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dymuno ymrwymo i gcontract â chi i ddarparu cefnogaeth yn gysylltiedig â gwaith sydd ei angen er mwyn cyflenwi rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Bydd hyn yn weithredol am gyfnod o chwe mis o 9 Mehefin 2015, gyda hyd y contract yn amodol ar benodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol parhaol. Dyma fydd y cyflawniadau disgwyliedig yn ystod y cyfnod hwn.

- Cefnogaeth dros dro ar lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu
- Gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch
- Gweithredu'r cynlluniau i wella'r broses recriwtio.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynnig.'

36 Roedd gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch a gwella'r broses recriwtio yn gyflawniadau a nodwyd o dan y contract blaenorol ddyfarnwyd gan y Bwrdd Iechyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, ac o dan delerau'r contract hwnnw roedd yn ofynnol cwblhau'r cyflawniadau hynny erbyn mis Mai 2015 (gweler paragraff 16). Roedd gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch a gwella'r broses recriwtio hefyd yn gyflawniadau a nodwyd mewn contract pellach y dyfarnodd y Bwrdd Iechyd i RKC Associates ym mis Chwefror 2016 (gweler [paragraff 116](#)).

37 Roedd y llythyr, dyddiedig 1 Mehefin 2015, wedi'i lofnodi'n electronig â sgan o lofnod Ms Casey. Yn ôl Ms Casey, yr Adran AD a luniodd y llythyr ar gyfarwyddyd unigolyn anhysbys tra'r oedd ar ei gwyliau, ac nid oedd 'yn rhan o'r cytundeb i gynnig contract newydd i [Ms Chana].' Dywed hefyd y byddai ei Chynorthwydd Gweithredol 'wedi cael cais i gyflwyno ei llofnod electronig gan fy mod ar...wyliau'. Ar ddychwelyd i'r gwaith ar 15 Mehefin 2015, mae Ms Casey yn mynnu bod Ms Chana eisoes wedi dechrau gweithio ar yr ymrwymiad newydd a nodwyd yn y llythyr dyddiedig 1 Mehefin 2015, a'i bod yn 'tybio bod popeth mewn trefn'. Gan hynny, llofnododd y contract y cyfeirir ato yn y paragraff nesaf.

- 38 Mater a allai fod yn ddifrifol iawn yw'r awgrym bod unigolyn neu unigolion anhysbys wedi rhoi cyfarwyddyd y dylid cyhoeddi llythyr yn enw Ms Casey heb ei chaniatâd, er mwyn sicrhau ymrwymiad i gontract pellach ag RKC Associates. Anfonodd Cynorthwyydd Gweithredol Ms Casey y llythyr dyddiedig 1 Mehefin 2015 drwy e-bost at Ms Chana ar 1 Mehefin 2015, a nodwyd yn yr e-bost cyflwyno 'atodir llythyr oddi wrth [Ms Casey].' Yn ôl y cofnodion AD a gefais gan y Bwrdd lechyd, ni chychwynnodd Ms Casey ei gwyliau hyd 2 Mehefin 2015, sef y diwrnod ar ôl anfon y llythyr. Anfonodd Ms Chana ateb yn uniongyrchol at Ms Casey ar 3 Mehefin 2015, gan atodi ei chynnig contract, a chan nodi 'Annwyl [Ms Casey], diolch yn fawr am eich llythyr. Atodaf fy nghynnig yn unol â'ch cais. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.' Os nad oedd wedi rhoi awdurdod i anfon y llythyr, nid wyf yn sicr pam na chododd Ms Casey bryder ynghylch defnydd diawdurdod o'i llofnod ar dderbyn yr e-bost hwn. Ar 15 Mehefin 2015, llofnododd Ms Casey gontract ag RKC Associates ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD i'r Bwrdd lechyd am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar 9 Mehefin 2015. Mae'r contract ar ffurf 'cynnig am gefnogaeth ymgynghori' wedi'i ddrafftio gan berchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates. Mae'r contract yn gyson â'r llythyr dyddiedig 1 Mehefin 2015 y cyfeirir ato uchod.
- 39 Nodir yn y contract y bydd RKC Associates yn darparu'r canlynol i'r Bwrdd lechyd:
- 'Cefnogaeth lefel uchel dros dro i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a DT, gan adrodd wrth y Prif Swyddog Gweithredu am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar 9 Mehefin 2015;
 - Dau faes uchel eu blaenoriaeth:
 - gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch; a
 - gweithredu'r cynlluniau i wella'r broses recriwtio.
- Gallai meysydd eraill perthnasol â blaenoriaeth godi. Cyflawnir y rhain drwy gytundeb.'
- 40 Yn ôl y ddogfen gynnig, byddai perchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates, Ms Chana, yn cyflawni'r gwaith ymgynghori, ac yn derbyn £1,000 y dydd, plws 'treuliau rhesymol' + TAW.
- 41 Talodd y Bwrdd lechyd £101,000 + TAW i RKC Associates am 101 diwrnod o waith ymgynghori a ddarparwyd i'r Bwrdd lechyd rhwng 9 Mehefin 2015 a 4 Rhagfyr 2015. Yn ogystal â hyn, talwyd treuliau rhwng £9,888 ac £11,078 + TAW yn gysylltiedig â'r contract i RKC Associates. Ceir ansicrwydd ynghylch yr union ffigur, gan fod un anfoneb a gyflwynwyd gan RKC Associates yn trafod dau gyfnod contract.

Tudalen y pecyn 249

- 42 Ym mis Mehefin 2015, arhosodd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ar secondiad, a deallaf mai'r bwriad wrth ddyfarnu contract pellach i RKC Associates oedd darparu cefnogaeth ymgynghori barhaus i Adran y Gweithlu a Datblygu Trefniadol dros gyfnod y secondiad.
- 43 Nid yw'n glir i mi a fwriadwyd i gontract mis Mehefin 2015 fod yn gontract newydd neu'n estyniad ar y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014. Yn y naill achos neu'r llall, ystyriaf fod y contract neu'r estyniad hwn wedi'i ddyfarnu'n groes i SFIs y Bwrdd Iechyd. Fel y nodir ym [mharagraff 21](#), roedd yr SFIs yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal ymarfer tendro cystadleuol ar gyfer pob contract dros £25,000, (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol nad ydynt yn berthnasol yn yr achos hwn – gweler [paragraff 22](#)). Ni cheisiwyd cynnal cystadleuaeth ar gyfer dyfarnu'r contract, ac ni ofynnwyd i Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd ychwaith am gyngor ynghylch caffael neu ddyfarnu contractau.
- 44 Mae paragraff 10.8 o SFIs y Bwrdd Iechyd yn datgan y canlynol: 'yn amodol ar gydymffurfio ag unrhyw ofyniad cyfreithiol ac amodau contract cytunedig, caniateir ymestyn contract unwaith ar yr amod nad yw'r gost ychwanegol yn uwch na 50% o werth gwreiddiol y contract, hyd at uchafswm o £75,000 heb gynnwys TAW'. Os bwriadwyd i'r contract fod yn estyniad ar y contract presennol, roedd caniatáu'r estyniad hwnnw'n groes i SFIs y Bwrdd Iechyd, gan fod gwerth yr estyniad dros £75,000 ac yn fwy na 50% o werth contract Tachwedd 2014. Rwyf yn cydnabod nad oes diben dadlau ynghylch hynny gan fod contract Tachwedd 2014 wedi'i ddyfarnu heb gystadleuaeth.
- 45 Nid yw swyddogion y Bwrdd Iechyd wedi gallu rhoi unrhyw esboniad pam y dyfarnodd y Bwrdd Iechyd y contract i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 heb ofyn am dendrau cystadleuol, fel sy'n ofynnol yn SFIs y Bwrdd Iechyd.
- 46 Ar ben hynny, ni weithredodd y Bwrdd Iechyd yn unol â'i Gynllun Dirprwyo a'i Fframwaith Ymreolaeth a Enillir, a nodai fod awdurdod i gaffael a gweithdrefnau contractio ar gyfer nwyddau a gwasanaethau dros £1,000 wedi'u dirprwyo i Bennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd (ar wahân i eithriadau penodedig nad ydynt yn berthnasol i'r achos hwn). Caffaelwyd gwasanaethau RKC heb gyfeirio at Bennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd, ac rwyf o'r farn fod y rhai a gymerodd ran yn yr ymarfer caffael hwn wedi gweithredu heb awdurdod y Bwrdd Iechyd.

- 47 Er bod y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, yn mynnu mai'r Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Cairns, a benderfynodd ddyfarnu'r contract i RKC Associates, nid oedd yn gallu rhoi unrhyw ddogfennau i mi o'r cyfnod dan sylw i gefnogi'r honiad hwnnw. Nid wyf yn derbyn honiad Ms Casey, sef nad oedd 'â rhan yn y cytundeb i gynnig contract newydd i [Ms Chana].' Wrth lofnodi'r contract ag RKC Associates, yr oedd Ms Casey, drwy ddiffiniad, â rhan yn y cytundeb. Yn ogystal â hynny, fel y swyddog awdurdodi, yr oed dyletswydd arni i sicrhau bod y gwasanaethau a roddir ar gontract wedi'u caffael yn unol â rheolau caffael y Bwrdd lechyd, fel y'u nodir yn ei SFIs. Ni lwyddodd i wneud hynny.
- 48 Nid yw safbwynt Ms Casey wedi fy argyhoeddi bod y llythyr a anfonwyd at Ms Chana wedi'i anfon heb iddi wybod am hynny, neu heb iddi gydsynio i hynny. Beth bynnag fo'r achos, dylai Ms Casey fod wedi sicrhau bod proses briodol yn cael ei dilyn, fel llofnodai'r Bwrdd lechyd i'r contract.
- 49 Waeth sut a phryd y daethpwyd i benderfyniad i ymrwymo i gontract ag RKC Associates, llofnododd Ms Casey y contract hwnnw. Dyfarnwyd y contract yn groes i SFIs y Bwrdd lechyd, ac nid oedd gan y rhai a gaffaelodd wasanaethau RKC Associates yr awdurdod i wneud hynny o dan Gynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd lechyd. O ganlyniad i hyn, ni all y Bwrdd lechyd ddangos bod y contract wedi'i ddyfarnu yn gyfreithlon ac mewn modd teg a thryloyw.

Torrwyd rheolau caffael cyhoeddus wrth ddyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates

- 50 Mae'r Bwrdd Iechyd, fel corff cyhoeddus, yn ddarostyngedig i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, a chyn mis Chwefror 2015, yr oedd yn ddarostyngedig i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006. Bwriad y rheoliadau yw sicrhau, pan fo'r weithred o gaffael o fewn eu cwrpas, y cydymffurfir â'r egwyddorion canlynol wrth ddyfarnu contract:
- triniaeth gyfartal;
 - tryloywder;
 - dim gwahaniaethu; a
 - chymesuredd.
- 51 Yn ôl SFIs y Bwrdd Iechyd: 'Ceir cyfarwydddebau'r UE a rheoliadau'r DU ...sydd yn trafod pob rhan o'r maes caffael, ac mae'r Cyfarwydddebau hyn yn pennu trothwyon lle daw gofynion cyfreithiol a phrotocolau caffael arbennig ac ymestynnol yn berthnasol. Mae'r holl Gyfarwyddwyr a'u staff yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyfarwydddebau hynny wedi'u deall a'u gweithredu'n llawn.'
- 52 Ym mis Tachwedd 2014, dyfarnodd y Bwrdd Iechyd gontract i RKC Associates ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD am gyfnod o chwe mis. Ym mis Tachwedd 2015, ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gontract pellach ag RKC Associates ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD am gyfnod pellach o chwe mis. Ar 14 Rhagfyr 2015, ailymrwymodd y Bwrdd Iechyd ag RKC Associates am gyfnod pellach o dri mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Ni ofynnodd y Bwrdd Iechyd i unrhyw un gystadlu am y cyfleoedd contract hyn cyn ymrwymo i ddefnyddio RKC Associates, (gwahoddodd y Bwrdd Iechyd dendrwy'r gystadlu am drydydd cyfnod y contract ar 23 Rhagfyr 2015, fel y nodir ym [mharagraffau 110 i 132](#), ond yn fy marn i ymddengys fod y Bwrdd Iechyd eisoes wedi ymrwymo RKC Associates ar 14 Rhagfyr 2015).
- 53 Pan fydd contract am wasanaethau oddi mewn i gwmpas llawn y gyfundrefn caffael cyhoeddus, mae'n rhaid i'r awdurdod sy'n contractio gyflawni'r rhwymedigaethau hanfodol a ganlyn:
- cyhoeddi hysbysiad yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) ar ffurf ragnodedig, yn hysbysebu'r contract;
 - defnyddio gweithdrefn ddyfarnu benodedig, a chydymffurfio â gofynion cysylltiedig ynghylch meini prawf dethol a dyfarnu;

- cydymffurfio â gofynion adrodd yn dilyn penderfyniad i ddyfarnu contract; a
 - chydymffurfio ag egwyddorion tryloywder, triniaeth gyfartal, peidio gwahaniaethu a chymesuredd.
- 54 Mae gofynion caffael cyhoeddus yn gymhleth, ac yn ôl y cyngor cyfreithiol a roddwyd i mi mae contract ar gyfer gwasanaethau oddi mewn i gwmpas llawn y gyfundrefn caffael cyhoeddus os bodlonir yr amodau canlynol:
- bod y gwasanaethau a ddarperir yn perthyn i gategoriâu penodedig; a
 - bod yr awdurdod contractio yn amcangyfrif yn rhesymol, ar ddechrau'r ymarfer caffael, y bydd y cyfanswm sy'n daladwy o dan y contract yn uwch na'r trothwy gwerth perthnasol; ac na cheir unrhyw eithriadau cyfreithiol (ac fe'm cynghorir nad oes eithriadau o'r fath yn berthnasol yn yr achos hwn).
- 55 Y cyngor a roddwyd i mi oedd mai gwasanaethau ymgynghori ym maes rheoli oedd y disgrifiad gorau o'r gwasanaethau yr oedd RKC Associates yn bwriadu eu darparu, a olygai eu bod mewn egwyddor yn ddarostyngedig i gwmpas llawn y gyfundrefn caffael cyhoeddus. Ar yr adeg berthnasol £111,676 oedd y trothwy gwerth perthnasol lle'r oedd gofynion llawn y rheoliadau yn dod i rym. Pan na fydd awdurdod sy'n contractio yn rhoi amcangyfrif o werth tebygol contract ar gyfer gwasanaeth sydd yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn caffael cyhoeddus, mae hynny ynddo'i hyn yn golygu bod rheoliadau caffael cyhoeddus wedi'u torri. Nid roddodd y Bwrdd lechyd amcangyfrif o werth perthnasol contractau Tachwedd 2014 a Mehefin 2015, ac ni wnaeth ychwaith ystyried a ellid adnewyddu'r contractau hynny.
- 56 Er y gellir gwneud rhyw ymgais i gyfrifo'r hyn a fyddai wedi bod yn amcangyfrif rhesymol, mater i'r Bwrdd lechyd yw hyn yn y pen draw, ac ni allaf fabwysiadu safbwynt swyddogol yn ei gylch. Fodd bynnag, pe bai'r Bwrdd lechyd wedi llunio amcangyfrif o'r gwerth, byddai hynny wedi dangos bod y gwerth hwnnw'n uwch na'r trothwy gwerth perthnasol. Dylai'r Bwrdd lechyd felly fod wedi caffael y cytundebau yn unol â Rheoliadau 2015. Ar ben hynny, ac yn ôl y cyngor a roddwyd i mi, gallai'r broses gaffael a gynhaliwyd yn gysylltiedig â'r contract a ddyfarnwyd ym mis Chwefror 2016 fod wedi bod yn groes i Reoliadau 2015, gan nad oed y rhybudd ynglŷn â'r contract a gyhoeddwyd gan y Bwrdd lechyd yn addas i'r diben, gan nad oedd yn hysbysebu contract a oedd ar gael mewn gwirionedd, fel y nodir ym [mharagraffau 110 i 122](#).

- 57 Fel y nodwyd uchod, mae rheoliadau caffael cyhoeddus yn gymhleth. Ni fyddwn felly'n disgwyl i'r rhan fwyaf o swyddogion y Bwrdd lechyd ddeall y rheolau'n fanwl. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl i swyddogion ar lefel uwch o fewn y Bwrdd lechyd fod yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â'r rheolau ac, os oeddent yn ansicr a oedd y rheolau hynny'n berthnasol, i ofyn am gyngor oddi wrth Bennaeth Caffael y Bwrdd lechyd. Ni ofynnwyd am unrhyw gyngor i'r perwyl hwnnw. Mae'r Pennaeth Caffael yn cytuno bod y symiau dan sylw yn uwch na'r trothwyon gwerth perthnasol, ac y dylid bod wedi dilyn proses gaffael lawn yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y caffaeliadau.
- 58 Yn sgil methiant y Bwrdd lechyd i gydymffurfio â'r rheoliadau wrth ddyfarnu contractau i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, achoswyd risg i enw da'r Bwrdd lechyd a risg y byddai darpar dendrwy ac/neu'r Comisiwn Ewropeaidd yn cymryd camau yn erbyn y Bwrdd lechyd.

Methodd y Bwrdd lechyd â chynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar RKC Associates

- 59 Wrth ystyried dyfarnu contractau i gyflenwyr allanol, mae'n hanfodol i gyrrff cyhoeddus ddeall pwy y maent yn cynnal eu busnes â hwy. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan gyflenwir posibl y capasiti a'r gallu i gyflenwi'r contract, eu bod yn sefydlog yn ariannol a bod ganddynt enw da. Er mwyn canfod a yw darpar gyflenwyr yn addas i gyflenwi contractau cyhoeddus, bydd cyrff cyhoeddus yn cynnal gwiriadau a elwir yn wiriadau 'diwydrwydd dyladwy'. Pan na chynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy, bydd y sefydliad yn agored i risg ariannol a risg i enw da.
- 60 Yn ôl SFIs y Bwrdd lechyd: 'y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gyfrifol am gadarnhau bod pob cwmni ar y rhestr tendro yn gadarn yn ariannol ac yn gymwys yn broffesiynol drwy broses cyn-gymhwysio/fetio ariannol a gyflawnir gan swyddog caffael a chanddo gymwysterau a phrofiad addas'.
- 61 Ar gyfer contractau sylweddol, gan gynnwys pob contract sy'n uwch na throthwyon caffael cyhoeddus, mae'r Bwrdd lechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau diwydrwydd dyladwy drwy ofyn i dendrwyr posibl lenwi Holiaduron Cyn Cymhwysio (HCCau) Mae'r holiaduron hyn wedi'u dylunio i ganfod cyflenwyr nad ydynt yn bodloni gofynion craidd y sefydliad. Os nad yw cyflenwr yn bodloni'r gofynion, ni ystyrir dyfarnu contract iddo.

- 62 Mae HCC y Bwrdd Iechyd yn gofyn i gyflenwyr ateb cwestiynau manwl yn y meysydd a ganlyn:
- gwybodaeth gyffredinol am y sefydliad/cwmni;
 - capasiti a gallu;
 - sefyllfa ariannol/economaidd;
 - trefniadau rheoli/llywodraethu;
 - cyfle cyfartal;
 - cynaliadwyedd;
 - iechyd a diogelwch;
 - yswiriant; a
 - digwyddiadau ac anghydfodau.
- 63 Ni ofynnwyd i RKC Associates lenwi HCCau cyn dyfarnu contractau iddo ym mis Tachwedd a mis Mehefin 2015. Ar ben hynny, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth i mi i ddangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas ag RKC Associates na Ms Chana.
- 64 Mae'r methiant i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy priodol yn destun pryder. Pe bai'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal gwiriadau cyflym ar RKC Associates, byddai wedi canfod bod y cwmni wedi cael ei gorffori yn Nhŷ'r Cwmnïau ar 7 Tachwedd 2014, bedwar diwrnod cyn i Ms Chana, perchennog RKC Associates, ddechrau gweithio o dan y contract, a phythefnos ar ôl i Ms Chana anfon ei chynnig contract i'r Bwrdd Iechyd ac arno'r pennawd 'RKC Associates Ltd'.
- 65 Pan ddechreuodd Ms Chana ei gwaith o dan y contract, roedd RKC Associates yn gwmni newydd ei ffurfio, nid oedd wedi cyflawni unrhyw waith ymgynghori blaenorol ac nid oedd ganddo unrhyw hanes o safbwynt ariannol neu lywodraethu.
- 66 Ar ben hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth i mi ei fod wedi ceisio cadarnhau'r canlynol:
- Bod gan RKC Associates yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac indemniad proffesiynol;
 - Bod Ms Chana wedi trefnu i dalu treth incwm ac yswiriant gwladol (gweler [paragraffau 77 i 85](#)); a
 - Bod gan Ms Chana eiridaon boddhaol o gyflogaeth flaenorol.

- 67 Ystyriaf fod methiant y Bwrdd Iechyd i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy priodol ar RKC Associates a Ms Chana wedi achosi risg ddiangen i'r Bwrdd Iechyd.
- 68 Yn ôl Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd ar y pryd rôl yr Adran Gyllid mewn perthynas â chontract Tachwedd 2014 oedd adolygu a chyflwyno sylwadau ar ddrafft y contract o safbwynt cyllid. Fel y nodir ym **mharagraff 29**, dywed Cyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd ar y pryd fod Ms Casey wedi dweud wrthi nad oedd ond angen 'adolygu geiriad y contract.' Cynhaliodd yr Adran Gyllid y dasg hon ar gais y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey. Mae Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd yn mynnu nad oedd gan yr Adran Gyllid unrhyw ran yn y broses o gaffael y gwasanaeth ymgynghori, ac na chynhaliodd unrhyw wiriadau diwydrwydd dyladwy ychwaith.
- 69 Ms Casey oedd y swyddog a lofnododd y contract ag RKC Associates ar ran y Bwrdd Iechyd, ac roedd dyletswydd arni fel y swyddog awdurdodi i sicrhau bod yr holl wiriadau diwydrwydd dyladwy angenrheidiol wedi'u cynnal.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn torri ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog pan gytunodd ar gontractau ag RKC Associates, a oedd wedi cael eu drafftio gan berchennog RKC Associates, ac wrth wneud hynny achosodd risg ddiangen i'r Bwrdd Iechyd

- 70 Mae'n arfer safonol i gyrrff cyhoeddus sy'n ymrwymo i gontractau â chyflenwyr gwasanaethau nodi'r telerau a'r amodau'n ffurfiol mewn ysgrifen. Mae contractau ysgrifenedig yn rhoi sicrwydd i'r naill barti a'r llall ac yn fan cyfeirio cytunedig os cyfyd anghydfod contractiol. Dylai contract gwasanaeth ysgrifenedig drafod materion fel:
- yr hyn a gytunwyd o ran pris a hyd y contract;
 - manyleb y gwasanaethau sydd i'w cyflenwi;
 - rhwymedigaethau cyfreithiol a rhwymedigaethau eraill y cyflenwr;
 - trefniadau monitro'r contract;
 - trefniadau ar gyfer datrys anghydfod; a
 - darpariaethau canslo.

- 71 Yn ôl SFIs y Bwrdd lechyd: 'I gyd-fynd â phob gwahoddiad i dendro dylid cyflwyno telerau ac amodau safonol y Bwrdd lechyd ar gyfer contractau, a'r sail ar gyfer gweithrediadau busnes y Bwrdd lechyd â'r contractwr. Lle bo'n briodol, gall uwch swyddogion caffael lunio contract wedi'i gynllunio'n arbennig, ac ynddo gyngor cyfreithiol priodol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cyllid.' Nodir hefyd yn yr SFIs 'ym mhob dogfen gontract dylid cynnwys cymal i sicrhau bod gan y Bwrdd lechyd hawl i ganslo'r contract ac adennill swm unrhyw golled sy'n deillio o'r weithred honno o ganslo gan y contractwr, os yw'r tendrwr wedi cydgyllwynio ag eraill wrth baratoi ei dendr, neu os yw wedi cynnig, rhoi, neu gytuno i roi unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobwr.'
- 72 Mae'r Bwrdd lechyd wedi mabwysiadu contract safonedig GIG Cymru ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Pe bai'r Bwrdd lechyd wedi defnyddio'r ddogfen gontract safonol hon wrth ymrwymo i gontract ag RKC Associates, byddai wedi sicrhau bod gofynion yr SFI ynghylch contract ysgrifenedig wedi'u bodloni.

Contract Tachwedd 2014

- 73 Ym mis Tachwedd 2014, ymrwymodd Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd lechyd, Ms Casey, gan weithredu ar ran y Bwrdd lechyd, i gontract ag RKC Associates ar gyfer darparu contract ymgynghori chwe mis o hyd. Fel y nodwyd ym mharagraffau 14 i 17, mae'r contract ar ffurf dogfen 'cynnig am gefnogaeth ymgynghori' a anfonwyd gan berchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates, Ms Chana, at Brif Swyddog Gweithredu y Bwrdd lechyd, Ms Casey, ar 22 Hydref 2014, er nad yw'r Bwrdd lechyd na Ms Chana wedi gallu cyflwyno copi wedi'i lofnodi o'r ddogfen i mi.
- 74 Nid yw dogfen y contract yn cynnwys telerau ac amodau safonol y Bwrdd lechyd, ac rwyf o'r farn fod y contract yr ymrwymodd y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, iddo ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 yn groes i SFIs y Bwrdd lechyd ac yn achosi risg ddiangen i'r Bwrdd lechyd am y rhesymau a ganlyn:
- Nid oedd y contract yn cynnwys manyleb fanwl o'r gwasanaethau i'w cyflenwi, safonau ansawdd, rhwymedigaethau cyfreithiol a rhwymedigaethau eraill y cyflenwr, gan gynnwys ymdriniaeth â threth, trefniadau monitro'r contract, trefniadau datrys anghydfod a darpariaethau canslo.

- Nodai'r contract: 'o dan yr ymgylgoreiaeth hon, fy nghyfrifoldeb yw darparu'r cyngor a'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn yn ddidwyll. Mae derbyn y contract yn fy indemnio rhag unrhyw gamau cyfreithiol (ac eithrio atebolrwydd troseddol) a allai gael eu cymryd yn y dyfodol yn gysylltiedig ag unrhyw gyngor neu wasanaeth a ddarparwyd, ac unrhyw ganlyniadau a allai ddigwydd, neu beidio digwydd, yn sgil hynny. Bydd y partion dan sylw neu yr effeithir arnynt gan yr ymgylgoreiaeth yn cael gwybod am hyn, ac yn barti i'r indemniad hwn yn sgil cymryd rhan yn yr ymgylgoreiaeth a ddisgrifir uchod.' Yn fy marn i, ni ddylai'r Bwrdd lechyd fyth fod wedi cytuno i'r amod hwn. Yr oedd yn indemnio RKC Associates rhag i'r Bwrdd lechyd gymryd camau cyfreithiol pe bai'r ymgynghorydd yn methu â chyflawni'r gwaith, yn perfformio'n is na'r safon neu'n esgeulus.

- 75 Ar 22 Hydref 2014, cafodd Ms Casey sgwrs â Chyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd lechyd ar y pryd (a oedd hefyd yn Arweinydd Gweithredol y Bwrdd lechyd ym maes caffael), ac yn dilyn y sgwrs honno anfonodd y contract a gynigiwyd drwy e-bost at Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd lechyd ar y pryd. Nodir yn yr e-bost 'dyma'r cynnig wedi'i atodi. A yw'n iawn i'w lofnodi?' Wedyn anfonodd y Cyfarwyddwr Cyllid ar y pryd y contract drafft at aelodau staff Cyllid y Bwrdd lechyd i'w ystyried.
- 76 Er i staff Cyllid y Bwrdd lechyd godi pwyntiau penodol ynghylch telerau'r contract, siom oedd canfod na hysbyswyd y Prif Swyddog Gweithredu fod y ffurf a gynigiwyd ar gyfer y contract yn annerbyniol. Ar 4 Tachwedd 2014, cyngor y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid i Ms Casey oedd bod y contract a gynigiwyd yn: 'edrych yn iawn i'w lofnodi', ond y byddai'n fuddiol cael rheolau ynghylch yr hyn yr oedd 'treuliau rhesymol' yn ei gynrychioli.

Contract Mehefin 2015

- 77 Ar 15 Mehefin 2015, gan weithredu ar ran y Bwrdd lechyd, llofnododd y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, gcontract pellach ag RKC Associates ar gyfer darparu contract ymgynghori arall chwe mis o hyd. Dogfen wedi'i drafftio gan Ms Chana o RKC Associates oedd y contract hwn unwaith eto. Fel yn achos y contract o fis Tachwedd 2014, nid oedd y contract a ddrafftiodd gan Ms Chana yn gyson â chontract safonedig y Bwrdd lechyd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, ac yr oedd yn ddiffygiol am yr un rhesymau a roddwyd ym [mharagraff 74](#).
- 78 Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi darparu darparu contract arall eto i mi a oedd yn trafod yr un gwasanaeth a'r cyfnod a'r un a lofnodwyd ar 15 Mehefin 2015. Llofnodwyd y contract arall hwn gan Ms Casey ar ran y Bwrdd lechyd ar 9 Gorffennaf 2015, a chan Ms Chana ar ran RKC Associates ar 15 Gorffennaf 2015. Lluniwyd y contract dyddiedig 9 Gorffennaf 2015 gan Bennaeth Llywodraethu Gweithlu y Bwrdd lechyd. Mae telerau contract Gorffennaf 2015 yn llawer manylach na'r

telerau a nodwyd yng nghontract Mehefin 2015, ac maent yn cynnwys darpariaethau lle'r oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu gofyn i Ms Chana ddarparu manylion ei threfniadau ar gyfer treth ac yswiriant gwladol.

- 79 Ymddengys fod yr ail gontract wedi'i lunio er mwyn sicrhau bod trefniadau contractio'r Bwrdd Iechyd ag RKC Associates yn cydymffurfio ag argymhellion 'Adolygiad o drefniadau treth penodeion sector cyhoeddus' gan Drysorlys EM (adolygiad Trysorlys EM). Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu argymhellion adolygiad Trysorlys EM ac roedd hi'n ofynnol i gyrff GIG Cymru gydymffurfio â'r argymhellion hynny o fis Rhagfyr 2013.
- 80 Roedd yr argymhellion yn cynnwys:
- 'dylai aelodau bwrdd ac uwch swyddogion a chanddynt gyfrifoldeb ariannol sylweddol fod ar gyflogres y sefydliad, oni cheir amgylchiadau eithriadol - a phryd hynny dylai'r Swyddog Cyfrifyddu gymeradwyo'r trefniadau - ac ni ddylai eithriadau felly fodoli am gyfnod hwy na chwe mis; a
 - dylai ymrwymadau hwy na chwe mis, ar gyfradd ddyddiol o fwy na £220, gynnwys darpariaethau contract sydd yn galluogi'r adran i geisio sicrwydd ynghylch ymrwymadau treth incwm ac NICS y sawl y mae'n ymrwymo i gontract ag ef/hi - a therfynu'r contract os na roddir y sicrwydd hwnnw.'
- 81 Ar 27 Chwefror 2015, derbyniodd holl brif weithredwyr y GIG, gan gynnwys Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar y pryd, yr Athro Cairns, ohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch yr angen i gydymffurfio â'r argymhellion hyn. Anfonodd yr Athro Cairns yr ohebiaeth at Ms Chana gan ofyn: 'Beth y mae angen i ni ei wneud yn eich cylch chi.' Ymatebodd Ms Chana i'r Athro Cairns, gan gopïo Ms Casey, drwy ddweud ei bod hi a Ms Casey 'wedi trafod hyn a chytuno i barhau â'r drafodaeth ar ôl i mi ddychwelyd i'r swyddfa ochr yn ochr â'r [Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid] a chymryd unrhyw gamau cytunedig.'
- 82 Er gwaethaf hyn, nid oedd y contract ag RKC Associates a lofnodwyd gan Ms Casey ar 15 Mehefin 2015 yn cynnwys darpariaethau fyddai'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i ofyn i Ms Chana gadarnhau ei hymrwymadau o ran treth incwm ac yswiriant gwladol.
- 83 Yn ôl Pennaeth Llywodraethu Gweithlu'r Bwrdd Iechyd, lluniodd dempled o gontract ar gyfer gwasanaethau o'i ben a'i bastwn ei hun ar ôl bod yn bresennol mewn seminar lle cyfeiriwyd at yr angen i gydymffurfio ag adolygiad Trysorlys EM. Ar ôl dod yn ymwybodol o'r ffaith y byddai Ms Chana yn cael ei hail-ymrwymo, roedd o'r farn y dylid rhoi'r contract a luniwyd ganddo ef iddi er mwyn sicrhau bod telerau'r contract yn cydymffurfio ag argymhellion adolygiad Trysorlys EM.

- 84 Ar 19 Mehefin 2015, ysgrifennodd Pennaeth Llywodraethu'r Gweithlu at Ms Casey yn datgan 'yn rhan o'r gofyniad i gydymffurfio â rheolau Trysorlys EM o ran rhwymedigaethau treth contractwyr, bydd angen i ni gyflwyno contract newydd [i Ms Chana]. Rwyf wedi drafftio'r ddogfen sydd wedi'i hatodi (y byddwn yn ei defnyddio fel templed ar gyfer pob contractwr arall).'
- 85 Roedd y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Gorffennaf 2015 yn cyflwyno darpariaethau i alluogi'r Bwrdd lechyd i geisio sicrwydd oddi wrth Ms Chana ynghylch ei threfniadau treth ac yswiriant gwladol. Yn fy marn i, methodd y Bwrdd lechyd â chydymffurfio â'i SFIs ei hun wrth ymrwymo i gontractau ag RKC Associates a oedd wedi'u drafftio gan Ms Chana ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, ac wrth wneud hynny achosodd risg ddiangen i'r Bwrdd lechyd.

Penododd y Bwrdd lechyd berchennog RKC Associates i gyflenwi prosiectau ymgynghori, ond fe'i defnyddiwyd gan y Bwrdd lechyd fel aelod uwch o staff, ac y mae'n bosib ei fod felly wedi gor-hawlio £58,162 mewn TAW

- 86 Rhoddwyd contractau i RKC Associates ddarparu gwasanaethau ymgynghori i'r Bwrdd lechyd, wedi i Gyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd lechyd fynd ar secondiad i sefydliad arall o fewn y GIG ar 1 Hydref 2014, a hynny heb fawr ddim rhybudd. O ganlyniad i hyn, gwelodd y Bwrdd lechyd ostyngiad yng nghapasiti cyffredinol ei arweinyddiaeth AD.
- 87 Ymrwymodd y Bwrdd lechyd i gontractau ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, mis Mehefin 2015 (contract oedd hwn a ddisodlwyd gan contract a wnaed ym mis Gorffennaf 2015), a mis Chwefror 2016 (gweler **paragraffau 110 i 153** am fanylion contract mis Chwefror 2016). Mae'r Bwrdd lechyd wedi trin y contractau hyn fel contractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ymgynghori. Cafodd yr holl waith a oedd yn ofynnol o dan y contractau hyn ei gyflawni gan berchennog RKC Associates, Ms Chana. Fel y nodwyd yn **Atodiad 1**, nodir ym mhob contract y gwasanaethau ymgynghori y byddai'n ofynnol i Ms Chana eu cyflenwi. Ceir cysylltiadau agos iawn rhwng y cyflawniadau a bennwyd ar gyfer pob contract. Dyma'r tair elfen allweddol ym mhob contract:
- gwella prosesau recriwtio'r Bwrdd lechyd;
 - lleihau cyfraddau absenoldeb salwch; a
 - darparu cefnogaeth dros dro lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Trefniadol.

- 88 Ar 22 Hydref 2014, anfonodd Ms Casey gopi o'r contract a gynigiwyd ag RKC Associates i'w adolygu gan Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd ar y pryd. Mynegodd y staff o fewn yr Adran Gyllid bryder ynghylch a oedd a wnelo'r contract â chyflenwi staff neu wasanaethau ymgynghori. Roedd hwn yn wahaniaeth pwysig, oherwydd pe bai'r contract yn gcontract ar gyfer cyflenwi staff, ni fyddai'r Bwrdd Iechyd yn gallu adennill unrhyw TAW a godwyd gan RKC Associates, ond pe bai'r contract yn gcontract am wasanaethau ymgynghori, byddai'r Bwrdd Iechyd yn gallu adennill unrhyw TAW a dalwyd oddi wrth CaThEM.
- 89 Gweithredodd staff yr Adran Gyllid yn y modd priodol a gofyn am gyngor ynghylch hyn oddi wrth gynghorydd TAW allanol y Bwrdd Iechyd, a ddywedodd fod y defnydd o'r ymadrodd 'dros dro' yn y contract a gynigiwyd yn anghynorthwyol am y rhesymau a ganlyn: 'mae CaThEM bob amser yn ystyried hynny fel arwydd bod staff yn cael eu cyflenwi. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, y teimlad yw bod 'dros dro' yn golygu gwaith am gyfnod byr neu gyfnod penodol yn hytrach na chyflawni rôl bresennol. Mae'n ymddangos fel y bydd Ms Chana yn cael ei 'chyflogi' i ddarparu astudiaeth weithiol o'r prosesau hyn a chynghori ynghylch newidiadau. Y mae dechrau a diwedd pendant i'r broses hon. Fel gwiriad terfynol, gellid sicrhau nad yw'r rôl y mae [Ms Chana] yn ei chyflawni yn swydd barhaus. Os nad hynny'n wir, a dyna yw fy amheuaeth i, byddwn yn hapus i chi adennill y TAW a godwyd am y cyflenwad hwn...ond byddwn yn trefnu i wella geiriad yr anfonebau a anfonir gan [Ms Chana] i roi disgrifiad gwell o'r hyn sy'n cael ei gyflenwi mewn gwirionedd. Pe bai modd i chi ofyn iddi osgoi defnyddio'r ymadrodd 'dros dro', byddai hynny'n help, oherwydd mae'n ymddangos i mi nad llenwi swydd dros dro a wneir, ond gwaith ymgynghori gan gwblhau astudiaeth o brosesau.'
- 90 Rwyf o'r farn fod y cyngor a gafodd y Bwrdd Iechyd yn ddoeth. Fodd bynnag, yn ymarferol, ni ddefnyddiodd y Bwrdd Iechyd Ms Chana fel ymgynghorydd a gyflawnai brosiectau penodol wedi'u diffinio yn y contract yn unig, ond yn hytrach fel cyflogai a gyflawnai ystod eang o swyddogaethau'n gysylltiedig â chyflogai, nad oeddent wedi'u nodi yn y contract. Dyma rai o'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn:
- Wrth ymgeisio am rôl Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2016, cyflwynodd Ms Chana ei curriculum vitae (CV) i'w ystyried gan banel asesu recriwtio y Bwrdd Iechyd. Yn ôl y CV, roedd Ms Chana wedi bod yn cyflawni rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn y Bwrdd Iechyd ers mis Rhagfyr 2014. Yn y CV, nodir amrywiaeth eang o gyfrifoldebau arweinyddol a rheolaethol yr oedd Ms Chana wedi bod yn eu cyflawni yn ystod y cyfnod ers Rhagfyr 2014, gan gynnwys: 'arwain swyddogaeth y Gweithlu a DT (150 aelod o staff), gan eglurhau atebolrwydd, rolau a gwelliannau ystwyth'.

- Yn nogfennau mewnol y Bwrdd Iechyd ei hun ar gyfer y cyfnod dan sylw, gan gynnwys cofnodion y Bwrdd, cofnodir mai Ms Chana oedd Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithlu a Datblygu Trefniadol neu Gyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol y Bwrdd Iechyd. Nodai'r dogfennau hyn hefyd fod Ms Chana yn cyflawni ystod eang o gyfrifoldebau y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn ei chontractau ar gyfer gwasanaethau ymgynghori.
- Fel y nodir ym **mharagraff 89**, roedd cynghorydd TAW y Bwrdd Iechyd wedi cynghori'r Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2014 nad oedd hi'n fuddiol defnyddio'r ymadrodd 'dros dro' yn y contract a gynigiwyd, a hynny am y rhesymau canlynol: 'mae CaThEM bob amser yn ystyried hynny fel arwydd bod staff yn cael eu cyflenwi. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, y teimlad yw bod 'dros dro' yn golygu gwaith am gyfnod byr neu gyfnod penodol yn hytrach na chyflawni rôl bresennol'. Er gwaethaf hyn, ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gytundebau contract pellach ym mis Mehefin 2015 a Chwefror 2016 a nodai y byddai'n ofynnol i Ms Chana ddarparu cefnogaeth dros dro ar lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Trefniadol (gweler **Atodiad 1**) ac mewn llythyrau a gyfeiriwyd oddi wrth Ms Casey i Ms Chana, dyddiedig 1 Mehefin 2015 (gweler **paragraff 35**) ac 14 Rhagfyr 2015 (gweler **paragraff 116**) nodwyd: 'Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dymuno ymrwymo i gontract â chi i ddarparu cefnogaeth yn gysylltiedig â gwaith llanw dros dro sydd ei angen ar gyfer rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol.' Rwyf felly o'r farn fod Ms Chana wedi'i phenodi fel 'cyflenwad o staff'.

91 Mae Ms Chana wedi dweud wrth fy archwilwyr ei bod wedi cael ei defnyddio i gyflawni'r tasgau penodol a nodwyd yn ei chontractau ymgynghori, a'i bod wedi cyfarfod â Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar y pryd, yr Athro Cairns, a ofynnodd iddi gyflawni gwaith ar 'feysydd eraill perthnasol â blaenoriaeth.' Mae Ms Chana wedi nodi enghreifftiau o'r gweithgareddau y gofynnwyd iddi eu cyflawni, ac mae hyn yn atgyfnerthu fy safbwynt bod Ms Chana mewn gwirionedd yn gweithio fel cyflogai i'r Bwrdd Iechyd

92 I ddibenion rheolau caffael cyhoeddus, casglaf ym **mharagraffau 50 i 58** mai pwrpas contractau'r Bwrdd Iechyd ag RKC Associates oedd darparu contractau ymgynghori ym maes rheoli. Fodd bynnag, i ddibenion rheoliadau treth, rwyf o'r farn y dylid bod wedi ystyried Ms Chana yn benodai sector cyhoeddus oddi ar y gyflogres, oherwydd cwmpas a natur y gweithgareddau a gyflawnir. Mae hyn yn golygu y gallai'r Bwrdd Iechyd fod wedi adennill cyfanswm gwallus o £58,162 mewn TAW oddi wrth CaThEM ar daliadau a wnaed i RKC Associates ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2014 a Mawrth 2016. Er gwaethaf y casgliad hwn, ni ystyriaf fod y cytundebau yn gontractau cyflogaeth i dibenion eu heithrio yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2016 a 2015.

Tudalen y pecyn 262

Fel y swyddog a lofnododd y contractau ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, roedd gan Brif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd lechyd ddyletswydd i sicrhau bod proses briodol wedi'i dilyn. Mae'r methiant i wneud hynny wedi creu amheuon ynghylch a gafodd y penderfyniad i ddyfarnu'r contractau hyn ei seilio'n gyfan gwbl ar ystyriaethau dilys

- 93 Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl i swyddogion cyhoeddus arddangos safonau ymddygiad uchel wrth gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu 'Polisi Fframwaith Safonau Ymddygiad gan gynnwys Datganiadau o Fuddiant, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd' (y Fframwaith Safonau Ymddygiad). Mae'r Fframwaith Safonau Ymddygiad yn nodi'r canlynol: 'mae'r Bwrdd yn disgwyl i bob Aelod Annibynnol a Chyflogai arfer safonau ymddygiad corfforaethol a phersonol uchel, yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth mai anghenion cleifion ddylai gael y sylw pennaf'.
- 94 Mae'r Fframwaith Safonau Ymddygiad yn pennu canllawiau i staff ac aelodau annibynnol y Bwrdd lechyd ynghylch rheoli a chofnodi achosion posib o wrthdaro buddiannau. Mae'r datganiadau canlynol yn arbennig o berthnasol, sef y dylai aelodau staff:
- 'ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant perthnasol pan fydd achos posibl o wrthdaro buddiannau yn codi yn ystod prosesau caffael, ee yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac mewn cyfarfodydd pwyllgor;
 - arsylwi Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a pholisïau a gweithdrefnau caffael y Bwrdd lechyd;
 - os gofynnir i'r cyflogai gymryd rhan yn y broses gaffael, gofynnir iddo ailgadarnhau ei fuddiannau a chadarnhau nad oes unrhyw fuddiannau eraill perthnasol y dylid eu datgan;
 - cofiwch fod yr angen i ddatgan buddiant hefyd yn cynnwys buddiannau perthnasol achos, a ffrindiau o bosib; a
 - datgan unrhyw fuddiannau perthnasol (gan gynnwys unrhyw beth) a allai achosi gwrthdaro buddiannau posibl.'
- 95 Yn Haf/Hydref 2014, fel y nodwyd ym **mharagraff 19**, cysylltodd Prif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd lechyd, Ms Casey, â chyn-weithiwr, Ms Chana a'i hysbysu bod y Bwrdd lechyd yn ystyried caffael cefnogaeth dros dro ar gyfer Adran y Gweithlu a Datblygu Trefniadol, tra bo Cyfarwyddwr yr Adran ar secondiad. Arweiniodd y cysylltiad hwn yn y pen draw at ddyfarnu tri contract ymgynghori gwerth £290,809 + TAW i RKC Associates, cwmni Ms Chana.

- 96 Pan gysylltodd â Ms Chana, mae Ms Casey mynnu bod amryw o flynyddoedd wedi mynd heibio ers gweithio gyda hi, ac mai perthynas cwbl broffesiynol oedd rhyngddynt. Ar ben hynny, er iddi gyflwyno Ms Chana i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar y pryd, yr Athro Cairns, nid oedd ganddi unrhyw ran yn y penderfyniad i ddyfarnu contract i gwmni Ms Chana, RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, ac nid oedd ganddi ychwaith ran yn y broses o negodi telerau'r ymrwymiad. Fodd bynnag, fel y nodir ym **mharagraff 1**, dengys y dogfennau sydd ar gael fod gan Ms Casey ran annatod yn y broses o negodi telerau'r ymrwymiad, a'i bod wedi llofnodi'r contract ar ran y Bwrdd Iechyd.
- 97 O ystyried ei chysylltiad â Ms Chana yn y gorffennol, dylai Ms Casey fod wedi datgan y cysylltiad hwnnw'n ffurfiol drwy systemau ffurfiol y Bwrdd Iechyd ar gyfer datgan buddiannau posib a gwirioneddol, a dylai fod wedi gofyn am gyngor ynghylch a oedd hi'n briodol iddi fod ag unrhyw rôl yn y prosesau caffael neu gontractio. Ni ddatganodd Ms Casey yr hyn a allai gael ei ystyried yn fuddiant perthnasol.
- 98 Bu Ms Casey yn agored gyda'i chydweithwyr ynglŷn â'i chysylltiad blaenorol â Ms Chana, ac mae Cyfarwyddwr Nyrsio, cyn Brif Weithredwr a chyn Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd wedi rhoi cadarnhad i mi ynghylch hynny. Pe bai'r mater wedi'i ddatgan, rwyf hefyd yn cydnabod y gellid bod wedi casglu bod y buddiant yn ddigon dibwys fel na fyddai'n rhaid gwahardd Ms Casey rhag cymryd rhan mewn unrhyw broses gaffael a chontractio fyddai'n cael ei chynnal yn unol ag SFIs y Bwrdd Iechyd.
- 99 Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, llofnododd Ms Casey gontractau sylweddol ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 heb gyflawni'r canlynol:
- gofyn am gyngor gan Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd;
 - sicrhau bod y contract wedi'i gaffael yn unol ag SFIs a Chynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd Iechyd; a
 - sicrhau bod gwiriadau diwydrwydd dyladwy wedi'u cynnal yn gysylltiedig ag RKC Associates a Ms Chana.
- 100 Pe bai'r gwasanaethau hyn wedi'u caffael drwy Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd, byddai wedi bod yn ofynnol i Ms Casey lenwi ffurflenni datgan buddiant cyn cymryd rhan yn y broses gaffael. Fodd bynnag, gan na ddilynydd y broses briodol, ni ofynnwyd i Ms Casey lenwi ffurflenni datgan buddiant yn gysylltiedig â chaffael RKC Associates, ac ni wnaeth hynny.

Tudalen y pecyn 264

101 Yn sgil methiant Ms Casey i sicrhau bod y contractau a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, a Mehefin 2015 wedi'u caffael drwy brosesau priodol, a hefyd ei chysylltiad blaenorol â Ms Chana, na chafodd ei ddatgan yn ffurfiol, ceir amheuon a oedd y penderfyniad i ddyfarnu contract ymgynghori i gwmni Ms Chana yn seiliedig ar ystyriaethau cwbl ddilys.

Ni wnaeth y Bwrdd lechyd gyflawni gwaith monitro effeithiol ar ei gontractau ag RKC Associates, ac fe gafwyd taliadau a oedd yn uwch na gwerth y contractau a threuliau heb eu dilysu yn gysylltiedig â chontractau

Roedd y swm a dalwyd i RKC Associates yn uwch na gwerth cytunedig y contract, ond ni chytunwyd ar unrhyw amrywiad i'r contract, ac ni adroddwyd y gorwariant

102 Pan fydd cyrff cyhoeddus yn dyfarnu contractau am wasanaethau i gyflenwyr allanol, mae'n hanfodol sefydlu trefniadau monitro ariannol er mwyn sicrhau:

- bod y symiau a delir i gyflenwr yn unol â thelerau'r contract cytunedig;
- y cytunir yn ffurfiol ar unrhyw amrywiadau rhwng y telerau cytunedig, ac yr adroddir am hynny; ac
- y creffir ar bob swm a godir gan y cyflenwr o dan y contract er mwyn sicrhau eu bod yn dreuliau dilys o dan y contract.

103 Cyflwynodd RKC Associates anfonebau i'r Bwrdd lechyd yn gysylltiedig â gwaith ymgynghori a gyflawnwyd i'r Bwrdd lechyd rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2016. Roedd y gwaith a gyflawnwyd yn gysylltiedig â thri chontract ymgynghori.

104 O dan delerau'r contractau, contractiwyd RKC Associates i ddarparu uchafswm o 252 o ddiwrnodiau o wasanaeth ymgynghori ar gyfradd o £1,000 + TAW bob dydd, gyda chyfanswm gwerth contract o £252,000 + TAW. Cyflwynodd RKC Associates anfonebau i'r Bwrdd lechyd am ddarparu 264.5 o ddiwrnodiau o wasanaeth ymgynghori ar gyfradd o £1,000 + TAW, sef cyfanswm o £264,500 + TAW. Roedd hyn tua £12,500 yn uwch na'r symiau a gytunwyd yn y contractau.

105 Cyflwynodd Ms Chana anfonebau i Ms Casey am y gwaith a gyflawnwyd. Cymeradwyodd hithau 'r anfonebau a'u hanfon yn eu tro i'w talu gan Adran Gyllid y Bwrdd lechyd.

- 106 Er nad oes gennyf reswm i amau na chyflawnodd Ms Chana y diwrnodiau ymgynghori yr anfonwyd anfoneb amdanynt i'r Bwrdd lechyd, nid yw'r Bwrdd lechyd wedi gallu darparu unrhyw dogfennau ataf i gymeradwyo amrywio telerau'r contractau nac yn adrodd ar y gorwariant yn gysylltiedig â'r contractau a'r rhesymau am hynny.

Derbyniodd RKC Associates £26,309 + TAW mewn taliadau yn gysylltiedig â threuliau a achoswyd wrth gyflawni ei contractau ymgynghori gyda'r Bwrdd lechyd, ond ni cheisiodd y Bwrdd lechyd wirio dilysrwydd y treuliau hyn o dan delerau'r contract

- 107 Roedd telerau'r contractau rhwng RKC Associates a'r Bwrdd lechyd yn cynnwys darpariaeth i RKC Associates hawlio ad-daliad o dreuliau a achoswyd wrth gyflawni'r contractau, fel cost teithiau trên, llety yng Nghaerdydd a ffioedd tacsï. Ym mis Hydref 2014, cytunodd Adran Gyllid y Bwrdd lechyd a'r ddiwygiadau i'r contract a gynigiwyd gan Ms Chana yn nodi'r cyfraddau uchafswm ar gyfer y treuliau y byddai Ms Chana yn gallu eu hawlio. Yn y contractau pellach a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 a mis Chwefror 2016, nodwyd y byddai Ms Chana yn cael hawlio yr un cyfraddau a chyflogeion y Bwrdd lechyd. .
- 108 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2016, ad-dalwyd £26,309 + TAW i RKC Associates am dreuliau a achoswyd. Nododd Ms Chana swm y treuliau yr oedd yn gofyn i'r Bwrdd lechyd eu had-dalu ar holl anfonebau RKC Associates. Fodd bynnag, nid oedd yr anfonebau'n rhoi manylion y treuliau na'r cyfraddau a oedd yn cael eu hawlio. Ar ben hynny, ni chyflwynwyd unrhyw dderbynebau nac anfonebau yn gysylltiedig â'r treuliau oedd yn cael eu hawlio. Dywed Ms Chana ei bod wedi cadw'r anfonebau hynny ac wedi cynnig eu darparu i'r Bwrdd lechyd, ond na ofynnwyd amdanynt ar unrhyw bryd. Er gwaethaf y diffyg manylion i gefnogi ceisiadau Ms Chana i ad-dalu treuliau, awdurdododd y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, yr anfonebau i'w talu a'u hanfon ymlaen i Adran Gyllid y Bwrdd lechyd er mwyn prosesu'r taliadau.
- 109 Ni chafodd Ms Casey weld unrhyw ddogfennau cefnogol wrth awdurdodi'r ceisiadau am dreuliau, ac ymddengys na wnaed unrhyw ymdrech i gadarnhau bod y treuliau a oedd yn cael eu hawlio yn dreuliau dilys o dan y contract. Yn ddiweddarach, adenillodd y Bwrdd lechyd y TAW oddi wrth CaThEM mewn perthynas â'r treuliau hyn. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi natur gwariant, nac unrhyw beth i ddangos a oedd y symiau a hawliwyd yn cynnwys neu heb gynnwys TAW, ni all y Bwrdd lechyd ddangos bod ganddo hawl i adennill TAW.

Roedd y modd y dyfarnwyd contract ymgynghori AD i RKC Associates ym mis Chwefror 2016, ynghyd â gweithredoedd penderfynwyr allweddol yn tanseilio hygrededd y broses gaffael

Cychwynnodd y Bwrdd Iechyd broses gaffael ar gyfer contract a gwahodd ac arfarnu tendrau ar gyfer y contract hwnnw, er ei fod eisoes wedi ymrwmo ag RKC Associates cyn dechrau'r broses dendro

- 110 Ar 4 Rhagfyr 2015, daeth y contract chwe mis a ddyfarnwyd gan y Bwrdd Iechyd i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 (ac a ddisodlwyd gan gontract a ddyfarnwyd ym mis Gorffennaf 2015) i ben.
- 111 Dywed y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, ei bod wedi atgoffa'r Prif Weithredwr ar y pryd, sef yr Athro Cairns, yn hwyr ym mis Tachwedd 2015 y byddai'r contract ag RKC Associates yn dod i ben yn fuan.
- 112 Ar ryw bryd y mis Rhagfyr 2015, cysylltodd Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd â Chyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol y Bwrdd Iechyd i ofyn am gyngor ynghylch y gofynion caffael ar gyfer contract ymgynghori tri mis o hyd. Ni all y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol gofio'r amgylchiadau fu'n sbardun iddo siarad â'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol ynghylch y mater hwn.
- 113 Ar 22 Rhagfyr 2015, cyfarfu'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol â Pennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd, ac fe gynghorodd y Pennaeth Caffael fod angen cynnal ymarfer tendro cystadleuol er mwyn caffael y contract ymgynghori tri mis a gynigiwyd, yn unol ag SFIs y Bwrdd Iechyd.
- 114 Ar 23 Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Pennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd rybudd i hysbysebu bod contract ymgynghori AD tri mis ar gael, gan wahodd darpar gyflenwyr i gyflwyno tendrau ar gyfer y contract erbyn 6 Ionawr 2016. Daeth chwe thendr i law, ac fe'u gwerthuswyd gan Bennaeth Caffael a Swyddog Caffael y Bwrdd Iechyd ar 7 Ionawr 2016. Ar ôl eu gwerthuso, lluniodd y Swyddog Caffael ddrafft o adroddiad gwerthuso caffael a chais am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract. Yn ôl y Swyddog Caffael, anfonodd y dogfennau hyn at y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, i'w derbyn neu eu diwygio yn unol â'i chais. Ar 28 Ionawr 2016, anfonodd y Pennaeth Caffael fersiynau wedi'u diweddarau o'r adroddiad gwerthuso caffael a'r cais am gymeradwyaeth Gynorthwydd Gweithredol Ms Casey yn gofyn am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract i RKC Associates. Awdurdododd Ms Casey yr adroddiad gwerthuso caffael ar 1 Chwefror 2016, ac awdurdododd Cyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd y cais am gymeradwyaeth ar 9 Chwefror 2016.

- 115 Ar 12 Chwefror 2016, ysgrifennodd Pennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd at Ms Chana er mwyn dyfarnu'r contract i'r cwmni hwnnw. Yn y llythyr dyfarnu contract, nodir bod y contract yn weithredol o 4 Ionawr 2016 hyd 31 Mawrth 2016.
- 116 Yn ystod fy archwiliad, rhoddodd y Bwrdd Iechyd gopi o lythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 oddi wedi'i gyfeirio oddi wrth Ms Casey at Ms Chana ac wedi'i lofnodi â llofnod electronig Ms Casey. Nodir yn y llythyr: 'Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dymuno ymrwymo i contract â chi i ddarparu cefnogaeth yn gysylltiedig â gwaith llanw dros dro sydd ei angen ar gyfer rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol, gyda hyd y contract hwnnw'n ddibynnol ar benodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol parhaol. Mae'r broses honno bellach ar y gweill a chyfweliadau wedi'u trefnu. Dyma fydd y cyflawniadau disgwylidig yn ystod y cyfnod hwn:
- Cefnogaeth dros dro ar lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu;
 - Gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch; a
 - gweithredu'r cynlluniau i wella'r broses o recriwtio a chadw, yn enwedig ar gyfer nyrsys Band 5.'
- 117 Mae'r fanyleb ar gyfer y contract ymgynghori tri mis a ddisgrifir yn y llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 yn ymddangos yr un peth â'r contract a hysbysebwyd gan Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd ar 23 Rhagfyr 2015. Ymddengys felly fod Ms Chana wedi cael gwybod mewn ysgrifen fod y contract ymgynghori tri mis wedi'i ddyfarnu iddi hi cyn i'r broses gaffael gychwyn.
- 118 Mae Ms Casey yn mynnu bod y llythyr wedi'i baratoi gan 'yr Adran AD' ac nid oedd ganddi unrhyw ran yn y cais i baratoi'r llythyr. Mae Ms Casey yn mynnu nad yw'n credu i'r llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 gael ei anfon at Ms Chana.
- 119 Nid wyf wedi gallu cadarnhau'n bendant a anfonwyd y llythyr at Ms Chana ai peidio. Fodd bynnag, ailgychwynnodd Ms Chana waith ymgynghori gyda'r Bwrdd Iechyd, gan adrodd wrth Ms Casey ar 14 Rhagfyr 2015, ar yr un dyddiad â'r llythyr, a chyflawni 35 diwrnod o waith ymgynghori i'r Bwrdd Iechyd ar gyfradd o £1,000 + treuliau a TAW rhwng 14 Rhagfyr 2015 ac 11 Chwefror 2016.

Tudalen y pecyn 268

- 120 Mae Ms Casey yn mynnu na wnaeth awdurdodi'r weithred o baratoi'r llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015, ac nid yw ychwaith yn credu i'r llythyr gael ei anfon at Ms Chana. Fodd bynnag, os na chafodd y llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 ei anfon at Ms Chana, ymddengys i mi fel pe bai Ms Chana wedi dod i'r gwaith yn y Bwrdd Iechyd ar 14 Rhagfyr 2015, wedi cyflawni 35 diwrnod o waith ymgynghori yn y cyfnod rhwng 14 Rhagfyr 2015 ac 11 Chwefror 2016 heb gontract gweithredol, a bod Ms Casey wedi awdurdodi'r taliadau i RKC Associates yn gysylltiedig â'r gwaith hwn. Mae Ms Casey wedi cadarnhau ei bod hi'n ymwybodol bod y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 wedi'i derfynu ar 4 Rhagfyr 2015.
- 121 Mae Ms Chana hefyd wedi cadarnhau mai'r llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 oedd y sail i'w hymrwymiad gyda'r Bwrdd Iechyd o 14 Rhagfyr 2015.
- 122 Rwyf o'r farn fod tystiolaeth gref i gefnogi'r dybiaeth fod Ms Chana wedi cael gwybod am y penderfyniad i ddyfarnu'r contract ymgynghori tri mis i RKC Associates, a'i bod wedi cychwyn gwaith ar y contract hwnnw cyn y broses dendro a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd.

Ôl-ddyddio contract a ddyfarnwyd ar 12 Chwefror 2016

- 123 Yn ôl yr adroddiad gwerthuso caffael a'r cais am gymeradwyaeth i benodi RKC Associates a anfonwyd at y Prif Weithredwr ar y pryd ar 28 Ionawr 2016, a'r llythyr dyfarnu contract a anfonwyd at Ms Chana ar 12 Chwefror 2016, byddai cyfnod y contract o dri mis yn weithredol o 4 Ionawr 2016 hyd 31 Mawrth 2016. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith mai 6 Ionawr oedd y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mai dyddiad dyfarnu'r contract oedd 12 Chwefror 2016. Drafftwyd y naill ddogfen a'r llall o fewn Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd. Mae'n ymddangos felly i mi ei bod hi eisoes yn hysbys bod RKC Associates yn cyflenwi'r contract a oedd yn cael ei hysbysebu cyn gwerthuso'r tendrau ar gyfer y contract.
- 124 Cafodd dyddiad dechrau'r contract ei ôl-ddyddio i 4 Ionawr 2016, cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Yn fy marn i, y rheswm am hyn oedd bod y Bwrdd Iechyd eisoes wedi ymrwymo Ms Chana ar 14 Rhagfyr i gyflenwi contract a oedd yn ymddangos yr un peth â'r contract a ddyfarnwyd yn swyddogol ar 12 Chwefror 2016.
- 125 Darparodd y Pennaeth Caffael gopi o ddrafft yr adroddiad gwerthuso caffael, ac mae'n mynnu ei bod wedi anfon yr adroddiad hwnnw at Ms Casey i'w gymeradwyo neu ei ddiwygio. Roedd y ddogfen hon yn dyddiedig 7 Ionawr 2016, ac yn nodi y byddai cyfnod y contract yn dechrau ar 7 Ionawr 2016 ac yn parhau hyd 31 Mawrth 2016.

- 126 Yn dilyn hyn, lluniwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r adroddiad gwerthuso caffael. Nodwyd y dyddiad 27 Ionawr 2016 ar y ddogfen hon, a diwygiwyd cyfnod y contract o'r fersiwn flaenorol i'r cyfnod 4 Ionawr 2016 hyd 31 Mawrth 2016. Anfonwyd y fersiwn wedi'i diweddaru o'r adroddiad gwerthuso caffael at Gynorthwydd Gweithredol Ms Casey ar 28 Ionawr 2016, ac fe'i llofnodwyd gan Ms Casey ar 1 Chwefror 2016.
- 127 Yn ôl y Swyddog Caffael, ôl-ddyddiodd dyddiad dechrau'r contract i 4 Ionawr 2016 yn fersiwn derfynol yr adroddiad gwerthuso caffael, y cais am gymeradwyaeth a'r llythyr dyfarnu contract, ar sail cyfarwyddyd dros y ffôn o Bencadlys y Bwrdd Iechyd. Dywedodd wrthyf nad oedd yn gallu cofio pwy roddodd y cyfarwyddyd hwn. Rhoddodd y Pennaeth Caffael nodyn ffeil heb ei ddyddio i mi, gan ddweud mai'r Swyddog Caffael oedd yr awdur. Mae'r nodyn ffeil yn datgan: 'Dyfarnwyd y contract ar 12 Chwefror 2016, ond wedi cael gwybod bod RKC Associates wedi dechrau'n gynt ar 4 Ionawr 2016, a nodir hyn ar y [Cais am Gymeradwyaeth] a'r Llythyr Derby'n er mwyn sicrhau bod gwerth llawn y contract wedi'i ymgorffori'.
- 128 Dylai unrhyw arbenigwr caffael fod wedi bod yn ymwybodol bod cyfarwyddyd i ôl-ddyddio dyfarniad contract yn hynod anarferol. Dylai'r Swyddog Caffael fod wedi bod yn bryderus iawn o gael gwybod bod cyflenwr eisoes yn cyflenwi'r contract cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Mae'n destun syndod hefyd na all y Swyddog Caffael gofio pwy a ddywedodd wrthi am ôl-ddyddio cyfnod y contract, ac nad oedd hynny wedi'i gofnodi yn ei nodyn ffeil.
- 129 Dylai'r Swyddog Caffael fod wedi gwrthod gwneud hynny a chodi'r mater gyda'r Pennaeth Caffael. Mae'r Pennaeth Caffael wedi dweud wrthyf na wnaeth y Swyddog Caffael dynnu ei sylw at y mater ar y pryd. Serch hynny, llofnododd y Pennaeth Caffael y cais am gymeradwyaeth a'r llythyr dyfarnu contract, yr oedd y naill a'r llall wedi'u hôl-ddyddio. Mae'r Pennaeth Caffael hefyd wedi dweud wrthyf nad oedd yn ymwybodol o gwbl o'r llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 y cyfeirir ato ym [mharagraff 116](#).
- 130 Wrth ddyfarnu contractau i gyflenwyr allanol, mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gweithredu yn onest a thryloyw, ac y gallant ddangos bod darpar gyflenwyr wedi'u trin yn deg. Bydd methiant i wneud hynny yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn sefydliadau y maent yn ymddiried ynddynt i gyflenwi gwasanaethau allweddol ar eu rhan.

131 Mae'r Bwrdd lechyd wedi mabwysiadu egwyddorion i lywio ei ddull o gaffael yn gyhoeddus, ac mae'r rhain wedi'u nodi yng SFIs y Bwrdd lechyd. Dyma'r egwyddorion :

- 'Tryloywder: dylai cyrff cyhoeddus sicrhau didwylledd ac eglurder ynghylch prosesau caffael, a'r modd y'u gweithreidir;
- Dim gwahaniaethu: ni chaiff cyrff cyhoeddus wahaniaethu rhwng cyflenwyr na chynnyrch ar sail eu tarddiad;
- Triniaeth deg: dylid trin cyflenwyr yn deg a heb wahaniaethu, gan gynnwys cyfle cyfartal a mynediad at wybodaeth yn enwedig;
- Cyfreithlondeb: mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â gofynion y Gymuned Ewropeaidd a gofynion eraill cyfreithiol;
- Uniondeb: ni ddylid cael unrhyw achos o lygredd neu gydgyllwynio â chyflenwyr nac eraill;
- Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd: dylai cyrff cyhoeddus gyflawni nodau llywodraethu masnachol, rheoleiddiol ac economaidd-gymdeithasol mewn modd cytbwys sydd yn briodol i'r gofyniad caffael; a
- Effeithlonrwydd: dylid cynnal prosesau caffael mewn modd sydd mor gost-effeithiol ag sy'n bosibl a sicrhau gwerth am arian.'

132 Yn fy marn i, ceir goblygiadau difrifol iawn yn gysylltiedig â phenderfyniad i frwr ymlaen â phroses gaffael yn gysylltiedig â contract sydd yn ymddangos fel pe bai eisoes wedi'i ddyfarnu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- methiant y Bwrdd lechyd i gydymffurfio â'i egwyddorion caffael ei hun.
- bod gweithredoedd y swyddog(ion) cyfrifol yn debygol o danseilio ymddiriedaeth a hyder darpar gyflenwyr yn hygredded prosesau caffael y Bwrdd lechyd i raddau sylweddol.
- bod darpar gyflenwyr wedi mynd ati'n ddiffuant i gyflwyno tendrau ar gyfer y contract gan fynd i gostau er mwyn gwneud hynny. Nid oeddent yn ymwybodol o'r ffaith bod ennill y contract yn hollol amhosib gan ei fod, yn fy marn i, eisoes wedi'i ddyfarnu i gyflenwr arall. Mae'r Bwrdd lechyd felly wedi'i adael ei hun yn agored i hawliadau cyfreithiol posibl gan y tendrwr hyn.
- mae adnoddau cyhoeddus gwerthfawr wedi cael eu defnyddio i gynnal proses, yr oedd ei chanlyniad wedi'i benderfynu eisoes.

Amharwyd ar gadernid a hygrededd y broses gaffael a hysbysebwyd mewn sawl ffordd allweddol, ac fe gymerodd Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd Iechyd ran yn y broses er ei bod yn gwybod bod RKC eisoes wedi dechrau gwaith o dan y contract cyn cychwyn y broses gaffael

- 133 Fel y nodwyd ym mharagraffau 110 i 132, mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod canlyniad yr ymarfer tendro a arweiniodd at ddyfarnu contract tri mis i RKC Associates ym mis Chwefror 2016 wedi'i benderfynu ymlaen llaw. Yn ei hanfod, ymarfer ffug oedd yr ymarfer tendro, gan fod RKC Associates eisoes wedi cael ei ymrwymo ar 14 Rhagfyr 2015. Mae hyn yn codi cwestiynau difrifol ynghylch hygrededd y broses gaffael.
- 134 Cefais wybod bod y Pennaeth Caffael a'r Swyddog Caffael wedi cynnal gwerthusiad cychwynnol o'r chwe thendr a gafwyd erbyn y dyddiad cau, sef 6 Ionawr 2016. Gwnaed hynny wrth ddesg heb gynnwys unrhyw swyddogion eraill o'r Bwrdd Iechyd. Wrth werthuso'r tendrau, byddwn wedi disgwyl mewnbyn technegol gan arbenigwr AD â phrofiad AD proffesiynol sylweddol, gan mai pwrpas y contract oedd darparu cefnogaeth AD lefel uchel i'r Bwrdd Iechyd. Yn ôl Paragraff 10.2 yn SFIs y Bwrdd Iechyd: 'bydd staff â chymwysterau a phrofiad addas, a chanddynt yr wybodaeth a'r sgiliau priodol i sicrhau bod tendrau'n cael eu hasesu mewn modd trwyadl a theg, yn gwerthuso tendrau'. Fodd bynnag, cofnodir mewn nodyn ar ffeil a gadwyd gan y Swyddog Caffael fod y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, wedi gofyn a allai'r Adran Gaffael gynnal y gwerthusiad, 'gan fod yr Adran Gaffael yn ddi-duedd'. Mae'r nodyn hwn yn dangos bod Ms Casey yn cydnabod nad oedd hithau'n ddi-duedd yng nghyswllt yr ymarfer tendro hwn.
- 135 Ar ôl cwblhau'r ymarfer gwerthuso cychwynnol, lluniodd y Swyddog Caffael becyn o ddogfennau a oedd yn cynnwys drafft o adroddiad gwerthuso caffael dyddiedig 7 Ionawr 2016, drafft o sgorau gwerthuso, drafft o gais am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract, yn ogystal â chopïau o'r tendrau a gafwyd. Mae'r Pennaeth Caffael wedi cadarnhau y darparwyd y becyn o ddogfennau i Ms Casey, ar gais Ms Casey, i'w derbyn neu eu diwygio. Yn ôl y Swyddog Caffael aeth â'r becyn o ddogfennau ei hun i adeilad y Bwrdd Iechyd lle'r oedd Ms Casey yn gweithio, gyda nodyn arno i'w sylw. Nid yw'r Adran Gaffael wedi cadw copi o'r becyn o ddogfennau a anfonwyd at Ms Casey. Fodd bynnag, llwyddodd yr Adran Gaffael i gael hyd i gopiâu o bob un o'r dogfennau a oedd wedi'u cynnwys yn y becyn gwerthuso, ar wahân i ddrafft y cais am gymeradwyaeth.

- 136 Er mai RKC Associates oedd y tendrwr â'r pris uchaf, cofnodir yn nrafft yr adroddiad gwerthuso caffael, dyddiedig 7 Ionawr 2016, fod y tendr a gyflwynwyd gan y cwmni wedi ennill marciau llawn yn yr holl feini prawf tendro eraill (galluogrwydd ac aliniad mewnol ac allanol). O ganlyniad i hynny, nodwyd mai RKC Associates oedd y tendrwr â'r cyfanswm sgôr uchaf, ac argymhellai'r adroddiad y dylid dyfarnu'r contract i RKC Associates. Roedd drafft yr adroddiad gwerthuso caffael yn cynnwys manau gwag i Ms Casey a Chyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd lofnodi fel swyddogion awdurdodi. Mae Ms Casey wedi dweud wrthyf nad yw'n cofio derbyn y pecyn gwerthuso tendrau.
- 137 Yn ôl y Swyddog Caffael, yr oedd wedi gofyn i'r adroddiad gwerthuso caffael gael ei awdurdodi a'i ddychwelyd ar sawl achlysur. Ar 27 Ionawr 2016, lluniodd fersiwn o'r adroddiad gwerthuso caffael a oedd yn cynnwys mân ddiwygiadau, a'i anfon drwy e-bost i Bencadlys y Bwrdd Iechyd ar 28 Ionawr 2016. Cafodd yr adroddiad ei lofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, ar 1 Chwefror 2016 fel y swyddog awdurdodi. Mae'r sgorau gwerthuso tendrau yn fersiwn derfynol yr adroddiad gwerthuso caffael yn union yr un peth â'r rhai yn fersiwn gyntaf yr adroddiad, dyddiedig 7 Ionawr 2016. Roedd y sgorau gwerthuso felly heb newid o'r gwerthusiad cychwynnol a gynhaliwyd o fewn yr Adran Gaffael. Ar 28 Ionawr 2016, anfonodd y Swyddog Caffael yr adroddiad gwerthuso caffael terfynol a'r cais am gymeradwyaeth at gynorthwy-ydd gweithredol Ms Casey. Yn y cais am gymeradwyaeth, nodir mai £45,000 yw gwerth y contract, heb gynnwys TAW.
- 138 Yn fy marn i, cafodd hygrededd y broses dendro ei danseilio oherwydd yr amserlen ar gyfer tendro, ymglymiad y Prif Swyddog Gweithredu, y weithred o ôl-ddyddio'r contract a'r fantais gynhenid i RKC Associates yn y broses. Rhoddir ystyriaeth bellach i bob un o'r agweddau hyn isod.

Roedd potensial i'r amserlen ar gyfer cyflwyno tendrau gyfyngu ar nifer y tendrwr

- 139 Cyhoeddwyd yr hysbyseb ar gyfer y contract ddydd Mercher 23 Rhagfyr 2015. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau oedd hanner dydd, ddydd Mercher 6 Ionawr 2016. Dim ond chwe diwrnod gwaith llawn yr oedd hyn yn ei roi i ddarpar dendrwr, gan gynnwys noswyl y Nadolig a Nos Calan, i baratoi a chyflwyno tendrau. Yn fy marn i, roedd potensial i'r amserlen ar gyfer cyflwyno tendrau gyfyngu ar nifer y tendrau fyddai'n dod i law. Yn ôl y Pennaeth Caffael, dywedodd Ms Casey wrthi am gadw at yr amserlen hon gan fod angen y gwasanaeth ar frys.

- 140 Mae'r Pennaeth Caffael wedi rhoi nodyn ffeil dyddiedig 22 Rhagfyr 2015 i mi o gynhadledd dros y ffôn a gynhaliodd â Ms Casey a Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol y Bwrdd Iechyd ynghylch y broses dendro. Cofnodir bod Ms Casey 'wedi cadarnhau bod hyn yn fater brys, ac a fyddai modd cyhoeddi'r tendr heddiw.' Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw frys ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau basio. Dros bedair wythnos yn ddiweddarach y dyfarnodd y Bwrdd Iechyd y contract ymgynghori tri mis i RKC Associates (gydag ond saith wythnos yn weddill cyn i'r cyfnod contract o dri mis a nodwyd yn llythyr dyfarnu'r contract ddod i ben).
- 141 Dywedodd y Pennaeth Caffael wrth fy archwilwyr fod staff Caffael wedi cysylltu â phencadlys gweithredol y Bwrdd Iechyd droeon cyn 28 Ionawr 2016 yn gofyn am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract, ond cafwyd oedi i'r broses gymeradwyo. Ni lofnododd y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, yr adroddiad gwerthuso caffael hyd 1 Chwefror 2016. Dywed wrthym nad yw'n gwybod beth oedd achos yr oedi hwn. Rwyf o'r farn nad oedd unrhyw frys i ddyfarnu'r contract yn ffurfiol gan fod y cyflenwr a argymhellwyd eisoes wedi'i ymrwymo i gyflenwi'r gwaith yn y contract ar 14 Rhagfyr 2015.

Cymerodd Prif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd ran yn y broses gaffael ar adeg pan nad oedd yn ddi-duedd, gan ei bod yn gwybod bod RKC Associates eisoes wedi'u hymrwymo cyn cychwyn y broses gaffael.

- 142 Staff yr Adran Gaffael a gyflawnodd waith sgorio cychwynol y tendrau, a hynny ar gais y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey. Fodd bynnag, yn ôl y Pennaeth Caffael, gofynnodd Ms Casey i'r sgoriau gwerthuso drafft gael eu hanfon ati. Dywedodd y Pennaeth Caffael mai pwrpas anfon y sgoriau drafft at Ms Casey oedd galluogi Ms Casey naill ai i gymeradwyo'r sgoriau drafft neu ddiwygio'r sgoriau i gyd-fynd â'i barn. Ystyriai'r Pennaeth Caffael fod hyn yn rheolaeth bwysig, gan nad oedd y staff Caffael a gynhaliodd y gwerthusiadau yn arbenigo yn AD, ac roedd gan Ms Casey gefndir AD.
- 143 Fel y bu hi, ni ofynnodd Ms Casey am gael newid y sgoriau a llofnododd yr adroddiad gwerthuso caffael terfynol, a argymhellai y dylid dyfarnu'r contract i RKC Associates. Fodd bynnag, ni ddylai Ms Casey fod wedi bod ag unrhyw ran yn y broses dendro gan ei bod eisoes wedi cydnabod a hysbysu'r Adran Gaffael na allai weithredu'n ddi-duedd gan fod Ms Chana wedi bod yn adrodd wrthi yn ystod ei hymrwymyiadau ymgynghori blaenorol â'r Bwrdd Iechyd.
- 144 Yn bwysicach na hyn, ystyriaf nad oedd Ms Casey yn gallu gweithredu'n gwrthrychol ac yn ddi-duedd ynghylch y broses gaffael oherwydd, fel y nodir ym [mharagraffau 110-122](#), roedd Ms Casey yn ymwybodol bod Ms Chana eisoes wedi'i hymrwymo i gyflenwi'r contract yn y tendr. Ni ddylai Ms Casey fod wedi bod ag unrhyw ran yn y weithred o gychwyn proses dendro, nac yn y gwaith o werthuso'r tendrau. Ystyriaf fod Ms Casey yn destun achos gwirioneddol o wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r mater hwn.

- 145 Mae Ms Casey yn dadlau nad oedd yn rhan o'r broses dendro, ac yn datgan 'nad ysgwyddodd gyfrifoldeb dros y broses dendro gystadleuol, ac na ofynnwyd iddi wneud hynny.' Dywed Ms Casey hefyd ei bod ar wyliau dramor o 18 Rhagfyr 2015 hyd 30 Rhagfyr 2015, sef y cyfnod pan roddwyd y cyfle i ennill y contract ar dendr, ac mai'r unig gof sydd ganddi o'r broses gwerthuso tendrau yw gofyn i'r Adran Gaffael gynnal y broses werthuso.
- 146 Fodd bynnag, rwyf o'r farn fod adroddiad Ms Casey yn anghyson â dogfennau o'r cyfnod ac adroddiadau swyddogion eraill o'r Bwrdd Iechyd. Mae pob un o'r adroddiadau hynny'n cefnogi'n gryf y safbwynt bod Ms Casey wedi ymwneud yn uniongyrchol â chychwyn y broses gaffael, ac wedi cymryd rhan yn y broses o werthuso tendrau. Mae fy nghasgliad yn seiliedig ar y canlynol:
- fel y nodwyd ym **mharagraff 140**, cefais nodyn ffeil dyddiedig 22 Rhagfyr 2015 oddi wrth y Pennaeth Caffael ynghylch cynhadledd dros y ffôn a gynhaliwyd rhwng y Pennaeth Caffael, Ms Casey, a Chyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd. Yn ôl y nodyn, roedd Ms Casey wedi hysbysu'r Adran Gaffael y dylid hysbysebu manyleb y contract ac wedi gofyn am gael symud y broses gaffael yn ei blaen ar fyrder. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol a Ms Casey wedi cadarnhau bod y gynhadledd hon dros y ffôn wedi cael ei chynnal.
 - mae drafft yr Adroddiad Gwerthuso Caffael, dyddiedig 7 Ionawr 2016, yn cynnwys lle i lofnod Ms Casey ar ddiwedd yr adroddiad. Mae hyn yn dangos bod yr Adran Gaffael yn ystyried mai Ms Casey oedd y swyddog comisiynu/a gychwynnodd y broses.
 - yn ôl y Pennaeth Caffael, anfonwyd drafft y pecyn gwerthuso tendrau at Ms Casey, yn unol â'i chais, er mwyn cadarnhau neu ddiwygio sgoriau gwerthuso'r tendrau, ac mewn nodyn ffeil a gadwyd gan yr Adran Gaffael, dyddiedig 22 Rhagfyr 2015, cofnodir bod Ms Casey 'wedi gofyn i'r Adran Gaffael gynnal y gwerthusiad ac anfon drafft ohono i'w adolygu gan [Ms Casey].'
 - cafodd fersiwn derfynol o'r adroddiad gwerthuso caffael, dyddiedig 27 Ionawr 2016, ei lofnodi gan Ms Casey ar 1 Chwefror 2016, yn argymhell y dylid dyfarnu'r contract i RKC Associates. Llofnododd Ms Casey y ddogfen hon fel swyddog o'r Bwrdd Iechyd a oedd yn gyfrifol am y contract hwn.
 - mae'r Pennaeth Caffael wedi cyflwyno ffurflen datgan buddiant i mi a lofnodwyd gan Ms Casey mewn perthynas â'r broses gaffael. Yr unig swyddogion y mae'r Adran Gaffael yn gofyn iddynt lenwi ffurflen datgan buddiant yw'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r broses gwerthuso tendrau. Llanwodd Ms Casey y ffurflen i gofnodi nad oedd ganddi unrhyw fuddiannau i'w datgan.

Dyfarnwyd y contract ar 12 Chwefror 2016, ond gwnaed penderfyniad amhriodol i ôl-ddyddio dyddiad dechrau'r contract i 4 Ionawr 2016

147 Fel y nodir ym mharagraffau 123 i 132, dyfarnwyd y contract i RKC Associates ar 12 Chwefror 2016, ond ôl-ddyddiwyd dogfennau'r contract gan y Swyddog Caffael i ddangos 4 Ionawr 2016 fel dyddiad dechrau contract, ddeuddydd cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Dywedodd y Swyddog caffael ei bod wedi cael cyfarwyddyd i ôl-ddyddio dogfennau'r contract gan fod yr ymgynghorydd eisoes wedi dechrau gwaith ar y safle cyn y dyddiad hwnnw. Ni all y Swyddog Caffael gofio pwy roddodd y cyfarwyddyd, na phryd y'i cafodd. Nid wyf felly wedi gallu canfod pwy roddodd y cyfarwyddyd hwn. Serch hynny, mae'r ffaith bod y Swyddog Caffael wedi parhau i symud y broses gaffael yn ei blaen hyd at ddyfarnu'r contract ar ôl iddi ddod yn ymwybodol o'r ffaith bod yr ymgynghorydd eisoes yn cyflenwi'r contract, yn codi cwestiynau ynghylch gallu'r Swyddog Caffael i fod yn wrthrychol ynghylch y broses gaffael. Ar ben hynny, cafodd hygredded y broses gaffael ei thanseilio'n llwyr yn fy marn i.

Roedd gan RKC Associates fantais sylweddol yn y broses dendro, gan fod manyleb y contract yn deillio'n uniongyrchol o gontractau blaenorol y dyfarnodd y Bwrdd lechyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, heb gystadleuaeth, a hynny'n groes i SFIs y Bwrdd lechyd

148 Yn fy marn i, roedd gan RKC Associates fantais sylweddol yn y broses dendro. Dau gyflawniad penodol yn y contract a hysbysebwyd ar 23 Rhagfyr 2015 oedd gweithredu'r cynlluniau:

- i leihau absenoldeb oherwydd salwch; ac
- i wella'r broses recriwtio.

149 Roedd y cynlluniau y cyfeiriwyd atynt yn gynlluniau y bu'n ofynnol i RKC Associates eu cynhyrchu a'u gweithredu erbyn mis Mai 2015 o dan y contract y dyfarnodd y Bwrdd lechyd iddo ym mis Tachwedd 2014. Roedd RKC Associates eisoes wedi derbyn contract i weithredu'r cynlluniau hyn yn y contract y dyfarnodd y Bwrdd lechyd iddo ym mis Mehefin 2015. Roedd y contractau a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 wedi'i ddyfarnu heb gystadleuaeth, ac yn groes i SFIs y Bwrdd lechyd.

Ni chadwodd yr Adran Gaffael ddogfennau digonol ynghylch y broses gaffael

- 150 Wrth gyflawni ymarfer caffael, mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau caffael gadw cofnod da o'r penderfyniadau a gymerwyd, pwy a wnaeth y penderfyniadau hynny, a'r rhesymau drostynt. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn i'r Bwrdd Iechyd allu dangos eu bod yn gwneud penderfyniadau mewn modd tryloyw a gwrthrychol.
- 151 Yn fy marn i, roedd y dogfennau a gynhaliwyd ac/neu a gadwyd gan yr Adran Gaffael yng nghyswllt y contract ymgynghori AD a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Chwefror 2016 yn ddiffygiol am sawl rheswm allweddol:
- er bod yr Adran Gaffael yn cadw matrices a ddangosai sgoriau y tendrwyd yn erbyn y meini prawf gwerthuso, nid yw'r naratif a gofnodwyd er mwyn asesu agweddau ansoddol y tendrau (80% o gyfanswm y marciau) yn rhoi digon o wybodaeth i gyfiawnhau'r sgoriau a ddyrannwyd yn fy marn i. Mae'r ffaith nad oedd gan y staff caffael fu'n cyfrifo sgoriau cychwynnol y tendrau unrhyw wybodaeth arbenigol am waith ymgynghori AD yn ategu'r pryder hwn. Mae'r Pennaeth Caffael wedi dweud wrthyf fod Ms Casey, sydd yn 'weithiwr proffesiynol AD' wedi awdurdodi'r sgoriau. Er i Ms Casey lofnodi'r adroddiad gwerthuso caffael, ni chefais unrhyw dystiolaeth i ddangos bod Ms Casey wedi cynnal asesiad proffesiynol, yn dangos arbenigedd AD, o'r sgoriau a ddyfarnwyd gan yr Adran Gaffael.
 - fel y nodwyd ym **mharagraff 135**, mae'r Pennaeth Caffael yn mynnu bod y Prif Swyddog Gweithredu wedi gofyn i ddrafft o'r sgoriau gwerthuso tendrau gael eu hanfon ati i'w derbyn neu eu diwygio. Yn ôl y Pennaeth Caffael, ni chadwodd yr Adran Gaffael gopi caled o ddrafft y pecyn gwerthuso tendrau a anfonwyd at Ms Casey, ac gollwyd y fersiynau electronig o ddrafft yr adroddiad gwerthuso caffael a'r ddogfen cais am gymeradwyaeth pan arbedwyd fersiynau terfynol y dogfennau drostynt. Rai misoedd ar ôl i'r archwilwyr a weithredai ar fy rhan ofyn am y dogfennau allweddol hyn, llwyddodd yr Adran Gaffael i gael hyd i gopi caled o ddrafft yr adroddiad gwerthuso caffael.
 - fel y nodwyd ym **mharagraff 127**, mae'r Swyddog Caffael yn mynnu ei bod wedi derbyn cyfarwyddyd dros y ffôn y dylid bod nodi, yn adroddiad gwerthuso caffael dyddiedig 27 Ionawr 2016, a'r llythyr dyfarnu contract a anfonwyd at RKC Associates ar 12 Chwefror 2016, mai cyfnod y contract oedd 4 Ionawr 2016 hyd 31 Mawrth 2016. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau oedd 6 Ionawr 2016. Er bod yr Adran Gaffael yn cadw nodyn ar ffeil i gofnodi bod cyfarwyddyd wedi'i roi, nid yw nodyn y ffeil wedi'i ddyddio, ac nid yw ychwaith yn cofnodi'r sawl a roddodd y cyfarwyddyd.

- yn y cais am gymeradwyaeth yr anfonodd at gynorthwy-ydd gweithredol Ms Casey ar 29 Ionawr 2016, nodwyd mai cyfanswm gwerth y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates oedd £45,000 + TAW. Nid oes gan yr Adran Gaffael unrhyw gofnod ysgrifenedig i gefnogi gwerth y contract. Ar ben hynny, mae'r gwerth hwn yn anghyson â'r tendr a gyflwynwyd gan RKC Associates, a nodai y byddai'r gwaith yn costio £52,000 + treuliau + TAW (yn seiliedig ar bedwar diwrnod yr wythnos am 13 wythnos ar gyfradd o £1,000 y dydd + TAW). Dywedodd y Pennaeth Caffael wrthyf mai'r rheswm dros y gwahaniaeth oedd bod yr Adran Gaffael wedi dod yn ymwybodol y byddai Ms Chana yn cymryd gwyliau dros gyfnod y contract. Dywedodd y Pennaeth Caffael wrthyf fod swyddog o'r Bwrdd lechyd wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Caffael am hynny, ond na chadwodd y swyddog nodyn ar ffeil o'r sgwrs, ac na all y swyddog gofio pwy fu'n siarad â hi.
- mae'r Pennaeth Caffael wedi datgan mai Ms Casey a gyfarwyddodd fanyleb y contract mewn cynhadledd dros y ffôn ar 22 Rhagfyr 2015, ac mae hi wedi darparu nodyn ffeil i mi o'r drafodaeth a gynhaliwyd. Serch hynny, dylai'r Adran Gaffael fod wedi gofyn am gadarnhad mewn ysgrifen o'r fanyleb gan y sawl a oedd yn awdurdodi cychwyn proses gaffael, cyn hysbysebu'r contract.

152 Yn ystod fy archwiliad, roeddwn wedi siomi â'r ymatebion a gafwyd oddi wrth yr Adran Gaffael i'm ceisiadau am wybodaeth a dogfennau yr oedd eu hangen ar gyfer fy archwiliad. Nid yw'r Adran Gaffael wedi llwyddo i ganfod y dogfennau y gofynnwyd amdanynt, y mae wedi dweud nad oedd dogfennau ar gael ond i gael hyd iddynt yn ddiweddarach, ac wedi rhoi atebion anghyson i gwestiynau archwilio. Yn fyr, ni chadwodd yr Adran Gaffael drywydd archwilio digonol yn gysylltiedig â'r caffaeliad dan sylw. Nodais yn flaenorol fy mhryderon ynghylch safon y dogfennau a gadwir gan yr Adran Gaffael wrth adrodd fy archwiliad o gyfrifon y Bwrdd lechyd ar gyfer 2012/13, 2013/14 a 2014/15. Mae'r Pennaeth Caffael wedi cydnabod y dylai safon y dogfennau yn gysylltiedig â chaffael fod wedi bod yn well, ac o edrych yn ôl, y gellid bod wedi gwneud sawl peth yn wahanol yn ystod y broses gaffael.

153 Mae'r Pennaeth Caffael wedi dweud wrth fy archwilwyr fod yr Adran Gaffael wedi cyflwyno sawl mesur i wella prosesau a dogfennau caffael mewnol, ers cychwyn yr archwiliad hwn, gan gynnwys:

- darparu hyfforddiant i'r holl staff caffael gan roi pwyslais arbennig ar uwchgyfeirio a herio;
- cadarnhau a gwella prosesau cymeradwyo contractau, gan gynnwys gofyniad i'r Prif Weithredwr gymeradwyo pob penodiad ymgynghori/dros dro;

Tudalen y pecyn 278

- cynnal archwiliadau chwarterol lleol o gaffaeliadau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, a chaffaeliadau ar lefel is na hynny, (yn ychwanegol at archwiliadau presennol);
- diwygio dogfennau caffael er mwyn eglurhau hierarchaethau cymeradwyo caffael; ac
- mae'r Adran Gaffael wedi gwneud cais am achrediad rheoli ansawdd ISO 9001 yn gysylltiedig â phrosesau caffael y Bwrdd lechyd, a bwriedir cynnal asesiad achredu ym mis Medi 2017.

Oedodd y Bwrdd lechyd cyn gofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol newydd, gan achosi i'r Bwrdd lechyd orfod gwario heb fod angen ar gontract ymgynghori

- 154 Ym mis Medi 2015, cychwynnodd y Bwrdd lechyd broses i benodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol newydd ar wedi i ddeilydd blaenorol y swydd ymddeol. Ar 30 Medi 2015, hysbysebodd y Bwrdd lechyd swydd gan nodi'r 6 Tachwedd fel dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Mae Ms Chana, perchennog RKC Associates yn dweud bod y Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Cairns, wedi cysylltu â hi ym mis Rhagfyr 2015 a gofyn iddi ystyried ymgeisio am y swydd (er bod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi mynd heibio). Dywedodd Ms Chana ei bod wedi hysbysu'r Prif Weithredwr ar y pryd, ar ôl gwyliau Nadolig 2015, ei bod hi'n barod i ymgeisio am y rôl 'os oedd modd bodloni'r gofynion o ran cyflog ac oriau gwaith hyblyg.' Rwyf wedi cyflwyno sylwadau ar y broses recriwtio a ddilynwyd gan y Bwrdd lechyd ym [mharagraffau 167 i 187](#).
- 155 Ar 13 Ionawr 2016, cafodd Ms Chana ei chyfweld gan banel recriwtio ar gyfer swydd barhaol Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Mae Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru (a oedd ar y panel recriwtio yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth Proffesiwn y Gweithlu a Datblygu Trefniadol yn GIG Cymru) wedi dweud wrth fy archwilwyr nad oedd yn fodlon bod Ms Chana wedi arddangos yn llawn yr holl gymwyseddau yr oedd eu hangen i'w phenodi'n barhaol, felly mynegodd yn glir na allai'r Bwrdd lechyd gynnig swydd barhaol i Ms Chana. Dywed ei bod wedi awgrymu wrth aelodau eraill y panel recriwtio y gallai'r Bwrdd lechyd gynnig penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd i Ms Chana, yn amodol ar ail-hysbysebu'r swydd a chynnal cystadleuaeth agored ar ei chyfer cyn i'r flwyddyn honno ddod i ben. Ar ôl trafod hyn, cytunodd y panel recriwtio i gynnig y swydd i Ms Chana fel yr awgrymwyd.

- 156 Ar ryw bryd rhwng cyfarfod y panel recriwtio ar 13 Ionawr 2016 a chyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd ar 28 Ionawr 2016, cynigiwyd swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn y Bwrdd Iechyd i Ms Chana ar lafar. Nid wyf wedi gallu cadarnhau dyddiad na thelerau'r cynnig hwn.
- 157 Ar 28 Ionawr 2016, hysbysodd y Prif Weithredwr, yr Athro Cairns, gyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd ar lafar fod Ms Chana 'wedi cael ei phenodi i'r swydd Weithredol ar ôl cynnal cystadleuaeth agored.'
- 158 Ar yr un diwrnod, sef 28 Ionawr 2016, ysgrifennodd yr Athro Cairns at Brif Weithredwr GIG Cymru ynghylch y penodiad, gan ddweud bod Ms Chana 'wedi perfformio'n wych yn y cyfweiliad, ac mae'n bleser cael cynnig y rôl iddi.' a bod Ms Chana 'eisiau sicrhau cyflog o £150k. Uchafswm yr ystod arferol ar gyfer y rôl honno yw £134k. Rwyf felly'n gofyn am eich cefnogaeth i alluogi'r Bwrdd i gynnig y swydd hon, yn amodol ar yr holl gymwyseddau arferol, ar gyfradd o £150k'. Gan fod y cyflog arfaethedig yn uwch na'r ystod cyflog a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, sef £125,000 hyd £134,000 ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol y GIG, roedd angen i'r Bwrdd Iechyd gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i benodi ar y lefel honno o gyflog.
- 159 Fodd bynnag, ni chyfeiriai'r llythyr a anfonwyd i Lywodraeth Cymru at benodiad cyfnod penodol, a chan na thybiwyd bod Ms Chana yn bodloni'r safon ar gyfer penodiad parhaol yn y broses asesu, nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu cymeradwyo penodiad Ms Chana i swydd barhaol, waeth beth fo'r cyflog. Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru wrth Brif Weithredwr GIG Cymru fod y llythyr yn anghyson â chytundeb y panel recriwtio, a chyflëwyd wrth yr Athro Cairns na fyddai Llywodraeth Cymru ond yn barod i gefnogi cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cyflog dan sylw pe bai'r cais hwnnw ar gyfer penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd, yn unol â chanlyniad cytunedig y panel.
- 160 Ar 2 Chwefror 2016, cyflwynodd yr Athro Cairns adroddiad ysgrifenedig i Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd yn datgan bod Ms Chana 'bellach wedi cael cynnig y swydd ar lafar ar gontract cychwynnol o 12 mis' a gofynnodd am gymeradwyaeth y Pwyllgor i gynnig cyflog o £150,000 i Ms Chana yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.
- 161 Cadarnhaodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth y trefniadau cyflog fyddai'n cael eu cynnig i Ms Chana, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (ar sail penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd).

Tudalen y pecyn 280

- 162 Ar 5 Ionawr 2016, roedd Ms Chana wedi cyflwyno tendr i gyflawni gwaith ymgynghori AD o fewn y Bwrdd Iechyd. Ni ddyfarnwyd y contract hwn hyd 12 Chwefror 2016. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth wedi cymeradwyo penodiad Ms Chana fel Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ar 2 Chwefror 2016 yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, ac fe'i hysbyswyd am benodiad Ms Chana i'r swydd ar 28 Ionawr 2016. Dylai penodiad Ms Chana i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol wedi bod yn ffactor o bwys wrth benderfynu a ddylid dyfarnu contract ymgynghori pellach i RKC Associates. Roedd gan y Bwrdd Iechyd y dewis i ganslo neu oedi'r broses gaffael er mwyn galluogi Ms Chana i dderbyn swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Serch hynny, dyfarnwyd contract ymgynghori pellach 3 mis o hyd i Ms Chana.
- 163 Fel y nodwyd ym [mharagraff 158](#), ysgrifennodd y Athro Cairns at Lywodraeth Cymru ar 28 Ionawr 2016 yn gofyn am gymeradwyaeth i benodi Ms Chana fel Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd ar gyflog o £150,000. Fodd bynnag, ar ôl i Gyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru weld copi o'r llythyr, dywedodd wrth yr Athro Cairns na ellid ystyried cais i gymeradwyo'r cyflog ar gyfer swydd barhaol, ac na fyddai ond yn barod i gefnogi cais ar gyfer penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd, fel y cytunwyd gan y panel recriwtio. Serch hynny, ni ysgrifennodd yr Athro Cairns at Brif Weithredwr GIG Cymru yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer penodiad cyfnod penodol gyda chyflog blynyddol o £150,000 hyd 15 Ebrill 2016.
- 164 Yn ôl Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru ei bod yn y cyfamser wedi gofyn am y newyddion diweddaraf oddi wrth y Bwrdd Iechyd ynghylch y penodiad arfaethedig, ond ei bod yn ansicr ynghylch pam na chyflwynodd y Bwrdd Iechyd gais am gymeradwyaeth i benodi ar sail cyfnod penodol ar gyflog o £150,000 hyd 15 Ebrill 2016. Atebodd Prif Weithredwr GIG Cymru lythyr yr Athro Cairns, dyddiedig 15 Ebrill 2016, ar 21 Ebrill 2016 er mwyn cymeradwyo cyflog o £150,000.
- 165 Ysgrifennodd yr Athro Cairns at Ms Chana ar 4 Ebrill 2016 er mwyn cynnig swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol iddi yn ffurfiol, a dechreuodd Ms Chana fel cyflogai gyda'r Bwrdd Iechyd ar 6 Ebrill 2016. Roedd hyn cyn i'r Athro Cairns ysgrifennu at Brif Weithredwr GIG Cymru yn gofyn am gymeradwyaeth ar 15 Ebrill 2016, a chyn iddo dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer y cyflog oddi wrth Brif Weithredwr GIG Cymru ar 21 Ebrill 2016.

166 Nid yw'n glir pam na ysgrifennodd yr Athro Cairns at Lywodraeth Cymru hyd 15 Ebrill 2016 i ofyn am gymeradwyaeth am benodiad cyfnod penodol ar gyflog o £150,000. Dywedodd y cyn Brif Weithredwr wrthyf nad oedd yn gallu cofio'r rheswm dros yr oedi, ac mai mater gweinyddol ydoedd yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, o ystyried y materion eraill a amlinellir yn yr adroddiad hwn, ni ellir diystyru'r posibilrwydd mai pwrpas yr oedi oedd galluogi Ms Chana i gyflawni'r contract ymgynghori tri mis, gan achosi gwariant ychwanegol diangen gan y Bwrdd lechyd. Gallai tâl Ms Chana fel cyflogai gyda'r Bwrdd lechyd fod wedi bod yn llai na'r swm a dderbyniodd drwy'r contract ymgynghori (£1,000 + TAW bob dydd).

Roedd y broses a ddilynodd y Bwrdd lechyd a arweiniodd at benodi perchennog RKC Associates i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Ebrill 2017 yn tanseilio hygrededd y Bwrdd yn llwyr. Nid oedd y broses yn ddigon tryloyw ychwaith, ac nid oedd cofnod digonol ohoni

- 167 Fel y nodwyd ym **mharagraff 4**, ar 30 Medi 2015, gadawodd cyn Gyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd lechyd gyflogaeth y Bwrdd lechyd. Cyn hynny, yr oedd wedi bod ar secondiad i sefydliad arall o fewn y GIG. Wedi hynny, dechreuodd y Bwrdd lechyd broses i benodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol newydd drwy ddefnyddio ymgynghorwyr recriwtio i gefnogi'r broses.
- 168 Er gwaethaf ymgyrch hysbysebu genedlaethol, ychydig iawn o ddiddordeb a gafwyd yn y swydd. Cafodd tri ymgeisydd eu cynnwys ar restr fer i'w cyfweld o flaen panel ar 7 Rhagfyr 2015. Ychydig cyn y cyfweiliadau a drefnwyd o flaen y panel, tynnodd dau o'r ymgeiswyr ar y rhestr fer yn ôl o'r broses. O ganlyniad i hynny, cafodd y broses recriwtio ei hoedi hyd fis Ionawr 2016. Dywedodd Ms Chana wrth fy archwilwyr fod y cyn Brif Weithredwr, yr Athro Cairns, wedi gofyn iddi symud y broses recriwtio yn ei blaen, ac y gofynnwyd i Reolwr Llywodraethu Gweithlu y Bwrdd lechyd roi cefnogaeth gydgysylltiol a gweinyddol i Ms Chana.
- 169 Yn ôl Ms Chana, cysylltodd yr Athro Cairns â hi ar ôl i'r ddau ymgeisydd cyntaf ar y rhestr fer dynnu'n ôl ym mis Rhagfyr 2015, a'i hannog i ymgeisio am y swydd. Yn ôl Ms Chana, dywedodd wrth yr Athro Cairns y byddai'n ystyried dros wyliau'r Nadolig/y Flwyddyn Newydd a fyddai'n ymgeisio ai peidio, ac ar ôl y cyfnod hwnnw, dywedodd wrtho y byddai'n ymgeisio yn amodol ar gytuno cyflog a thelerau gwaith hyblyg. Dywed hefyd ei bod ar y pryd wedi dweud wrth yr Athro Cairns na fyddai'n briodol iddi oruchwylio'r broses recriwtio o hynny allan, gan ei bod yn ymgeisydd.

- 170 Ar 4 Ionawr 2016, tynnodd yr unig ymgeisydd oedd ar ôl ar y rhestr aros yn ôl, gan olygu mai Ms Chana oedd yr unig ymgeisydd ar gyfer y swydd. Ar 13 Ionawr 2016, cynhaliwyd cyfweiliad â Ms Chana o flaen panel recriwtio am swydd barhaol fel Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Ymhlith aelodau'r panel yr oedd Prif Weithredwr y Bwrdd lechyd ar y pryd, Cadeirydd y Bwrdd lechyd, aelod annibynnol o Fwrdd y Bwrdd lechyd a Chyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru (yn ei rôl fel Pennaeth Proffesiwn y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn GIG Cymru). Mae Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru yn cofio na chafodd ond wybod ar ddechrau wythnos 11 Ionawr 2016 mai ond un oedd yn ymgeisio am y swydd, ac mai Ms Chana oedd yr ymgeisydd hwnnw, nad wedi ymgeisio am y rôl yn wreiddiol.
- 171 Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru wrth fy archwilywr ei bod wedi dweud wrth aelodau eraill y panel, ar ôl cyfweiliad Ms Chana, nad oedd o'r farn, fel Pennaeth y Proffesiwn, fod Ms Chana wedi arddangos yr ystod lawn o gymwyseddu yr oedd eu hangen ar gyfer y rôl. Nid oedd felly'n barod i gefnogi penodiad Ms Chana i'r swydd yn barhaol.
- 172 Yn ôl Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru, awgrymodd y gallai'r Bwrdd lechyd gynnig penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd i Ms Chana, yn amodol ar ail-hysbysebu'r swydd a chynnal cystadleuaeth agored ar ei chyfer cyn i'r flwyddyn honno ddod i ben. Mae hi'n cofio bod y panel recriwtio wedi trafod y cynnig hwn, a chytuno mai dyna oedd y ffordd ymlaen.
- 173 Fel y nodwyd ym **mharagraff 157**, ar 28 Ionawr 2016, hysbysodd Prif Weithredwr y Bwrdd lechyd ar y pryd, yr Athro Cairns, gyfarfod Bwrdd y Bwrdd lechyd fod Ms Chana 'wedi cael ei phenodi i'r swydd Weithredol ar ôl cynnal cystadleuaeth agored.' Nid yw'r cofnodion yn datgan mai penodiad dros dro ydoedd, nac ychwaith yn cyfeirio at yr angen i sicrhau cymeradwyaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ei gyfer. Fel y nodwyd ym **mharagraff 158**, ysgrifennodd yr Athro Cairns ar yr un diwrnod at y Prif Weithredwr yn gofyn am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i benodi Ms Chana i'r swydd ar gyflog o £150,000. Ni chyfeiriai'r llythyr o gwbl at y ffaith mai cais am benodiad cyfnod penodol oedd dan sylw. Mae Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru wedi dweud wrthyf ei bod, ar ôl derbyn copi o'r llythyr, wedi hysbysu Prif Weithredwr GIG Cymru nad oedd y llythyr yn gyson â chytundeb y panel recriwtio, a chyflëwyd hynny wrth yr Athro Cairns.

- 174 Ar 2 Chwefror 2016, ystyriodd Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd adroddiad ysgrifenedig gan yr Athro Cairns, a nodai fod: 'Ms Chana bellach wedi cael cynnig y swydd ar lafar ar gontract cyfnod penodol cychwynnol o 12 mis'. Nodai hefyd fod y cyflog a gynigiwyd, sef £150,000, yn uwch nag ystod Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogau cymeradwy Llywodraeth Cymru, sef £125,000 hyd £134,000 ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol y GIG, ac y gofynnwyd felly am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i dalu'r gyfradd uwch. Cyfeiriwyd yn ei adroddiad ysgrifenedig at y llythyr dyddiedig 28 Ionawr 2016 odi wrth yr Athro Cairns at Brif Weithredwr GIG Cymru, yn gofyn am gymeradwyaeth i benodi Ms Chana, ac atodwyd copi o'r llythyr hwnnw. Argymhellai'r adroddiad y dylai'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth gadarnhau: 'y trefniadau cyflog i'w cynnig i Ms Chana yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru'.
- 175 Yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2016, derbyniodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ddiweddariad ar lafar gan yr Athro Cairns, lle dywedodd wrth y Pwyllgor fod Ms Chana wedi cael ei 'chylweld yn llwyddiannus' a'i bod yn 'gofyn am gyflog o £150k y flwyddyn.' Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor fod Ms Chana: 'wedi cytuno ar drefniant gweithio hyblyg fyddai'n galluogi Ms Chana i arwain trefniadau gweithio o bell, a bod yn esiampl o hynny. Mae'r swydd wedi'i chynnig ar gontract cyfnod penodol cychwynnol 12 mis o hyd fyddai'n galluogi'r naill barti a'r llall i benderfynu a fyddai'r trefniant gwaith hyblyg hwn yn llwyddo yn y tymor hir, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyflog cychwynnol.'
- 176 Ar 6 Ebrill 2016, cychwynnodd Ms Chana ei swydd yn ffurfiol fel Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd, er na cheisiodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth ffurfiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y penodiad cyfnod penodol, ar gyflog o £150,000, hyd 15 Ebrill 2016.
- 177 Roedd y broses a ddilynodd y Bwrdd Iechyd a arweiniodd at benodi Ms Chana i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Ebrill 2017 yn tanseilio hygredd y Bwrdd yn llwyr. Nid oedd y broses yn ddigon tryloyw ychwaith, ac nid oedd cofnod digonol ohoni, am y rhesymau a roddir isod.

Nid yw'n glir pam bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu mynd rhagddo â phroses i recriwtio i swydd ar lefel y Bwrdd, gydag ond un ymgeisydd nad oedd wedi gwneud cais am y swydd pan gafodd ei hysbysebu'n wreiddiol

178 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi darparu unrhyw ddogfennau sy'n disgrifio sut a pham y penderfynwyd bwrw ymlaen â'r broses recriwtio ar gyfer swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol pan nad oedd ond un yn ymgeisio am y swydd. Roedd y swydd ar lefel y Bwrdd, ac roedd yr unig ymgeisydd a gyfwelwyd heb ymgeisio am y swydd pan gafodd ei hysbysebu'n wreiddiol. Er bod swyddogion y Bwrdd Iechyd wedi dweud bod yr ymateb i'r hysbyseb wreiddiol yn wael, roedd lefel y tâl a gytunwyd â Ms Chana yn sylweddol uwch na'r hyn a hysbysebwyd yn wreiddiol. Yn fy marn i, pe bai'r Bwrdd Iechyd, ar ôl yr ymgyrch recriwtio aflwyddiannus, wedi gofyn am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i gynnig pecyn tâl gwell wrth hysbysebu, gallai mwy o ymgeiswyr wedi dangos diddordeb yn y cyfle. Nid wyf wedi cael esboniad credadwy ynghylch pam na chymerodd y Bwrdd Iechyd y cam hwn.

Nid oedd cofnod da o'r broses recriwtio, ac o ganlyniad i hyn nid yw'n glir pa bryd y trodd y sawl a oedd wedi bod yn goruchwylio'r ymarfer recriwtio yn ymgeisydd

179 Ar 11 Ionawr 2016, ysgrifennodd Ms Chana at Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, yr Athro Cairns, i ymgeisio'n ffurfiol am swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd, gan amgáu ei CV. Nid oedd hyn ond dau ddiwrnod cyn i Ms Chana gael cyfweiliad. Mae'n glir o'r negeseuon e-bost mewnol fod Ms Chana eisoes yn cael ei thrin fel yr unig ymgeisydd cyn 11 Ionawr 2016.

180 Fel y nodwyd ym [mharagraff 170](#), tynnodd yr ymgeisydd olaf a oedd wedi ymgeisio am y swydd yn wreiddiol ei chais yn ôl ar 4 Ionawr 2016. Serch hynny, dengys negeseuon e-bost mewnol fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i fynd rhagddo â'r broses recriwtio yn y diwrnodiau yn syth ar ôl hynny, ac mai Ms Chana oedd yr unig ymgeisydd posibl o 4 Ionawr 2016 ymlaen. Ar 7 Ionawr 2016, ysgrifennodd Rheolwr Llywodraethu Gweithlu'r Bwrdd Iechyd at Ms Chana i'w hysbysu am deitl y cyflwyniad ar gyfer cyfarfod y panel ar 13 Ionawr 2016, a chan nodi bod y Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Cairns, 'wedi gofyn i mi gael copi o'r CV ar gyfer y panel. 'Nid oedd wedi cyflwyno cais am y swydd ar y pryd. Rwyf felly o'r farn fod Ms Chana eisoes yn ymgeisydd cyn iddi ymgeisio'n ffurfiol am y rôl ar 11 Ionawr 2016.

181 Er ei bod hi'n amlwg bod Ms Chana yn ymgeisio a y swydd yn fuan ym mis Ionawr 2016, ni dyw'r cofnodion a gadwir gan y Bwrdd Iechyd yn rhoi darlun clir o'r modd y daeth Ms Chan yn ymgeisydd ar gyfer y broses recriwtio yr oedd wedi bod yn ei goruchwyllo, a phryd y digwyddodd hynny. O ganlyniad i hynny, nid wyf wedi gallu fy modloni fy hun yn llwyr nad oedd Ms Chan yn goruchwyllo'r broses recriwtio ar ôl iddi hi ei hun droi'n ymgeisydd. Mae Ms Chana wedi dweud wrthyf ei bod wedi cytuno i fod yn ymgeisydd ar ôl gwyliau'r Nadolig/y Flwyddyn Newydd, a'i bod wedi tynnu'n ôl o'r broses recriwtio ar ôl iddi droi'n ymgeisydd.

Tanseiliwyd uniondeb y broses recriwtio gan fod gan yr unig ymgeisydd fynediad at rai o'r cwestiynau asesu cyn cael ei chyfweld ar gyfer y swydd

182 Tra'r oedd yn goruchwyllo'r broses recriwtio, cefnogwyd Ms Chana gan Reolwr Llywodraethu Gweithlu'r Bwrdd Iechyd. Roedd cyfrifoldebau Rheolwr Llywodraethu Gweithlu'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys datblygu cwestiynau posibl y gallai'r Panel eu rhoi i'r ymgeiswyr. Ar 15 Rhagfyr 2015, anfonodd Rheolwr Llywodraethu'r Gweithlu ddrafft cynnar o'r cwestiynau a awgrymwyd at Ms Chana, a chynnig am destun y byddai disgwyl i ymgeiswyr roi cyflwyniad arno. Y testun a anfonwyd at Ms Chana oedd y testun y gofynnwyd i Ms Chana roi cyflwyniad arno o flaen y panel recriwtio ar 13 Ionawr 2016. Defnyddiodd y panel hefyd rai o'r 1cwestiynau a anfonwyd at Ms Chana ar 15 Rhagfyr 2015. Mae'n debygol nad oedd Ms Chana yn ymgeisydd ar gyfer swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ar 15 Rhagfyr 2015. Fodd bynnag, ar ôl i'r Bwrdd Iechyd ddod yn ymwybodol bod yr unigolyn a oedd yn arwain y broses recriwtio wedi troi'n ymgeisydd, dylid bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau na fyddai hygredded y broses yn cael ei danseilio. Mae'n amlwg na chymerwyd unrhyw gamau i'r perwyl hwnnw. Yn ôl negeseuon e-bost o'r cyfnod rhwng Ms Chana a Rheolwr Llywodraethu'r Gweithlu, roedd trafodaethau ynghylch y cwestiynau y gellid eu gofyn mewn cyfweiliadau wedi parhau hyd 6 Ionawr 2016.

183 Ar 6 Ionawr 2016, ysgrifennodd Rheolwr Llywodraethu'r Gweithlu at Ms Chana yn nodi: 'Bydd angen i mi anfon pecyn cyfweld ac ati allan i'r panel o fewn y diwrnod neu ddau nesaf. Byddaf yn parhau â'r cwestiynau yr ydym wedi bod yn eu trafod'. Ar y pryd, oedd Ms Chana eisoes yn ymgeisio am y swydd. Ni ellir felly ddiystyru'r posibilrwydd fod gan Ms Chana fynediad at gwestiynau terfynol y cyfweiliad cyn iddi gael ei hasesu. Ar ben hynny, gofynnwyd i Ms Chana roi cyflwyniad ar y testun: 'Sut fydddech chi'n datblygu'r gweithlu hyblyg a darbodus fydd ei angen arnom i gyflawni ein strategaeth Siapio ein Lles i'r Dyfodol.' Ar CV Ms Chana, y cyflwynodd i'r Bwrdd Iechyd i ddibenion yr ymarfer recriwtio, rhestrir

y canlynol fel un o'i chyflawniadau: 'Alinio adnoddau a strategaeth y gweithlu i gyd-fynd â'r strategaeth gorfforaethol 'Siapio ein Lles i'r Dyfodol 2015-2025'. Gofynnwyd felly i Ms Chana roi cyflwyniad ar yr un testun yr oedd wedi bod yn gweithio arno yn y Bwrdd lechyd o dan ei contract ymgynghori.

Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd a'i Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ynghylch y penodiad yn anghywir, yn anghyflawn ac yn anghyson

